

# **Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)**

## **Memorandwm Esboniadol**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio gan Darren Millar AC ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 17 Mawrth 2014, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Darren Millar AC**

**Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil  
Mawrth 2014**

## Cynnwys

Rhan 1: Cefndir a Diben y Bil	4
Trosolwg	4
Rhagymadrodd	4
Y cefndir deddfwriaethol	5
Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith a fwriedir	7
Cyd-destun	7
Y sefyllfa bresennol	9
Diben y ddeddfwriaeth	16
Ymgynghori	25
Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	41
Cymhwysiad tiriogaethol	44
Materion trawsffiniol	44
Crynodeb o'r prif wahaniaethau rhwng Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a Deddf Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) 2014.	45
Rhan 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol	53
Amcangyfrif o'r costau:	54
Opsiwn 1 - Gwneud dim - parhau â'r trefniadau presennol	54
Opsiwn 2 - Cynllun Gwirfoddol	56
Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil - Yr opsiwn a ffefrir	56
Crynodeb o'r costau	67
Canlyniadau anfwriadol	70
Ystyriaethau cydraddoldeb	71
Rhan 3: Nodiadau Esboniadol	72
RHAN 1 - CYFLWYNIAD	72
RHAN 2 - TRWYDDEDU	73
RHAN 3 - Y PRAWF PRESWYLIO	89
RHAN 4 - CYTUNDEBAU CARAFANNAU GWYLIAU	92
RHAN 5 - AMDDIFFYN RHAN AFLONYDDU	94
RHAN 6 - ATODOL A CHYFFREDINOL	95
ATODLEN 1 - SAFLEOEDD NAD YDYNT YN SAFLEOEDD CARAFANNAU GWYLIAU	96
ATODLEN 2 - TYSTIOLAETH AT DDIBENION Y PRAWF PRESWYLIO	96
ATODLEN 3 - DARPARIAETHAU TROSIANNOL A DARFODOL AC ARBEDION	97
Atodiad A - Cyfeiriadau	98



## **Rhan 1: Cefndir a Diben y Bil**

### **Trosolwg**

1. Bydd y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) yn moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru, yn codi safonau yn y sector ac yn mynd i'r afael â'r nifer fach o berchnogion safleoedd a meddianwyr carafannau sy'n torri'r gyfraith.
2. Bydd y Bil yn moderneiddio'r gyfundrefn bresennol o drwyddedu safleoedd carafannau gwyliau. Caiff awdurdodau lleol ddyletswyddau newydd a phwerau gorfodi er mwyn iddynt sicrhau bod safleoedd carafannau gwyliau yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n dda. Ymdrinnir yn gadarn ag achosion o dorri amodau trwydded drwy gyfuniad o gamau gorfodi statudol a dirwyon, a fydd yn rhwystr effeithiol.
3. Nod y Bil yw dod â'r arfer o ddefnyddio carafannau gwyliau fel preswylfa barhaol i ben, drwy ei gwneud yn ofynnol i berchnogion a meddianwyr hirdymor ddangos fod ganddynt gartref parhaol mewn man arall, a thrwy roi pwerau i awdurdodau lleol fynd i'r afael â meddianwyr sy'n methu'r prawf hwn.
4. Hefyd, bydd y Bil yn rhoi hawl gyfreithiol i berchnogion carafannau a meddianwyr hirdymor gael datganiad ysgrifenedig o'r amodau a'r telerau y maent yn ddarostyngedig iddynt wrth feddiannu'r llain, a bydd yn rhagnodi nifer o delerau ymhlyg a fydd yn gymwys i'r holl gytundebau carafannau gwyliau.

### **Rhagymadrodd**

5. Ar 24 Ebrill 2013 bu Darren Millar AC yn llwyddiannus yn y balot a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 ar yr hawl i ofyn caniatâd i gyflwyno Bil Aelod. Mae ei gynnig yn ymwneud â safleoedd carafannau gwyliau. Ar 19 Mehefin 2013 cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y câi Mr Millar osod Bil i roi effaith i'r wybodaeth yr oedd wedi'i darparu cyn y balot.
6. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio ac wedi'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Mae'n nodi cefndir y darpariaethau a chwmpas y Bil.

7. Yn y Memorandwm Esboniadol hwn mae'r term "safle carafannau gwyliau" yn cynnwys safleoedd â charafannau sefydlog, safleoedd carafannau teithio, a safleoedd defnydd cymysg a all gynnwys cartrefi symudol preswyl, a elwir yn gyffredin yn gartrefi mewn parciau, yn ogystal â lleiniau gwyliau, carafannau teithio (carafannau sy'n cael eu tynnu o safle i safle) a chartrefi modur. Bydd angen i safle defnydd cymysg gael ei drwyddedu o dan y Bil hwn yn ogystal ag o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

## **Y cefndir deddfwriaethol**

8. Mae Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu i Filiau gael eu cyflwyno gan Aelodau'r Cynulliad sydd ar y meinciau cefn, yn ogystal â chan Lywodraeth Cymru, os oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn maes polisi.
9. Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Deddf mewn perthynas â charafannau gwyliau i'w gael yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae pwnc 11 (Tai) yn cynnwys yn benodol garafannau preswyl a chartrefi symudol; mae pwnc 12 (Llywodraeth Leol) yn cynnwys yn benodol bwerau a dyletswyddau'r awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion; mae pwnc 17 (Twristiaeth) a phwnc 18 (Cynllunio Gwlad a Thref) yn cynnwys yn benodol safleoedd carafannau. Mae'r penawdau perthnasol o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 wedi'u hatgynhyrchu isod ac mae'r pynciau perthnasol wedi'u hamlygu:

### **Pwnc 11: Tai**

Tai. Ariannu tai ac eithrio cynlluniau sy'n cael cefnogaeth o gronfeydd canolog neu leol sy'n darparu cymorth ar gyfer dibenion diogelwch cymdeithasol i unigolion ar ffurf budd-daliadau neu mewn perthynas â hwy. Hybu'r defnydd o effeithlonrwydd ynni a chadwraeth yn y cartref heblaw drwy waharddiadau neu reoliadau. Rheoleiddio rhent. Digartrefedd. Carafannau preswyl a chartrefi symudol.

### **Pwnc 12: Llywodraeth leol**

Cyfansoddiad, strwythur ac ardaloedd awdurdodau lleol. Trefniadau etholiadol awdurdodau lleol. **Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion.** Ariannu llywodraeth leol.

Nid yw “awdurdodau lleol” yn cynnwys awdurdodau heddlu [comisiynwyr heddlu a throsedd].

Eithriadau—

Etholfraint llywodraeth leol.

Cofrestru a gweinyddu etholiadol.

Cofrestru genedigaethau, priodasau, partneriaethau sifil a marwolaethau.

Trwyddedu gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a lluniaeth hwyr y nos.

Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Pridiannau tir lleol, ar wahân i ffioedd.

Masnachu ar y Sul.

Darparu cyngor a chymorth dramor gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad â gweithgarwch llywodraeth leol yno.

### **Pwnc 17: Twristiaeth**

Twristiaeth

### **Pwnc 18: Cynllunio Gwlad a Thref**

Cynllunio gwlad a thref gan gynnwys adeiladau rhestredig [ac ardaloedd cadwraeth]. Meysydd carafannau. Cynllunio gofodol. Gweithfeydd mwynol. Datblygu trefol. Trefi newydd. Diogelu harddwch gweledol.

Eithriad -

Caniatâd i ddatblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

Does dim cyfyngiadau cyffredinol nac esemptiadau i'r cyfyngiadau hyn yn Neddf 2006.

Mae swyddogaethau Gweinidogion y Goron yn Neddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960, Deddf Safleoedd Carafannau 1968, a Deddf Cartrefi Symudol 1983 wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac eithrio swyddogaethau'r Trysorlys o dan baragraff 6 o'r ail atodlen i Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960.

Mae swyddogaethau'r Trysorlys o dan baragraff 6 o'r Ail Atodlen i Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 yn ymwneud â Gorchmynion ynglŷn â thir comin a thir y Goron o dan amgylchiadau cyfyngedig.

## **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith a fwriedir**

### **Cyd-destun**

10. Yn 2013, pasiwyd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Deddf 2013) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y ddeddfwriaeth honno, pan fydd wedi cychwyn yn llwyr, yn darparu fframwaith deddfwriaethol modern ar gyfer safleoedd parciau gwyliau yng Nghymru, a fydd yn fuddiol i berchnogion safleoedd, trigolion cartrefi mewn parciau, ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am drwyddedu safleoedd.
11. Cafodd safleoedd carafannau gwyliau eu hepgor yn benodol o Ddeddf 2013. Y rheswm am hyn oedd bod cynnig gwreiddiol Peter Black AC yn canolbwyntio ar gartrefi symudol preswyl yn unig - byddai carafannau gwyliau y tu hwnt i gwmpas y Bil hwnnw. Fodd bynnag, bydd y Bil hwn yn moderneiddio'r gyfundrefn drwyddedu ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau, a bydd hefyd yn cryfhau ac yn egluro'r hawliau sydd gan berchnogion carafannau gwyliau a pherchnogion safleoedd. Felly, mae fframwaith y Bil, yn ei hanfod, yn debyg i Ddeddf 2013. Ar dudalen 45 ceir tabl sy'n dangos y prif wahaniaethau rhwng Deddf 2013 a'r Bil hwn.
12. Mae'r diwydiant carafannau gwyliau yng Nghymru yn fwy o lawer na'r diwydiant cartrefi mewn parciau. Yng Nghymru, mae tua 3,400 o gartrefi mewn parciau, ond mae tua 70,000 o unedau gwyliau. O'r rheini mae 64% yn unedau sefydlog a berchnogir (hynny yw carafannau, cabanau gwyliau, chalets ac ati), mae 8% yn unedau sefydlog a rentir ac mae 27% yn lleiniau teithio (ar gyfer carafannau, pebyll, pebyll ar drelars a chartrefi modur).<sup>1</sup>
13. Nid yw carafannau gwyliau wedi'u bwriadu, na'u dylunio yn y rhan fwyaf o achosion, i bobl fyw ynddynt yn barhaol. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU, mae tystiolaeth bod cynnydd mewn defnyddio carafannau gwyliau yn gartrefi parhaol. Yn ogystal â bod yn groes i amodau cynllunio, amodau trwyddedau safle a chytundebau trwyddedau unigol, mae

hyn fel rheol yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, a gall olygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tanariannu, gan fod llawer o'r bobl hyn "o'r golwg" o ran yr ystadegau swyddogol. Bydd y Bil hwn yn sicrhau bod carafannau gwyliau yn cael eu defnyddio at ddibenion gwyliau yn hytrach nag fel cartrefi parhaol.

14. Cafodd y Bil hwn ei lunio gyda chydweithrediad Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain (BH&HPA) a'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol (NCC) sydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli mwyafrif y safleoedd yng Nghymru. Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i fynd i'r afael â nifer o'r pryderon a fynegwyd mewn proses ymgynghori helaeth, a oedd yn cynnwys dau ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol, tri chyfarfod ffurfiol gyda grwpiau o berchnogion safleoedd ledled Cymru, a thrafodaeth gyda'r Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau (NACO). Felly, mae'r Bil yn diogelu buddiannau'r diwydiant, ac yn cydnabod yr effaith economaidd gadarnhaol sylweddol y mae'n ei chael ar economi Cymru. Serch hynny, mae hefyd yn anelu at fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan nifer fach o berchnogion safleoedd, sydd, gan mwyaf, heb ymaelodi â chyrrff masnachu cymeradwy nac yn cadw at unrhyw god ymarfer gwirfoddol, a pherchnogion carafannau gwyliau nad ydynt yn ymddwyn yn briodol.
15. Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth fel y gall awdurdodau lleol gael pwerau trwyddedu a gorfodi priodol a chymesur er mwyn iddynt fynd i'r afael â meddiannaeth anghyfreithlon, ond gan sicrhau bod y diwydiant yn dal i ffynnu yng Nghymru. Drwy roi'r pŵer i awdurdodau lleol godi ffioedd, bydd y Bil yn sicrhau bod modd monitro amodau trwyddedau safle yn well, yn rheolaidd ac yn gyson ledled Cymru, a hynny am y tro cyntaf.
16. Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori yn y dyfodol gydag unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb dros reoli risg llifogydd wrth ystyried pa amodau i'w gosod mewn trwydded safle. Mae'r llifogydd a gafwyd yng Nghymru yn ddiweddar wedi dangos bod rhai safleoedd carafannau gwyliau yn wynebu risg sylweddol o lifogydd, yn enwedig ar yr arfordir.
17. Mae'r Bil yn cynnig bod nifer o'r darpariaethau yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn cael eu cymhwyso i safleoedd carafannau gwyliau, gan gydnabod ar yr un pryd bod safleoedd gwyliau, a'r diwydiant carafannau gwyliau, yn gweithredu o fewn cyd-destun tra gwahanol i gartrefi symudol preswyl.



18. Mae'r wybodaeth a roddwyd gan Mr Millar cyn y balot yn nodi'r prif faterion y mae'r Bil hwn yn anelu at fynd i'r afael â hwy:

- byw mewn carafannau yn anghyfreithlon
- pwerau sydd gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phobl sy'n byw mewn carafannau yn anghyfreithlon
- yr adnoddau sydd ar gael i orfodi amodau gweithredu sydd ynghlwm â thrwyddedau meysydd carafannau gwyliau
- priodoldeb gweithredwyr/perchnogion meysydd carafannau gwyliau
- camdriniaeth rhai perchnogion meysydd carafannau gwyliau o berchnogion carafannau gwyliau ar eu safleoedd
- cost darparu gwasanaethau cyhoeddus i'r rhai sy'n defnyddio carafannau gwyliau fel eu prif gartref.

19. Ni fydd Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 bellach yn gymwys yng Nghymru. Mae'r agweddau preswyl ar Ddeddf 1960 eisoes wedi'u diddymu gan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 mewn perthynas â Chymru. Felly, bydd y Bil hwn yn datgymhwyso gweddill yr agweddau hynny ar Ddeddf 1960 sy'n berthnasol i Gymru.

## **Y sefyllfa bresennol**

### *Trwyddedau safle*

20. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi trwydded safle carafannau o dan Ddeddf 1960, ar yr amod bod y caniatâd cynllunio perthnasol wedi'i roi. Mae gweithredu safle carafannau heb drwydded yn drosedd ddiannod, sy'n agored i ddirwy o hyd at lefel 4 ar y raddfa safonol, sef £2,500 ar hyn o bryd.

21. Mae darpariaethau Deddf 1960 yn golygu mai ychydig iawn o bwerau sydd gan awdurdodau lleol i wrthod rhoi trwydded. Rhaid i drwydded gael ei rhoi gan yr awdurdod lleol o fewn deufis (neu gyfnod hirach drwy gytundeb rhwng y partïon) ar ôl y cais ar yr amod bod y caniatâd cynllunio priodol wedi'i roi, ac ar yr amod na chafodd trwydded safle'r ymgeisydd ei dirymu yn ystod y tair blynedd blaenorol.<sup>ii</sup> Pan gaiff trwydded ei rhoi, fe'i rhoddir am gyfnod amhenodol oni bai bod cyfyngiad amser ar y caniatâd cynllunio. Golyga hyn y bydd rhai trwyddedau safleoedd wedi bod mewn grym ers degawdau heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw adolygiad cyfnodol statudol.

22. Caiff awdurdodau lleol osod amodau ar drwydded safle. Wrth osod amodau ar drwydded safle, dylai'r awdurdod lleol roi sylw i'r safonau enghreifftiol ar gyfer safleoedd carafannau sy'n cael eu cyhoeddi o dro i dro gan Weinidogion Cymru. Yn 1989 y cyhoeddwyd y safonau enghreifftiol diwethaf ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau. Y safonau enghreifftiol yw'r hyn y gellid disgwyl ei weld fel rheol yn arferion da ar safleoedd. Maent yn darparu ar gyfer cynllun safleoedd carafannau, y cyfleusterau sy'n cael eu darparu, a'r cyfarpar ar safleoedd. Caiff trwyddedau safle gynnwys cyfyngiadau preswyllo, er nad yw hynny'n ofynnol, a chânt gyfyngu'r defnydd o'r safle yn benodol at ddibenion gwyliau yn unig. Caiff amodau cynllunio osod cyfyngiadau tebyg hefyd.
23. O dan Ddeddf 1960, mae'r pwerau sydd gan awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi pe byddai un o amodau'r drwydded yn cael ei thorri yn gyfyngedig. Heblaw hynny, nid oes dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gymryd camau gorfodi na chynnal archwiliadau rheolaidd; nid oes gan awdurdodau lleol bŵer i gyflwyno hysbysiadau gorfodi na hysbysiadau cydymffurfio mewn perthynas â'r drwydded safle, er bod ganddynt bŵer i erlyn perchennog y safle. Pan fo perchennog/gweithredwr safle wedi'i gael yn euog deirgwaith am dorri un o amodau'r drwydded, caiff yr awdurdod lleol ofyn i'r llys ddirymu'r drwydded.<sup>iii</sup>
24. Yn wahanol i swyddogaethau trwyddedu eraill awdurdodau lleol, gan gynnwys trwyddedu safleoedd cartrefi mewn parciau a Thai Amlfeddiannaeth, nid yw'r awdurdod lleol yn cael codi ffi am brosesu neu roi trwydded. Mae hyn yn rhwystro awdurdodau lleol rhag cael refeniw i ariannu eu gweithgareddau trwyddedu.
25. Rhaid i safle fod wedi cael y caniatâd cynllunio priodol cyn y caiff trwydded ei rhoi o dan Ddeddf 1960. Gall amodau cynllunio gyfyngu ar ddefnyddio'r tir i adeg benodol o'r flwyddyn, a thrwy hynny bennu "tymor caeedig". Bydd y cyfyngiad hwn yn amrywio o ardal i ardal ac o safle i safle, ond mae'n arfer cyffredin i gyfyngu ar feddiannaeth carafannau i gyfnod penodol o'r flwyddyn. Gallai amodau cynllunio hefyd, er enghraifft, osod cyfyngiad amser ar hawl meddiannydd i ddefnyddio'r garafán, a gosod cyfyngiad ar yr adeg y caiff y person hwnnw ddychwelyd. Serch hynny, ni fydd pob amod cynllunio o reidrwydd yn cyfyngu ar ddefnyddio safle carafannau at ddibenion "gwyliau"<sup>iv</sup> ac mae anawsterau ymarferol wrth wneud hynny; er enghraifft, mae llawer o garafannau gwyliau yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi, felly nid yw'n anarferol iddynt gael eu defnyddio am

gyfnodau hir. Fel y nodwyd mewn adroddiad i Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio, Cyngor Sir Ddinbych ym mis Mehefin 2010, gall peidio â gosod amod sy'n cyfyngu ar feddiannaeth i ddefnydd gwyliau achosi nifer o anawsterau:

As such we now have a number of Caravan Sites that restrict opening for only 2 months of the year, but no controls restricting the use of each caravan to only "holiday". It is therefore possible to reside in a caravan on such sites for 10 months of the year as the "main residence" and vacate the site for 2 months to live with friends/family/rent local accommodation elsewhere/have an extended foreign vacation etc. without being in breach of any planning "law/permission". Under such circumstances the occupier of the caravan considers themselves "residents" of the County and uses all the facilities, although may not be liable to pay Council Tax as they reside on a Caravan Site, with limited opening albeit for 10 months of the year.<sup>v</sup>

26. Mae Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru 13 (TAN 13)<sup>vi</sup> yn amlinellu'r polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â thwristiaeth. Mae TAN 13 yn nodi'n benodol y gellir gosod amodau yn cyfyngu ar feddiannaeth carafannau at ddibenion gwyliau neu ddefnydd tymhorol.
27. ganlyniad i'r Bil hwn, disgwylir y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn sicrhau yn y dyfodol y bydd unrhyw ganiatâd a gaiff ei roi ar gyfer safleoedd gwyliau yn cael ei roi'n benodol at ddibenion gwyliau'n unig.
28. Mewn arolwg o'r 22 awdurdod lleol a wnaed er mwyn datblygu'r Bil hwn, daeth i'r amlwg o'r 18 ymateb a ddaeth i law nad oedd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol wedi eu cymryd yn y pum mlynedd diwethaf am dorri amodau trwydded.

### ***Hawliau meddianwyr carafannau***

29. Er bod y diwydiant yn argymhell hynny fel un o'i arferion gorau, nid oes rheidrydd cyfreithiol ar berchennog carafán wyliau a pherchennog safle carafannau gwyliau i lunio cytundeb ysgrifenedig. Fodd bynnag, mewn sawl achos, mae perchennog carafán yn debygol o fod wedi llofnodi cytundeb gyda pherchennog y safle a fydd yn rhoi caniatâd iddo osod ei garafán ar lain am gyfnod penodol. Fel arfer, bydd y cytundeb hwn yn amlinellu amodau penodol fel y ffi am y llain, unrhyw daliadau gwasanaeth eraill, a chyfradd y comisiwn a gaiff ei godi gan y safle pe byddai perchennog y garafán yn ei gwerthu.

30. Ym mis Medi 2005, cyhoeddodd y Swyddfa Masnachu Teg ganllawiau ynghylch amodau annheg mewn cytundebau carafannau gwyliau<sup>vii</sup> ac yn 2008 cytunodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain a'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol gyda'r Swyddfa Masnachu Teg i gynnig amodau a thelerau tecach i ddefnyddwyr sy'n prynu carafannau gwyliau a leolir ar barciau gwyliau.
31. Arweiniodd hyn at fabwysiadu cytundeb trwydded enghreifftiol ar gyfer y diwydiant, sy'n nodi'n benodol nad yw'r garafán i'w defnyddio fel preswylfa barhaol, ac y gall perchennog safle ddod â'r cytundeb i ben os caiff yr amod hwn ei dorri. Dewis gwirfoddol yw mabwysiadu'r cytundeb enghreifftiol, ac felly nid yw wedi'i fabwysiadu gan y diwydiant drwyddo draw. Nid oes rhaid i safleoedd ddefnyddio'r cytundeb, hyd yn oed pan fo perchnogion safleoedd yn aelodau o'r cyrff a'i datblygodd o fewn y diwydiant.
32. Mae yswiriant perchennog y safle yn annhebygol o gwmpasu sefyllfaoedd lle defnyddir carafannau fel prif breswylfeydd. Er enghraifft, ni fyddai rhaid i berchennog safle ailgartrefu meddianwyr carafannau dros dro mewn achos o lifogydd neu dân. Un rheswm am hyn yw y byddai cwmnïau yswiriant o'r farn nad yw garafán wyliau o'r un safon â phrif breswylfa (sy'n cynnwys cartrefi preswyl mewn parciau). Mae'n bosibl y byddai unrhyw warant a roddir gyda charafán wyliau hefyd yn annilys pe byddai rhywun yn byw ynddi'n barhaol.
33. Yn ogystal â chytundeb trwydded, mae gan barciau reolau yn aml iawn sy'n cwmpasu trefniadau lleol fel cyfyngiadau cyflymder.

### ***Defnyddio carafannau gwyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa***

34. Cafodd yr astudiaeth mwyaf arwyddocaol o'r defnydd preswyl a wneir o safleoedd carafannau gwyliau ei gwneud gan y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol ym Mhrifysgol Sheffield Hallam yn 2011. Roedd y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar arfordir Swydd Lincoln.<sup>viii</sup> Mae'n debyg mai yn y rhan honno o Loegr y mae'r nifer fwyaf o garafannau sefydlog yn Ewrop. Nid oes unrhyw reswm, mewn egwyddor, pam na fyddai rhai o'r prif ganfyddiadau yn berthnasol i Gymru, yn enwedig arfordir y gogledd lle mae nifer fawr o garafannau gwyliau.

35. Canfu ymchwil Swydd Lincoln y dylai tua 2,700 o bobl (1,400 o aelwydydd) mewn carafannau gwyliau gael eu hystyried yn breswylwyr amser llawn, ac roedd bron 90% ohonynt yn berchen ar eu carafán eu hunain. Ar hyd arfordir Swydd Lincoln mae tua 25,000 o garafannau sefydlog, felly mae dros 5% o'r bobl sy'n byw mewn carafannau gwyliau ar unrhyw adeg yn byw yno'n barhaol.
36. Mae'r gwaith ymchwil a gafodd ei wneud wrth lunio'r Bil hwn hefyd wedi datgelu tystiolaeth bod pobl yn byw'n barhaol mewn carafannau gwyliau yng Nghymru, er mai at ddibenion hamdden yn unig y dylid defnyddio carafannau gwyliau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn eu defnyddio weithiau fel unig breswylfa neu brif breswylfa. Bydd y math yma o ddefnydd fel arfer yn groes i amodau trwydded y safle, y caniatâd cynllunio a'r cytundebau trwydded unigol rhwng perchnogion carafannau a pherchnogion safleoedd. Nod y Bil hwn yw rhwystro carafannau gwyliau rhag cael eu defnyddio fel unig breswylfa neu brif breswylfa drwy osod dyletswyddau newydd ar berchnogion safleoedd ac awdurdodau lleol, a thrwy osod sancsiynau priodol ar y rhai sy'n defnyddio carafannau gwyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa.
37. Gall defnyddio carafannau gwyliau fel cartrefi parhaol achosi amryw o broblemau i'r rhai sy'n byw yn y garafán, y safle carafannau, perchennog y safle, y gymuned leol a'r awdurdod lleol. Rhai o'r problemau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghori ar y Bil hwn oedd:
- yr effaith y mae'r boblogaeth "gudd" hon yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus;
  - addasrwydd carafannau gwyliau i fyw ynddynt drwy'r flwyddyn;
  - yr effeithiau negyddol posibl ar y diwydiant twristiaeth.
38. Mae'r prif gyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant carafannau gwyliau, y Cyngor Carafannau Cenedlaethol a Chymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain, wedi cydnabod y problemau a achosir gan y mater hwn, ac maent wedi mynd i'r afael â hyn gyda'u haelodau a'r cyhoedd sy'n defnyddio carafannau gwyliau.
39. Mae'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol wedi cyhoeddi canllawiau penodol<sup>ix</sup> ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n nodi enghreifftiau o gamddefnyddio carafannau gwyliau. Mae'r canllawiau hyn yn nodi fel a ganlyn:

- byddai perchennog y garafán yn torri ei gytundeb gyda pherchennog y safle a gallai hynny arwain at ganlyniadau cyfreithiol difrifol;
- ni fydd deddfwriaeth i amddiffyn trigolion cartrefi mewn parciau yn erbyn eu troi allan ac aflonyddu arnynt yn gymwys os yw person yn byw mewn carafán wyliau;
- ni fydd digon o insiwleiddiad mewn carafannau gwyliau i allu eu defnyddio yn y gaeaf; ac
- ni fydd yr yswiriant ar gyfer cartrefi gwyliau fel arfer yn darparu llety amgen pe byddai llifogydd neu dân neu pe byddai'r garafán yn mynd anaddas i fyw ynddi.

40. Mae cytundeb trwydded safonol y diwydiant hefyd yn mynd i'r afael â'r mater hwn, ac mae'n cynnwys datganiad yn gwahardd defnydd preswyl. Mae'r cytundeb yn nodi fel a ganlyn:

Nid yw'r cytundeb hwn yn caniatáu ichi ddefnyddio'r garafán yn breswylfa barhaol. Y cyfeiriad a roddir gennych fydd unig breswylfa neu brif breswylfa Perchennog/Perchnogion y Garafán, lle y caiff pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r garafán ei hanfon. Bydd rhaid ichi ddangos tystiolaeth ddogfennol eich bod yn byw yn y cyfeiriad a roddwyd gennych.

41. Er bod mwyafrif y perchnogion safle yn gweithredu'n gyfrifol ac yn cydymffurfio â'u hymrwymiaadau cyfreithiol, mae'n ymddangos bod rhai perchnogion yn gwrthod mynd ati'n wirfoddol i reoleiddio'u hunain. Mae hefyd yn amlwg nad oes gan awdurdodau lleol adnoddau na phwerau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

42. Wrth wneud gwaith ymchwil ar gyfer datblygu'r Bil hwn daeth rhywfaint o ddata swyddogol i'r amlwg (data am y dreth gyngor, hawliadau budd-dal tai, cofrestriadau gyda meddygon teulu a throseddu) sy'n dangos i ba raddau y mae pobl yn byw'n barhaol mewn carafannau gwyliau.

### *Y Dreth Gyngor*

43. Dim ond os mai'r garafán yw eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa y byddai gofyn i drigolion carafannau gwyliau dalu'r dreth gyngor.<sup>x</sup> Ond ymddengys bod amrywiaeth yn y ffordd yr eir i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru. Wrth lunio'r Bil hwn, cysylltwyd â phob awdurdod lleol yng Nghymru a gofynnwyd iddynt faint o drigolion carafannau preswyl a oedd yn talu'r dreth gyngor. Ni allai nifer o awdurdodau lleol roi'r wybodaeth hon oherwydd y ffordd yr oedd y

data'n cael eu cadw; roedd awdurdodau eraill o'r farn nad oedd angen talu'r dreth gyngor yn achos carafannau gwyliau. Fodd bynnag, gwelwyd bod o leiaf 400 o drigolion mewn chwe awdurdod lleol yn talu'r dreth gyngor, er eu bod, mewn gwirionedd, yn byw mewn carafannau ar safleoedd gwyliau. Mae'n bwysig nodi y gallai'r ffigur hwn gynnwys rhai gweithwyr sy'n byw'n gyfreithiol mewn unedau preswyl ar safleoedd gwyliau.

#### *Hawlio Budd-dal Tai*

44. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol yng Nghymru gadarnhau faint o bobl a oedd wedi hawlio'r budd-dal tai ar gyfer carafannau gwyliau. Cafwyd gwybodaeth gan chwe awdurdod lleol, a datgelwyd bod 62 o hawliadau wedi cael eu talu rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2013.

#### *Cofrestru gyda meddyg teulu*

45. Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru giplun o iechyd yng Ngogledd Cymru.<sup>xi</sup> Mae'r adroddiad yn sôn am y nifer fawr o safleoedd carafannau ar arfordir gogledd Cymru, yn enwedig ym Mae Cinmel a Thywyn, ac mae'n awgrymu y gallai nifer sylweddol o bobl fod yn byw mewn carafannau am gyfnodau hir ac yn defnyddio gwasanaethau iechyd lleol. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y gwaith ymchwil a gafodd ei wneud gan Brifysgol Sheffield Hallam, ac mae'n sôn am gyfatebiaeth bosibl â gogledd Cymru.
46. Cronfa ddata o'r holl gleifion sydd wedi cofrestru gydag ymarferydd cyffredinol GIG yng Nghymru a Lloegr yw system Exeter. Drwy gymharu codau post safleoedd carafannau gwyliau (dim ond lle'r oedd gan safle god post unigryw a dim unedau preswyl) gyda'r gronfa ddata daeth i'r amlwg bod 82 o breswylwyr ar sampl o 12 safle yng Nghonwy wedi cofrestru'n barhaol gyda meddyg teulu drwy ddefnyddio cyfeiriad eu carafán wyliau. Nid yw hynny'n cynnwys pobl a gofrestrodd dros dro.

#### *Troseddu*

47. Mae problemau troseddu, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, hefyd yn gysylltiedig â safleoedd carafannau gwyliau. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau bod 83 o bobl yn y 12 mis diwethaf, a oedd â chyfeiriad ar safle carafannau, wedi'u harestio am drosedd neu wedi'u henwi o fod dan amheuaeth o gyflawni trosedd.

### *Data eraill*

48. Dangosodd ymchwil a gafodd ei wneud gan Gyngor Conwy yn 2007/08 bod nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu i garafannau, yn enwedig tocynnau teithio rhatach ar fysiau. Canfu'r Cyngor fod 361 o docynnau teithio wedi cael eu rhoi i unigolion a oedd yn byw ar safleoedd carafannau gwyliau.

### **Diben y ddeddfwriaeth**

#### ***Rhan 1 - Cyflwyniad***

49. Mae Rhan 1 o'r Bil yn rhoi trosolwg o'r Bil a'r prif ddiffiniadau. Nid yw'r Bil yn gymwys i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

#### ***Rhan 2 - trwyddedu***

##### *Trwyddedau safle*

50. dan y Bil hwn, bydd angen i safleoedd carafannau gwyliau gael trwydded. Ystyr "safle carafannau gwyliau" yw unrhyw dir y gosodir un neu ragor o garafannau gwyliau arno er mwyn i bobl fyw ynddynt lle mae'r caniatâd cynllunio perthnasol wedi'i roi at ddefnydd gwyliau yn unig, neu lle mae'r tir yn cael ei gynnig, neu wedi'i fwriadu i gael ei gynnig, i'w ddefnyddio fel llety gwyliau. Fel o dan Ddeddf 1960, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw cofrestr gyhoeddus o safleoedd. Fodd bynnag, mae rhai safleoedd nad ydynt i gael eu hystyried yn safleoedd carafannau gwyliau at ddibenion y Bil hwn. Nodir y safleoedd hynny yn Atodlen 1 i'r Bil. Mae gan rai sefydliadau dystysgrifau eithrio o dan Atodlen 1 i Ddeddf 1960, ac felly nid oes angen iddynt gael trwydded. Bydd yr eithriadau hynny'n parhau o dan y Bil, oni chânt eu tynnu'n ôl gan Weinidogion Cymru. Ni fydd safleoedd carafannau gwyliau sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Ran 2 o'r Bil, ac felly ni fydd angen trwydded arnynt, ond byddant yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y Bil. Bydd gweithredu safle heb drwydded yn drosedd a fydd yn agored i ddirwy anghyfyngedig. Ar hyn o bryd, y ddirwy uchaf y caiff llys ynadon ei phennu yw lefel 5 (£5,000). Fodd bynnag, pan ddaw adran 85 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 i rym, bydd dirwy lefel 5 yn dod yn ddirwy anghyfyngedig, ac mae'r Bil felly yn adlewyrchu hynny. Pan fo'r Bil neu'r Memorandwm



Esboniadol hwn yn cyfeirio at “ddirwy”, mae'n golygu dirwy anghyfngedig.

51. Pan fo safle heb ei drwyddedu (a heb ei eithrio rhag cael ei drwyddedu), caiff meddiannydd y garafán wyliau wneud cais i'r llys am orchymyn ad-dalu pan fydd ganddo gytundeb carafán wyliau gyda pherchennog y safle. Gall gorchymyn ad-dalu ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r rheolwr ad-dalu unrhyw symiau a gafwyd gan y meddiannydd yn y 12 mis cyn y cais am orchymyn. Bydd y gorchymyn yn nodi'n union faint sydd i'w ad-dalu, a gall gynnwys pris prynu'r garafán a thaliadau eraill fel ffioedd am leiniau. Rhaid i'r perchennog fod wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 7 o'r Bil cyn y gellir gwneud gorchymyn ad-dalu. Y llys sydd i benderfynu faint yn union sydd i'w ad-dalu gan ystyried yr hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau.
52. Bydd safleoedd carafannau gwyliau sydd eisoes â thrwydded o dan Ddeddf 1960 yn cael eu trin fel safleoedd â thrwydded o dan y Bil hwn. Bydd hyn yn ysgafnhau'r baich gweinyddol ar berchnogion safleoedd ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cyn pen 12 mis ar ôl dyddiad cychwyn y ddeddfwriaeth, rhaid i'r awdurdod lleol asesu a yw'r personau sy'n gyfrifol am reoli'r safle yn bersonau addas a phriodol. Mae “rheolwr”, at ddibenion y Bil hwn, yn cynnwys unrhyw berson sy'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli'r safle. Os penderfynir nad yw'r rheolwr yn berson addas a phriodol, ni fydd y drwydded o dan Ddeddf 1960 bellach yn gymwys.
53. Lle caiff rheolwr safle ei asesu yn berson addas a phriodol, rhaid i'r awdurdod lleol addasu'r drwydded a roddwyd o dan Ddeddf 1960 fel ei bod yn bodloni gofynion y Bil hwn o fewn cyfnod o 12 mis. Mae hyn yn golygu ychwanegu amod at y drwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog y safle gynnal prawf preswyllo ar feddianwyr bob 12 mis.
54. Yn wahanol i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, **ni fydd** trwyddedau safle a roddwyd o dan y Bil hwn **yn dod i ben**. Mae hyn yn parhau â'r trefniadau presennol o dan Ddeddf 1960 ac yn adlewyrchu pryderon y diwydiant ynghylch effaith trwyddedau amsergyfyngedig ar eu busnesau. Fodd bynnag, rhaid i drwyddedau safle gael eu “hadolygu” bob pum mlynedd. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn ddigon syml yn achos y rhan fwyaf o safleoedd ac na fyddai disgwyl i amodau trwyddedau newid heb gyfiawnhad. Gan fod gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i amrywio amodau trwyddedau neu i

wneud cais i lys ynadon i ddirymu trwyddedau o dan Ddeddf 1960, diben y ddyletswydd newydd hon yw cyflwyno elfen o gysondeb i'r trefniadau "adolygu" anffurfiol sydd eisoes yn digwydd ar sail ad hoc.

55. dan Ddeddf 1960, nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio safleoedd. O dan ddarpariaethau'r Bil hwn, rhaid i awdurdodau lleol archwilio safleoedd o leiaf unwaith bob tair blynedd i sicrhau bod safleoedd yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded. Bydd y dull hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol archwilio safleoedd ar sail risg ac mae wedi'i fwriadu i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau. Nid oes disgwyl i safleoedd sy'n cael eu cynnal yn dda ac yn broffesiynol gael eu harchwilio'n rheolaidd. Ni fydd y ddyletswydd hon yn cychwyn hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau ac wedi ymgynghori â'r diwydiant.
56. Bydd gofyn i berchnogion safleoedd, trwy gyfrwng amod gorfodol yn y drwydded, gynnal prawf preswyllo blynyddol ar feddianwyr perthnasol. Yn yr un modd, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wirio'r cofnodion a gedwir gan berchennog y safle bob blwyddyn. Nid oes gofyn i'r awdurdod lleol ymweld â'r safle i gyflawni'r dasg hon.
57. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i drwydded safle gynnwys amod i'r perwyl bod rhaid arddangos copïau o'r drwydded safle a'r dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn man amlwg ar y safle.
58. Wrth osod amodau eraill ar drwydded safle, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw safonau enghreifftiol sydd wedi eu pennu. Bydd safonau enghreifftiol 1989 yn dal i fod yn gymwys hyd oni chaiff rhai newydd eu cyhoeddi.
59. Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori gydag unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb dros reoli risg llifogydd wrth ystyried pa amodau i'w gosod ar drwydded safle. Bydd gan awdurdodau lleol bŵer i amrywio amodau trwydded.
60. Bydd apelau yn erbyn amodau trwydded yn parhau i gael eu gwrandao gan y llys ynadon.

61. Gellir trosglwyddo'r drwydded safle i berchennog newydd y tir, ond rhaid i'r person sy'n rheoli'r safle (boed yn berchennog neu beidio) fod yn berson addas a phriodol bob tro.

*Torri amodau trwydded*

62. Mae'r Bil yn darparu y caiff yr awdurdod lleol roi hysbysiad cosb benodedig neu hysbysiad cydymffurfio pan fydd perchennog safle wedi methu â chydymffurfio ag un o amodau trwydded safle. Ni chaiff y swm a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol (£500 ar hyn o bryd). Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu sut i fynd i'r afael ag achos o dorri amodau trwydded.
63. Bydd hysbysiadau cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog y safle weithredu i sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r drwydded. Bydd gan berchnogion safleoedd hawl i apelio i lys ynadon. Bydd yn drosedd i berchennog safle fethu â chymryd y camau yn yr hysbysiad cydymffurfio, a bydd yn agored i ddirwy. Fel yn achos y dirwyon eraill yn y Bil hwn, byddai dyletswydd ar y llys i gymryd i ystyriaeth amgylchiadau ariannol ac unigol troseddwr cyn pennu swm y drosedd.
64. Pan fo gan berchennog safle ddwy gollfarn neu ragor am fethu â chydymffurfio â hysbysiadau cydymffurfio, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys i ddirymu trwydded perchennog y safle.
65. Caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y perchennog fel modd o adennill treuliau yr eir iddynt gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â pharatoi a chyflwyno'r hysbysiad. Oni chydymffurfir â'r hysbysiad hwnnw, a'r perchennog safle'n cael ei gollfarnu, caiff yr awdurdod lleol gymryd camau ei hun i sicrhau y bodlonir amodau'r drwydded. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi cyfnod rhesymol o rybudd i berchennog y tir.
66. Mae adran 26 yn caniatáu i'r awdurdod lleol gymryd camau brys os na chydymffurfiwyd ag amod mewn trwydded safle, a lle bo risg ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd a diogelwch unrhyw berson a all fod ar y tir.

*Y prawf person addas a phriodol*

67. Mae'r prawf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i bob mater y mae o'r farn eu bod yn briodol. Bydd y prawf yn cael ei gynnal ar y bobl hynny sydd â chyfrifoldeb am reoli'r safle o ddydd i ddydd. Hefyd, bydd y prawf yn cael ei gynnal ar y person sydd â'r cyfrifoldeb uchaf am reoli'r safle. Os yw perchennog y safle yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle, er enghraifft drwy roi cyfarwyddiadau i'r rheolwr, bydd yntau hefyd yn destun y prawf. Mae "rheoli" yn cynnwys rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli'r safle.
68. Wrth ystyried a fodlonwyd amodau'r prawf, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw penodol i unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod y person:
- Wedi cyflawni troseddau sy'n ymwneud â thwyll, anonestrwydd, trais, arfau tanio, cyffuriau neu droseddau rhywiol;
  - Wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon wrth gynnal ei fusnes;
  - Wedi torri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â thai (gan gynnwys carafannau) neu'n ymwneud â landlord a thenant; neu
  - Wedi mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â safonau masnach.
69. Felly, mae'r prawf person addas a phriodol yn gymwys yn yr un modd ag o dan Ddeddf 2013, heblaw bod rhaid i'r awdurdod lleol hefyd roi sylw penodol i dystiolaeth sy'n dangos bod y rheolwr wedi mynd yn groes i gyfraith sy'n ymwneud â safonau masnach.
70. Efallai y bydd awdurdodau lleol hefyd am ystyried a gydymffurfiwyd ag unrhyw godau ymarfer presennol sydd gan y diwydiant, fel yr un sydd gan y Cyngor Carafannau Cenedlaethol, wrth benderfynu a basiwyd y prawf ai peidio.

### *Rheolwyr interim*

71. Mewn rhai amgylchiadau, bydd gan awdurdodau lleol bŵer i benodi rheolwr interim ar gyfer safle carafannau gwyliau. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle na chydymffurfir ag amodau trwydded; lle na ystyrir y rheolwr safle yn berson addas a phriodol mwyach; neu lle mae'r awdurdod lleol o'r farn nad oes unrhyw un yn rheoli'r safle. Mae hawl i apelio i lys ynadon yn erbyn unrhyw benderfyniad i benodi rheolwr interim.

## *Ffioedd*

72. Nid oes darpariaeth yn Neddf 1960 i awdurdodau lleol godi ffi am drwyddedau safle. Dyma anghysondeb sy'n cael ei ddatrys yn y Bil hwn.
73. Er mwyn i awdurdodau lleol allu monitro trwyddedau safle yn ddigonol, rhaid iddynt fod â digon o adnoddau. Bydd y Bil hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ffi flynyddol ar berchnogion safle am eu trwydded safle. Cyn codi ffi, rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chyhoeddi polisi ynghylch ffioedd. Caiff godi ffioedd gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd. Er enghraifft, gallai'r ffioedd fod yn seiliedig ar faint y safle.
74. Wrth bennu ffioedd, ni chaiff awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth y costau y maent wedi mynd iddynt wrth arfer unrhyw rhai o'u pwerau gorfodi o dan y Bil hwn. Felly, wrth gymryd camau gorfodi yn erbyn y nifer fach o berchnogion safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio, ni chaiff yr awdurdod lleol drosglwyddo'r costau i'r nifer fawr o berchnogion safleoedd sy'n cynnal eu busnesau mewn modd cyfrifol a phroffesiynol.

## *Rhan 3 - Y prawf preswyllo*

75. Bydd Rhan 3 o'r Bil yn cyflwyno prawf preswyllo a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw berson yn byw mewn carafán wyliau fel ei unig gartref neu ei brif gartref. Bydd rhai eithriadau i'r gofyniad hwn, ond bydd y rheini'n ymwneud â pherchennog y safle, rheolwr y safle neu berson a gyflogir i weithio ar y safle (ond dim ond lle mae'n **angenrheidiol** iddo hefyd fyw ar y safle). Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, staff sydd â chyfrifoldeb am drefniadau diogelwch. At ddibenion y Bil, mae "meddiannydd" ond yn cynnwys y rhai sy'n gwneud cytundeb carafannau gwyliau (gweler Rhan 4) sy'n rhoi hawl iddynt osod y garafán ar safle am fwy na chwe wythnos, neu feddianwyr eraill (fel y rhai sy'n is-osod) sydd â chytundeb i feddiannu'r garafán am fwy na chwe wythnos. Golyga hyn fod y prawf yn annhebygol o fod yn gymwys i'r rhan fwyaf o bobl sy'n aros mewn carafannau gwyliau nad ydynt yn berchen arnynt.
76. Bydd yr holl drwyddedau safle yn cynnwys amod a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog y safle gynnal prawf preswyllo i gadarnhau nad prif breswylfa yw'r garafán wyliau. Mae nifer o

safleoedd eisoes yn mynd ati i sicrhau na chaiff carafannau gwyliau eu defnyddio fel unig breswylfa neu brif breswylfa, ond bydd y ddeddfwriaeth hon yn sicrhau cysondeb yn y sector drwyddo draw. Bydd gofyn i feddianwyr carafannau gwyliau ddarparu dogfennau i ddangos ymhle y mae eu prif gartref preswyl. Mae'r rhain yn ddogfennau sydd ar gael yn rhwydd. Mae rhestr o'r dogfennau derbyniol i'w cael yn Atodlen 2 i'r Bil, ac mae'n cynnwys tystiolaeth bod y dreth gyngor yn cael ei thalu, biliau cyfleustodau, a phrawf eu bod wedi cofrestru gyda meddyg gan ddefnyddio'u prif gyfeiriad preswyl. Bydd gofyn i berchennog y safle gadw copi o'r dogfennau hyn yn dystiolaeth, a bydd angen iddynt fod ar gael i'w dangos i'r awdurdod lleol ar bob adeg resymol. Rhaid i berchennog y safle gynnal prawf preswyl bob 12 mis o leiaf.

77. Pan fo person eisoes yn berchen ar garafán neu'n meddiannu carafán pan gaiff y ddeddfwriaeth ei chychwyn, rhaid i berchennog y safle gynnal prawf preswyl o fewn **tri mis**. Ym mhob achos arall, rhaid cynnal y prawf preswyl cyn gwneud y cytundeb. Rhaid cynnal profion preswyl dilynol o leiaf bob 12 mis.

78. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cynnal profion preswyl ychwanegol pan fydd perchennog y safle yn credu bod amgylchiadau'r meddiannydd wedi newid.

79. Os bydd meddiannydd yn methu'r prawf preswyl, rhaid i berchennog y safle hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd. Yna, **rhaid** i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i feddiannydd y garafán wyliau, sef "hysbysiad methu prawf preswyl". Hefyd, **caiff** yr awdurdod lleol roi hysbysiad cosb benodedig i'r meddiannydd.

80. Bydd yr hysbysiad methu prawf preswyl yn nodi'r rhesymau pam fod yr awdurdod lleol yn credu bod y meddiannydd wedi methu'r prawf preswyl. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd roi'r gorau i ddefnyddio'r garafán wyliau fel ei brif breswylfa o fewn cyfnod penodol. Os bydd meddiannydd yn cael hysbysiad o'r fath, bydd ganddo hawl i apelio. Llys ynadon fydd yn gwrando ar yr apêl. Hefyd, bydd gan yr awdurdod lleol bwerau i ddirymu neu amrywio'r hysbysiad.

81. Pan fo meddiannydd yn parhau i fyw mewn carafán wyliau yn groes i hysbysiad methu prawf preswyl, bydd yn cyflawni trosedd, a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

82. Caiff yr awdurdod lleol roi cyfarwyddiadau i berchennog y safle ynghylch gweithredu mewn perthynas â meddiannydd sydd wedi methu'r prawf preswyllo, a bydd rhaid i'r perchennog gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn. Er mwyn galluogi perchennog y safle i ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, bydd yn cael ei ryddhau o'i rwymedigaeth i gydymffurfio ag amodau cytundeb carafán wyliau.
83. Bydd gofyn i awdurdodau lleol wirio'r dystiolaeth a gedwir gan berchennog y safle sy'n dangos fod y prawf preswyllo wedi'i gynnal. Rhaid cynnal y gwiriad hwn bob blwyddyn.

#### ***Rhan 4 - Cytundebau Carafannau Gwyliau***

84. Bydd Rhan 4 o'r Bil yn rhoi amddiffyniad ychwanegol i feddianwyr a pherchnogion carafannau gwyliau a pherchnogion safleoedd drwy bennu manylion cytundebau a'r telerau ymhlyg ynddynt. Ar hyn o bryd, nid oes angen gwneud cytundeb ysgrifenedig, ond mae'r diwydiant, yn ei arferion gorau, yn argymhell bod un yn cael ei wneud. Dim ond i gytundebau sy'n caniatáu i garafán wyliau gael ei gosod ar safle am fwy na chwe wythnos olynol, neu pan fydd gan feddiannydd hawl i ddefnyddio carafán wyliau sy'n eiddo i berchennog y safle am gyfnod o fwy na chwe wythnos olynol, y mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol.
85. Cyn gwneud cytundeb carafán wyliau, rhaid i berchennog y safle roi datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd arfaethedig sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y cytundeb arfaethedig. Bydd yr wybodaeth honno'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, ddyddiad dechrau a diwedd y cytundeb, dros ba gyfnodau y caniateir defnyddio'r garafán, a manylion unrhyw drefniadau comisiwn a all olygu bod angen gwneud taliad i berchennog y safle os caiff y garafán ei gwerthu.
86. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gael ei roi heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y gwneir y cytundeb, oni chytunir yn ysgrifenedig ar gyfnod byrrach. Ni ellir byrhau'r cyfnod os yw'r garafán wyliau yn cael ei gwerthu gan berchennog y safle i'r meddiannydd arfaethedig.
87. Pan fo cytundebau carafannau gwyliau wedi'u gwneud cyn cychwyn y Rhan hon, rhaid rhoi'r datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd o fewn cyfnod o dri mis ar ôl iddi gael ei chychwyn.

88. Yn adran 56 o'r Bil mae rhestr o delerau ymhlyg mewn cytundebau carafannau gwyliau. Bydd y telerau hyn yn gymwys i bob cytundeb ni waeth a oes ynddo delerau datganedig ai peidio. Mae'r telerau ymhlyg yn cynnwys amod y cydymffurfir â Rhan 3 o'r Bil, sef y prawf preswyllo.
89. Bydd yn deler ymhlyg mewn cytundeb carafannau gwyliau bod perchennog y safle carafannau gwyliau yn ymgynghori'n briodol ynghylch materion penodol â pherchnogion yr holl garafannau gwyliau ar y safle sydd â chytundeb carafannau gwyliau. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â rheoli neu weithredu'r safle, neu gynigion i newid neu wella'r safle, lle bo'r newidiadau neu'r cynigion hynny'n debygol o effeithio'n sylweddol ar feddianwyr. Ni fyddai hyn yn cynnwys trafodaethau ynghylch bwriad i werthu safle neu newid o ran y sawl sy'n gyfrifol am reoli safle. Mae'r Bil yn darparu na fydd angen ymgynghori mewn sefyllafoedd brys, pan nad yw'n ymarferol i ymgynghori, ond disgwylir i'r perchennog gymryd pob cam rhesymol yn yr amgylchiadau i geisio barn perchnogion carafannau gwyliau ar y safle.
90. Bydd cytundebau carafannau gwyliau yn rhwymo unrhyw olynydd mewn teitl i berchennog safle carafannau gwyliau. Llys sirol fydd yn gwrandao ar unrhyw anghydfodau ynghylch cytundebau carafannau gwyliau, oni bai bod y naill ochr a'r llall wedi cytuno i gymrodeddu.

### ***Rhan 5 – Amddiffyn rhag aflonyddu***

91. Ni fydd perchnogion a meddianwyr carafannau gwyliau yn cael eu hamddifyn o dan Ddeddf Amddiffyn rhag Troi Allan 1977 yn achos unrhyw garafán wyliau a osodwyd ar safle carafannau gwyliau. Fodd bynnag, mae Rhan 5 o'r Bil yn amddiffyn perchnogion a meddianwyr carafannau gwyliau rhag aflonyddu. Yn y Rhan hon mae "meddianwyr" yn cynnwys meddianwyr tymor byr (llai na chwe wythnos).
92. Mae person sy'n euog o drosedd o dan y Rhan hon yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy a charchar am hyd at 12 mis. Lle yr ymdrinnir â'r achos yn Llys y Goron, y ddeddfryd uchaf bosibl yw dirwy a charchar am hyd at ddwy flynedd.



## ***Canlyniadau anfwriadol***

93. Nid oes data ynghylch demograffeg, tarddiad ethnig na nodweddion gwarchoddedig eraill pobl sy'n byw'n barhaol ar safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru. Mae hyn yn wahanol i'r sector cartrefi mewn parciau y gwyddys eu bod yn darparu ar gyfer pobl hŷn, sydd o bosibl yn fwy agored i niwed. Felly, nid yw'n bosibl asesu'r effaith ar grwpiau unigol.
94. Mae rhai pobl yn byw mewn carafannau gwyliau am nad oes ganddynt lety arall. O ganlyniad i'r Bil hwn, bydd angen iddynt ddod o hyd i lety arall. Mae adnoddau ariannol gan lawer o'r meddianwyr hyn, ac felly bydd modd iddynt wneud trefniadau amgen ar gyfer eu llety heb gymorth gan yr awdurdod lleol.
95. Mae'r gwaith ymchwil a gafodd ei wneud wrth lunio'r Bil hwn wedi dangos bod nifer o bobl yn hawlio Budd-dal Tai ar gyfer carafannau gwyliau. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r meddianwyr hyn yn cyflwyno'u hunain i'r awdurdod lleol fel pobl ddigartref pan fydd rhaid iddynt adael eu carafán wyliau. Bydd yr union gymorth y bydd ganddynt hawl iddo yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, a bydd hefyd yn dibynnu ar y cynigion yn y Bil Tai (Cymru).
96. Gallai fod rhywfaint o gostau i awdurdodau lleol wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, ni ddylai fod yn gost barhaus, oherwydd bydd y Bil yn atal pobl rhag mynd i fyw'n barhaol mewn carafannau gwyliau yn y dyfodol.

## **Ymgynghori**

### ***Rhagymadrodd***

97. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad i gael gwybodaeth i lunio'r Bil hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf ar amcanion polisi'r Bil. Yna, cynhaliwyd ail ymgynghoriad byr ar y Bil drafft, ac arweiniodd hynny at nifer o newidiadau.

### ***Yr ymgynghoriad cyntaf***

98. Roedd dwy ran i'r ymgynghoriad cyntaf, sef ymgynghoriad ysgrifenedig traddodiadol ac ymgynghoriad ar-lein ar wefan SurveyMonkey. Cafwyd cyfanswm o 172 o ymatebion.

99. Daeth y nifer fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig cyntaf gan berchnogion/gweithredwyr safleoedd. Dim ond dau awdurdod lleol ac un Awdurdod Parc Cenedlaethol a ymatebodd. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion unigol gan bobl a oedd â phrofiad o'r sector a hefyd gan sefydliadau cynrychiadol, gan gynnwys y ddwy brif gymdeithas fasnach – y Cyngor Carafannau Cenedlaethol (NCC) a Chymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain (BH&HPA). Cafwyd cyfanswm o 57 o ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig cyntaf. Daeth yr ymatebion o'r sectorau canlynol:
- Perchnogion safleoedd: 26
  - Unigolion: 14
  - Cyrff cynrychiadol: 7
  - Awdurdodau lleol: 5 (yn cynnwys tri o Gonwy ac un o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
  - Yr heddlu: 2
  - Arall: 2
100. Cafwyd 115 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein. Roedd yr ymatebion hyn yn ddi-enw, ond i bob golwg roedd llawer ohonynt gan berchnogion/meddianwyr carafannau gwyliau. Gofynnodd yr arolwg ar-lein saith cwestiwn tebyg i'r rhai a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig, ond cawsant eu hanelu at bobl a oedd â phrofiad uniongyrchol o aros ar safleoedd gwyliau yn hytrach na pherchnogion neu awdurdodau lleol.
101. Roedd y dystiolaeth yn rhannu'n safbwyntiau amlwg, gyda pherchnogion safleoedd ar y cyfan yn ffafrio naill ai gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol yn well neu wneud newidiadau cyfyngedig i wneud y ddeddfwriaeth bresennol yn fwy effeithiol. Roedd ymatebion yr awdurdodau lleol yn gryf o blaid moderneiddio'r ddeddfwriaeth. Roedd gan unigolion amryw o bryderon gan gynnwys cyfyngiadau ar werthu/prynu carafannau a rheoli safleoedd yn gyffredinol.
102. Rhestrir holl gwestiynau'r ymgynghoriad isod, ynghyd â dadansoddiad o'r ymatebion.

*Beth yw eich barn chi am y system bresennol o drwyddedu safleoedd carafannau gwyliau? Sut y gellir moderneiddio'r gyfraith bresennol?*

103. Teimlai llawer o berchnogion safleoedd mai'r unig broblem gyda'r gyfundrefn drwyddedu bresennol oedd nad oedd yn cael ei

gorfodi'n ddigonol gan awdurdodau lleol. Dywedodd un perchennog safle nad oedd “trwyddedau safle wedi cael eu gorfodi'n briodol ers 25 mlynedd”<sup>1</sup>. Adleisiwyd y farn hon mewn sawl ymateb gan gyrff yn y diwydiant a pherchnogion safleoedd. Yr oedd nifer o ymatebion gan y diwydiant yn derbyn gellid gwneud i'r gyfraith bresennol weithio'n fwy effeithiol, ond nid oeddynt yn gweld bod angen diwygio'r cyfan drwyddo draw. Serch hynny, nid oedd pob un o'r perchnogion safleoedd yn gwrthwynebu diwygio. Dywedodd un fod y system bresennol yn feichus, yn araf, yn brin o dryloywder a bod angen ei dwygio.<sup>2</sup> Roedd nifer o'r ymatebion yn pwysleisio bod angen i unrhyw ddiwygio gael ei wneud drwy ymgynghori â'r diwydiant. Roedd cefnogaeth hefyd i newidiadau a fyddai'n targedu'n benodol y gweithredwyr “anghyfrifol” hynny sy'n torri amodau eu trwydded.

104. Dywedodd awdurdodau lleol bod angen moderneiddio'r gyfraith bresennol, sy'n hanner o 1960, er mwyn iddynt gael mwy o bwerau ac adnoddau i orfodi amodau trwyddedau. Ond nodwyd hefyd bod y Safonau Enghreifftiol sy'n berthnasol i safleoedd carafannau gwyliau wedi eu cyhoeddi yn 1989, a'u bod felly yn fwy cyfoes o lawer. Tynnodd awdurdod cynllunio lleol sylw at anawsterau a allai godi o ran safleoedd mewn parciau cenedlaethol lle mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am drwyddedu, a'r parc cenedlaethol yn gyfrifol am faterion cynllunio.
105. Soniodd nifer o'r ymatebion am lefel bresennol y dirwyon, ac i bob golwg roedd cytundeb y dylid cynyddu'r rheini. Roedd rhai, gan gynnwys y Cyngor Carafannau Cenedlaethol, wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi o dan y ddeddfwriaeth bresennol (dim ond pwerau sydd ganddynt ar hyn o bryd) ac awgrymwyd y gellid mynd i'r afael â hyn yn y Bil.
106. Tynnodd y BH&HPA sylw at yr hyn a ystyriai yn rôl y ddeddfwriaeth gyfredol o ran galluogi'r diwydiant carafannau gwyliau i ddod, fel y mae bellach, yn symbylydd economaidd hanfodol.<sup>3</sup> Mae'n gweld y system drwyddedu yn un sy'n ategu'r cyfyngiadau cynllunio, ac yn un a all, er enghraifft, osod cyfyngiadau meddiannu tymhorol lle nad yw'r caniatâd cynllunio yn gwneud cyfyngiad o'r fath. Yr oeddent yn pwysleisio fel a ganlyn:

---

<sup>1</sup> Thornley Leisure Parks

<sup>2</sup> Normanhurst Enterprises Ltd

<sup>3</sup> BH&HPA

Any modernisation of the system should preserve this dual control and the flexibility provided by today's interaction between planning and site licensing.<sup>4</sup>

107. Yr oedd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol o'r farn fod y gyfundrefn drwyddedu bresennol yn gyfle i symleiddio'r trefniadau presennol ac i annog cyfleoedd i sicrhau twf o fewn y sector.
108. Roedd cwmni sy'n rhedeg nifer o safleoedd mawr yng Nghymru yn pwysleisio natur gystadleuol y diwydiant parciau carafannau gwyliau, a oedd, yn ei farn ef, yn fwy cystadleuol na'r diwydiant cartrefi mewn parciau, ac roedd hynny, ynndo'i hun, yn hwb i wella safonau.
109. Tynnodd awdurdodau lleol sylw at y ffaith nad oedd ganddynt bwerau gorfodi ar hyn o bryd, a nododd un mai erlyn yw'r unig opsiwn os bydd yr amodau trwyddedu'n cael eu torri.<sup>5</sup>
110. Roedd sefydliad sy'n cynrychioli perchnogion carafannau o'r farn ei bod yn "hen bryd"<sup>6</sup> adolygu'r system trwyddedu safleoedd.
111. Gofynnodd yr arolwg ar-lein nifer o gwestiynau ynghylch rheoli safleoedd. Roedd bron hanner yr ymatebwyr a leisiodd farn yn credu nad oedd y safonau ar safleoedd yn ddigon uchel ar hyn o bryd.

*A oes gan awdurdodau lleol ddigon o bwerau ac adnoddau i orfodi amodau trwyddedau safleoedd? Os nad oes, pa bwerau ac adnoddau sydd eu hangen arnynt?*

112. Teimlai llawer o berchnogion safleoedd bod gan awdurdodau lleol ddigon o bwerau eisoes, ond nad oeddynt yn eu defnyddio'n effeithiol. Soniodd un ymatebydd am yr hyn a ystyriai'n "ddiffyg parodrwydd" ar ran awdurdodau lleol i ddefnyddio'u pwerau.<sup>7</sup> Tynnodd perchnogion safleoedd sylw at yr hyn a oedd, i bob golwg, yn arferion gwahanol yng Nghymru, gyda rhai awdurdodau lleol, fel Powys, yn cynnal ymweliadau rheolaidd er nad oedd dyletswydd arnynt i wneud hynny. Nodwyd fod ardal arall yn cael archwiliadau ar sail risg gan yr awdurdod lleol a oedd yn targedu safleoedd lle cafodd

---

<sup>4</sup> BH&HPA

<sup>5</sup> Cyngor Sir Gwynedd

<sup>6</sup> NACO

<sup>7</sup> Border Caravans

problemau eu clustnodi eisoes. Roedd rhai awdurdodau lleol yn ystyried bod eu pwerau i archwilio safleoedd ac i orfodi amodau trwyddedau yn annigonol. Dywedodd un awdurdod lleol ei fod wedi rhoi mwy o adnoddau i archwiliadau yn ystod y tymor caeedig am fod ganddo bryderon ynghylch torri amodau trwyddedau, yn enwedig pobl a oedd yn byw'n barhaol ar y safle.<sup>8</sup>

113. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai diffyg adnoddau oedd y brif broblem yn hytrach na diffyg pwerau gorfodi. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gallai sicrhau bod safleoedd gwyliau yn agored am 12 mis greu sefyllfa a fyddai'n anodd iawn i'w "phlisma".<sup>9</sup>

114. Dywedodd awdurdod cynllunio lleol ei fod yn credu bod digon o safleoedd yn ei ardal i gyflogi un aelod o staff llawn amser.<sup>10</sup> Tynnodd Gwynedd sylw at y dasg a oedd yn ei wynebu lle byddai un swyddog yn gyfrifol am 380 o safleoedd.

115. Soniodd nifer o dystion am y dreth gyngor, ac roedd yn ymddangos bod rhai pobl a oedd yn byw'n barhaol ar safleoedd gwyliau yn talu'r dreth gyngor a hefyd yn talu ardrethi busnes drwy gyfrwng y ffi am y llain. Codwyd pryderon ynghylch y gwasanaethau yr oedd trigolion a oedd yn talu'r dreth gyngor yn eu cael mewn gwirionedd.<sup>11</sup>

116. Roedd BH&HPA o'r farn bod gan awdurdodau lleol ddigon o bwerau, ond roedd tri mater a oedd yn eu rhwystro rhan monitro a gorfodi'n effeithiol:

- Adnoddau;
- Gallu [swyddogion awdurdodau lleol]; ac
- Ewyllys [awdurdodau lleol i weithredu].

117. Gwelodd y Gymdeithas Carafannau Cenedlaethol rôl sylweddol i orfodi drwy'r system gynllunio oherwydd ei bod yn ystyried bod torri amodau trwyddedau yn y pen draw yr un peth â thorri caniatâd cynllunio.

118. Tynnodd Cyngor Gwynedd sylw at rai opsiynau gorfodi ychwanegol a allai helpu awdurdodau lleol:

---

<sup>8</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

<sup>9</sup> Ymatebion unigol

<sup>10</sup> Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

<sup>11</sup> Ymatebion unigol

- Proses o adolygu trwyddedau safleoedd/aneddau tebyg i'r un a ganiateir o dan Ddeddf Drwyddedu 2003;
- Gorfodi gwaharddiad dros dro ar weithgareddau o dan y Drwydded Safle fel ffordd o sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i ddatrys achosion difrifol o dorri amodau;
- Rhybuddion gwella neu wahardd - o ran amodau trwyddedu.

*A ddylai awdurdodau lleol allu codi tâl am drwyddedau safleoedd ac a ddylai trwyddedau bara am gyfnod penodol?*

119. Er bod rhai perchnogion safleoedd yn derbyn bod angen i awdurdodau lleol allu codi ffi resymol a chymesur am drwydded, pwysleisiodd y BH&HPA nad oedd cytundeb ynghylch hyn o fewn y diwydiant. Fodd bynnag, ymddengys fod gwrthwynebiad clir o fewn y diwydiant i unrhyw gamau i gyflwyno trwyddedau amser-gyfyngedig.

120. Soniodd y diwydiant dro ar ôl tro am effaith cyflwyno trwyddedau amser-gyfyngedig ar gynlluniau busnes perchnogion safleoedd. Dywedodd sawl un bod busnesau carafannau gwyliau yn aml iawn yn gwmnïau teuluol bach, ac felly'n fwy tebygol o ddioddef pwysau ariannol na'r cwmnïau mawr. Roedd rhai yn ystyried trwyddedau amser-gyfyngedig yn rhai a allai fod yn annerbyniol i fenthycwyr, ac felly gallai fod effaith negyddol ar ddatblygiad safle. Yn ôl un perchennog safle:

If a local authority were able to stipulate how long a licence could last for, then how could a caravan park owner confidently invest millions of pounds in a business and improving that business, if there is the possibility that a local authority unjustly impact on that business at the time of the site licence renewal.<sup>12</sup>

121. Awgrymodd rhai perchnogion safleoedd gyfaddawd lle gallai'r drwydded safle barhau am byth (fel y gwna ar hyn o bryd) ond ei bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, a bod ffi yn cael ei chodi o dro i dro.<sup>13</sup> Roedd pryderon hefyd y gallai trwydded amser-gyfyngedig effeithio ar werth carafannau ar y safleoedd hyn ac y gallai hefyd effeithio ar sicrwydd deiliadaeth – er enghraifft pan fo'r cytundeb am lain yn para'n hwy na'r drwydded safle.<sup>14</sup>

---

<sup>12</sup> Perchennog safle

<sup>13</sup> BH&HPA Gwynedd ac Ynys Môn

<sup>14</sup> BH&HPA

122. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn holi i ble y byddai'r ffioedd trwyddedu yn mynd, ac a fyddai safleoedd yn cael unrhyw fudd o'r ffi newydd. Roedd eraill yn awyddus i sicrhau na fyddai ffioedd trwyddedu yn cael eu defnyddio i wneud perchnogion safleoedd da dalu am fynd i'r afael â pherchnogion "anghyfrifol". Roedd y BH&HPA o'r farn mai egwyddor "y llygrwr sy'n talu" yw'r ffordd ymlaen pe byddai ffi yn cael ei chyflwyno, fel na fyddai perchnogion da yn talu am gamau gorfodi ar safleoedd sy'n cael eu rhedeg yn wael. Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn awyddus i sicrhau bod ffioedd, pe byddent yn cael eu cyflwyno, yn fwy na dim ond dull o godi refeniw.
123. Roedd y ddau awdurdod lleol a ymatebodd yn gadarn eu barn y dylid codi ffioedd am drwyddedu, fel yn achos swyddogaethau trwyddedu eraill, ac y dylai'r drwydded fod yn amser-gyfyngedig.
124. Tynnodd sawl perchennog safle sylw at y cyfraddau busnes sylweddol a delir gan berchnogion safle carafannau gwyliau, gydag un safle yn Ne Cymru yn talu dros £590,000 yn 2013, ac awgrymwyd eu bod eisoes yn cyfrannu digon mewn trethi.<sup>15</sup>

*Sut y gellir mynd i'r afael â'r mater o bobl yn byw mewn carafannau gwyliau ar barciau gwyliau fel eu hunig gartref neu eu prif gartref? Beth yw maint y broblem hon a pha effaith a gaiff hynny ar y diwydiant carafannau gwyliau yn yr hirdymor?*

125. Roedd pawb o'r bron yn gytûn nad yw maint y broblem o ran defnyddio safleoedd carafannau gwyliau yn hysbys ar hyn o bryd. Roedd un perchennog safle yn gosod 360 o leiniau carafannau ac o'r rheini roedd yn amau fod dau yn cael eu defnyddio fel prif breswylfa – ond roedd eu meddianwyr, serch hynny, yn gadael y safle yn ystod y tymor caeedig ac wedi rhoi cyfeiriad preswyl ar wahân.<sup>16</sup> Yn ôl y BH&HPA roedd y dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gallai anterth y broblem fod mewn mannau nad ydynt yn "botiau mêl" twristaidd, ac yn canolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd lluosog. Awgrymodd nifer o ymatebion nad yw'r broblem mor fawr ag y tybir.
126. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o berchnogion safleoedd eu bod yn dweud yn glir yn eu deunydd gwerthu, cytundebau lleiniau a rheolau safle y gwaherddir defnyddio'r carafannau fel preswylfa. Nid oedd yn syndod felly nad oedd unrhyw rai ohonynt wedi cael problemau

---

<sup>15</sup> Parkdean

<sup>16</sup> Perchennog safle

sylweddol gyda'r mater hwn. Soniodd llawer o berchnogion safleoedd am rai o'r camau yr oeddynt yn eu cymryd i sicrhau nad oedd y carafannau'n cael eu defnyddio fel preswylfa, ac roedd hynny fel arfer yn cynnwys gofyn am brawf o gyfeiriad ar ffurf bil cyfleustodau neu ddogfen yswiriant a oedd yn dangos y cyfeiriad preswyl parhaol. Mewn un enghraifft gan berchennog safle, roedd yr anfonebau am y ffi a godir am lain yn cael eu hanfon i gyfeiriad preswyl parhaol perchennog y garafán yn hytrach nag i'r garafán ei hun. Os cafwyd problemau ar safleoedd roedd y rheini'n aml yn gysylltiedig â thorperthynas, ac un parti heb unman arall i fynd.

127. Soniwyd mewn rhai ymatebion am yr anawsterau ymarferol o adnabod defnydd preswyl. Er enghraifft, beth yn union yw defnydd gwyliau, ac ar safleoedd mawr a fyddai'n rhesymol i berchennog fonitro symudiadau rhai miloedd o feddianwyr?

128. Gofynnodd sawl un o'r ymatebwyr pam y byddai pobl yn byw ar safleoedd carafannau gwyliau, ac ai o ddewis y byddent yn gwneud hynny. Yn ôl un perchennog safle, gan gydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio carafannau gwyliau fel preswylfa:

Nobody chooses to live in a caravan, they are just not suitable and in my experience those that do have found themselves doing so by change of circumstance rather than a purposeful choice of accommodation. Therefore and in most cases, as/when these abuses do occur, they are temporary in nature and the occupants soon move back into conventional housing, freeing up the caravan and pitch back into tourism use.

129. Roedd un perchennog safle o'r farn mai prinder tai fforddiadwy oedd y prif reswm pam fod pobl yn byw mewn carafannau gwyliau.<sup>17</sup> Awgrymodd nifer o ymatebwyr mai'r rheswm pennaf am ddefnyddio carafannau gwyliau fel preswylfeydd oedd oriau agor hirach, 52 wythnos mewn ambell achos, a thymhorau caeedig byrrach neu ddim tymor caeedig.

130. Roedd BH&HPA o'r farn mai hunan-reoleiddio gan y diwydiant oedd y ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem. Awgrymwyd nifer o ffyrdd o ddelio ag achosion o ddefnydd preswyl:

- Gofyniad y byddai unrhyw Gytundeb Trwydded newydd, ar ôl i'r un presennol ddod i ben, yn cael ei orfodi er mwyn mwyn atal defnydd preswyl;
- Byddai gofyniad cyfreithiol i orfodi pob darpariaeth 'dim defnydd preswyl' mewn cytundebau trwyddedau yn arwain at ymglyfreitha a chostau di-bendraw, a dylid ei osgoi. Lle y gellir dangos bod y defnydd preswyl wedi

---

<sup>17</sup> Bourne Leisure Ltd.



parhau am ddeng mlynedd neu ragor, dylid ystyried rhoi Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon yn rheoleiddio'r sefyllfa drwy roi caniatâd preswyl ar gyfer y llain neu'r parc (a thrwy hynny gymhwyso amddiffyniadau Deddf Cartrefi Symudol 1983 (fel y'i diwygiwyd) neu ei holynydd yng Nghymru pan ddaw Bil Peter Black AC yn ddeddf). Byddai hyn yn rhoi parth o amddiffyniad i berchennog y garafán.

- Pan fo parc wedi troi'n barc lled-breswyl, dylid ystyried newid defnydd y cais cynllunio ar gyfer y parc neu'r llain/leiniau, fel eu bod yn cael eu hamddiffyn gan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 (fel y'i diwygiwyd).
- Os oes tystiolaeth o fasnachu annheg, dylid ystyried erlyniad gan Safonau Masnach neu gamau gweithredu o dan Reoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnach Annheg 2008.

*Pa effaith y mae caniatáu i bobl fyw mewn carafannau gwyliau fel eu hunig gartref neu eu prif gartref yn ei chael ar safleoedd carafannau gwyliau a chymunedau lleol?*

131. Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at nifer o effeithiau posibl ar safleoedd carafannau gwyliau fel busnesau ac ar y gymuned leol.
132. Nododd perchnogion safleoedd nifer o bryderon a allai effeithio ar eu busnesau. Roedd llawer yn canolbwyntio ar yr effaith weledol ar y safle, fel bod â mwy o le storio allanol, siediau, decin, leiniau dillad ac ati. Nodwyd fod carafannau a ddefnyddir fel unedau preswyl yn cael eu hystyried ar y cyfan yn llety amgen rhad, ac felly roedd yn annhebygol y byddai'r uned yn cael ei huwchraddio'n rheolaidd. Gallai hyn hefyd effeithio ar amwynder gweledol y safle. Yn ôl un perchennog safle:
- As a result, these caravans become old, tired and unsightly in line with the rest of the park. If the problem is spread out on the park, the parks takes on a rundown and tatty feel, and this results in falling sales, as new customers are put off by the appearance of this element of the park.<sup>18</sup>
133. Nid oedd yr holl dystiolaeth yn cefnogi'r farn honno, ac mewn rhai achosion gall byw ar safle carafannau fod yn ddewis cadarnhaol, fel yr awgrymir gan ymchwil Sheffield Hallam.
134. Dywedodd nifer o berchnogion na fydd meddianwyr preswyl fel arfer yn cyfrannu cymaint i'r economi leol, neu yn wir i gyfleusterau fel bariau a bwytai ar y safle. Mewn dau ymateb awgrymwyd y gallai gwneud defnydd preswyl o garafannau gwyliau gael effaith negyddol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

---

<sup>18</sup> Thornley Leisure Park

135. O ran yr effaith ehangach ar y gymuned leol, roedd llawer o'r ymatebion yn sôn y gallai preswylwyr amser llawn fod yn dreth ar wasanaethau cyhoeddus lleol, fel gwasanaethau iechyd ac ysgolion, er nad oedd tystiolaeth uniongyrchol o hyn. Roedd un perchennog safle yn edrych ar bethau'n wahanol, ac awgrymodd y dylai gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gyda nifer fawr o safleoedd carafannau wneud darpariaeth yn seiliedig ar nifer y "gwelyau twristiaeth" gan fod hawl gan dwristiaid i gael gwasanaethau iechyd lleol pan fyddant ar wyliau.
136. Awgrymwyd, o ran darparu llety isel ei gost, bod y pwysau ar ddarparu tai cymdeithasol mewn gwirionedd yn cael ei leddfu wrth ddefnyddio carafannau fel preswylfeydd.
137. Soniodd Heddlu Gogledd Cymru am yr effaith y mae peidio â chyfrif pobl sy'n byw ar safleoedd carafannau gwyliau yn ei chael ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu.
138. Yn yr arolwg ar-lein, roedd dros draean y rhai a fynegodd farn yn credu bod pobl a oedd yn byw mewn carafannau gwyliau yn barhaol yn achosi problemau i'r diwydiant. Dywedodd bron yr un nifer o ymatebwyr y byddent yn llai tebygol fynd ar wyliau mewn carafán wyliau os oedd pobl yn defnyddio carafannau gwyliau fel eu prif gartref. Dywedodd tua hanner y 105 a atebodd y cwestiwn fod ganddynt brofiad uniongyrchol o bobl yn byw'n barhaol mewn carafannau gwyliau.

*Pa risgiau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw mewn carafannau gwyliau fel eu hunig gartref neu eu prif gartref?*

139. Roedd y dystiolaeth ynghylch addasrwydd carafannau gwyliau i fyw ynddynt drwy'r flwyddyn yn anghyson. Yn ôl Border Caravans:

Contrary to popular belief modern caravans/Lodges/Leisure homes are insulated all round to a greater degree and with the emergence of BS3632 specification onto more and more units manufactured only increases that degree of comfort tremendously.<sup>19</sup>

140. Roedd tystiolaeth arall, gan gynnwys tystiolaeth gan y prif gyrrff masnachu, yn awgrymu bod carafannau gwyliau ond wedi'u

---

<sup>19</sup> Border Caravans

hinsiwleiddio ddigon i ymdopi â “gaeafau mwyn”.<sup>20</sup> Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth, i bob golwg, yn cefnogi'r awgrym diwethaf. Mae oedran y garafán yn debygol o fod yn ffactor, gan fod unedau newydd yn cael eu gwneud i safonau uwch.

141. Yn ymateb Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol iechyd yr amgylchedd, gan gynnwys y rhai mewn llywodraeth leol, soniwyd na ellir asesu carafannau gwyliau am beryglon i iechyd a diogelwch gan ddefnyddio'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai am fod carafannau gwyliau y tu allan i'r diffiniad cyfreithiol o dai. Fodd bynnag, awgrymodd Cyngor Conwy pe byddai'r rhan fwyaf o garafannau gwyliau yn cael asesiad o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, y byddai'r mwyafrif yn methu. Soniodd nifer o'r ymatebion bod oerfel a lleithder yn beryglon penodol, a chyfeiriwyd hefyd at y risigau posibl o garbon monocsid pan fydd trigolion yn cau'r tyllau awyru i geisio datrys y ddwy broblem hyn.
142. Soniwyd am nifer o risgiau eraill. Cyfeiriwyd at risgiau amgylcheddol, a oedd yn ymwneud â llifogydd yn bennaf, gan fod llawer o safleoedd gwyliau wedi eu creu ar dir isel ar yr arfordir. Pe byddai llifogydd yn effeithio ar garafán, byddai pobl sy'n ei defnyddio fel prif breswylfa yn ddigartref. Ni fyddai gan feddianwyr yswiriant a fyddai'n darparu llety dros dro iddynt oherwydd nid y garafán fyddai eu cartref cyfreithlon at ddibenion yswiriant. Mater arall y cyfeiriwyd ato mewn sawl ymateb oedd yr effaith economaidd, a'r incwm y gellid, o bosibl, ei golli pe na byddai digon o dwristiaid yn dewis defnyddio safleoedd carafannau gwyliau. Hefyd, soniodd Cymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau am risgiau i feddianwyr carafannau na fyddai'n gallu manteisio ar y diogelwch y mae'r gyfraith yn ei roi i breswylwyr cartrefi mewn parciau.

*Pa ganlyniadau anfwriadol a allai ddigwydd o ganlyniad i'r deddfwriaeth hon? Pa gamau y gellid eu cymryd er mwyn ymdrin â'r canlyniadau hyn?*

143. Dywedodd llawer o berchnogion safleoedd nad oeddent am weld y nifer fawr o berchnogion safleoedd sy'n gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol ac yn cadw at amodau trwyddedu a chynllunio yn cael eu cosbi am weithredoedd y lleiafrif. Maent yn pryderu am y cynnydd mewn biwrocratiaeth a chostau ar

---

<sup>20</sup> Perchennog safle

gyfer pob safle – a allai effeithio ar fusnesau bach yn enwedig, ac yng ngoleuni'r problemau diweddar gyda TAW sy'n effeithio ar garafannau gwyliau. Roedd rhai yn poeni, er y byddai'r busnesau hynny sydd eisoes yn cadw at y rheolau yn cadw at unrhyw ddeddfwriaeth newydd, y byddai rhai sy'n anwybyddu'r system bresennol, yn dal i wneud hynny.<sup>21</sup>

144. Roedd digartrefedd yn un arall o ganlyniadau'r ddeddfwriaeth hon a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr, ond nid oedd modd mesur y lefelau digartrefedd am nad oedd data cadarn ar gael. Soniodd y BH&HPA am yr anawsterau posibl pe byddai meddianwyr carafannau yn wynebu digartrefedd, ac awgrymwyd y byddai'n rhaid iddynt ystyried a oedd y garafán wedi cael ei cham-ddisgrifio wrthynt, hynny yw a oeddynt yn gwybod fod y garafán at ddibenion gwyliau yn unig.

145. Roedd llawer o'r ymatebion yn amharod i roi gormod o fanylion wrth ymateb i'r cwestiwn hwn gan nad oedd deddfwriaeth drafft ar gael, er bod rhywfaint o gytundeb barn y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i berchnogion carafannau drwy'r ffioedd a godir am leiniau. Nododd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol:

Any regulatory or legislative change brings with it additional costs. Whilst business should be able to pass on the costs of legislative change (such as the proposals to charge for site licensing) this will invariably increase the costs of caravan ownership which could act as a deterrent in the long term in a sensitive and highly competitive market.<sup>22</sup>

146. Awgrymodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol y gallai newidiadau deddfwriaethol gael eu hystyried yn gosb ar aelodau, a hwythau wedi dangos eu bod yn gweithredu i lefel sy'n rhagori ar y gofynion statudol presennol drwy gadw at Gynllun Cod Cymeradwy gwirfoddol y Cyngor Carafannau Cenedlaethol.

*A ddylai perchnogion neu reolwyr safleoedd gael profion i asesu a ydynt yn bersonau addas a phriodol, ac, os felly, pa faterion ddylai'r prawf hwn eu cynnwys?*

147. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig hwn, ond roedd amodau ar y gefnogaeth honno'n aml iawn. O'r rhai a gefnogai brawf, nid oedd llawer o gytundeb ynghylch a ddylai fod yn gymwys

---

<sup>21</sup> BH&HPA Gwynedd ac Ynys Môn

<sup>22</sup> Y Cyngor Carafannau Cenedlaethol

i'r perchennog neu i'r rheolwr, neu i'r ddau. Roedd llawer o berchnogion safleoedd yn pryderu ynghylch pwy fyddai'n cynnal y prawf, a pha feini prawf y byddent yn eu defnyddio i ddod i gasgliad. Awgrymodd rhai perchnogion safleoedd y gallai cynllun a gaiff ei orfodi gan y diwydiant fod yn gyfaddawd. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol o blaid y prawf.

148. Tynnodd y dystiolaeth sylw at y ffaith fod llawer o berchnogion safleoedd eisoes yn destun Prawf Person Addas a Phriodol at ddibenion eraill, er enghraifft ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol a hapchwarae.

149. Roedd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol yn gwahaniaethu rhwng y rhesymau pam y byddai rheolwyr safleoedd cartrefi mawn parciau yn destun y prawf person addas a phriodol a pham yr oedd o'r farn nad yw hyn yn briodol ar gyfer parciau carafannau gwyliau:

The provision for residential park operators to be subject to a FPP in Wales is primarily to create greater control over the ownership and management, and future ownership and management of a residential park where the consumers, very often vulnerable and elderly, live on the park in homes that are licenced as their permanent, main, sole residences. If a similar FPP were deemed necessary for the holiday park sector, and it is not clear what its introduction would be seeking to achieve, the mechanics to secure an effective regime still present a challenge.

150. Roedd Heddlu Gogledd Cymru a De Cymru, ill dau, yn cefnogi prawf person addas a phriodol.

*A yw perchnogion carafannau gwyliau wedi eu diogelu'n ddigonol gan y gyfraith, ac a ydynt yn gallu arfer eu hawliau cyfreithiol presennol? Os nad ydynt, beth sydd angen ei newid?*

151. Crybwyllwyd cytundeb trwydded safonol y diwydiant mewn sawl ymateb fel y sail ar gyfer hawliau perchnogion carafannau. Hefyd, crybwyllodd nifer o'r ymatebion y ddeddfwriaeth gyfredol ar gyfer diogelu defnyddwyr, a'r rôl y gallai Safonau Masnach ei chwarae o ran datrys materion. Y brif ddeddfwriaeth a grybwyllwyd oedd Deddf Gwerthu Nwyddau 1979, Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987 a Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999. Fodd bynnag, dywedodd un awdurdod lleol ei fod o'r farn nad oedd cytundebau ysgrifenedig yn cael eu defnyddio bob amser.

*A ddylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i berchnogion safleoedd roi cytundeb trwydded ysgrifenedig i berchnogion carafannau, ac a ddylai hynny fod ar ffurf safonol?*

152. Y farn gyffredin oedd y byddai gofyniad statudol am gytundeb ysgrifenedig yn gam cadarnhaol, ond ni ddylai'r cytundeb fod ar ffurf safonol. Roedd safleoedd am gael hyblygrwydd i adlewyrchu'r amgylchiadau lleol. Awgrymodd nifer o ymatebion y dylai'r ddeddfwriaeth ofyn am delerau craidd, rhywbeth yn debyg i'r ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon.

153. Roedd ymateb y BH&HPA yn adlewyrchu'r farn gyffredinol:

A requirement that the agreement between park and caravan owner should be in writing would ensure transparency (as is required under the UTCCRs) and would protect both consumer and park business.

However, given the different business models employed across the industry and the need for flexibility to permit innovation, the requirement should not be for a written agreement in standard format, rather it might stipulate what the written agreement should achieve.

This might include (as with the Caravans (NI) Act 2011) written confirmation of:

- names and addresses of the parties
- particulars of the land on which the occupier is to station the caravan
- all express terms contained in the agreement, which will include for example the length of the licence period and all charges payable under the agreement.

*Beth fydd yr effaith ar y diwydiant carafannau gwyliau, pe byddai unrhyw waith rheoleiddio neu gostau ychwanegol yn deillio o'r ddeddfwriaeth hon? Sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau a pha grwpiau eraill a allai wynebu costau?*

154. Roedd llawer o berchnogion safleoedd yn ystyried eu diwydiant yn un a reoleiddir yn dda eisoes, ac felly roedd y prif bryderon yn ymwneud â'r effaith y byddai'r Bil yn ei chael ar eu busnes a'r diwydiant yng Nghymru.

155. Prif bryderon perchnogion safleoedd oedd y canlynol:

- Mwy o reoleiddio a biwrocratiaeth;
- Costau ychwanegol;
- Sicrhau mai'r gweithredwyr "anghyfrifol" sy'n cael eu targedu, ac nid y rhai cyfrifol;

- Y gallu i drosglwyddo unrhyw gostau newydd i berchnogion carafannau;
- Yr effaith ar fusnesau bach;
- Yr effaith pe byddai'r costau yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr;
- Yr angen i wneud mwy o ymchwil cyn gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

*A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar fy nghynigion?*

156. Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer o bwyntiau yn ailadrodd materion a godwyd eisoes fel yr angen i ganolbwyntio ar y safleoedd gwael, nid rheoleiddio mwy fyth ar safleoedd da:
- Awgrymodd CIEH y gellid ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr carafannau ddangos eu bod yn byw mewn man arall;
  - Yr angen am gymryd i ystyriaeth effaith gyffredinol y ddeddfwriaeth hon ar y diwydiant twristiaeth;
  - Mae Dyfodol i'r Iaith yn pryderu mai pobl ddi-Gymraeg yw'r boblogaeth gudd yn bennaf, a bod hynny'n cyfrannu at ddirywiad cyffredinol yr iaith;
  - Mae llawer o'r problemau hyn wedi codi oherwydd bod camau gorfodi yr awdurdodau lleol yn annigonol;
  - Dylai'r Bil gynnwys camau i reoleiddio'r cyflenwad o LPG;
  - Mae rhai safleoedd yn gwrthod caniatáu is-osod, felly dim ond y perchnogion sy'n eu defnyddio;
  - Hefyd, dylid mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan safleoedd heb eu trwyddedu;
  - Awgrymodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod y broblem y mae'r Bil yn ceisio'i datrys heb ei diffinio'n ddigon clir;
  - Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn argymhell ymyriadau sy'n seiliedig ar risg yn hytrach na mwy o reoleiddio;
  - Awgrymodd y BH&HPA y dylai teitl y Bil gyfeirio ar "leiniau" yn hytrach na "safleoedd";
  - Awgrymodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol mai dim ond diwygiadau bach sydd angen eu gwneud i'r ddeddfwriaeth bresennol i'w gwneud yn fwy effeithiol.

### **Yr ail ymgynghoriad**

157. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Bil drafft rhwng 11 Rhagfyr 2013 ac 17 Ionawr 2014. Gellir gweld y llythyr ynghylch yr ymgynghoriad a'r Bil drafft ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>xii</sup>

158. Denodd yr ymgynghoriad dros 50 o ymatebion gan amryw o bartion perthnasol. Roedd y rheini'n cynnwys ymatebion manwl gan brif gymdeithasau masnach y diwydiant: y Cyngor Carafannau Cenedlaethol (NCC) a Chymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain (BH&HPA). Cafwyd ymateb hefyd gan Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau, sy'n cynrychioli pobl sy'n berchen ar garafannau. Cafwyd chwech ymateb gan awdurdodau lleol (a oedd, ar y cyfan, yn croesawu'r Bil), a 37 ymateb gan berchnogion safleoedd carafannau gwyliau, yr oedd gan rai ohonynt safleoedd yn Lloegr yn unig. Yn yr ymatebion a gafwyd gan berchnogion safleoedd roedd nifer ohonynt yn dweud eu bod yn cefnogi safbwyntiau eu corff masnachu, yn enwedig y BH&HPA.
159. Er bod llawer o'r ymatebion yn cefnogi bwriad y Bil i fynd i'r afael â'r arfer o ddefnyddio carafannau gwyliau fel preswylfa, awgrymodd y rhai a ymatebodd amryw o newidiadau mewn perthynas â rhannau eraill o'r Bil. Rhai o'r prif faterion a godwyd oedd:
- roedd y Bil drafft yn anodd i'w ddarllen oherwydd bod angen ei ddarllen ar y cyd â Deddf 2013;
  - pa mor addas yw cymhwyso agweddau ar y ddeddfwriaeth cartrefi symudol i'r sector carafannau gwyliau;
  - roedd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio'r holl safleoedd bob blwyddyn yn feichus ac yn ddianghenraid;
  - gallai'r prawf preswylfio fod yn anodd i'w weithredu, a gallai perchnogion safleoedd gael eu cosbi am dynnu sylw awdurdod lleol fod carafán wyliau yn cael ei defnyddio fel preswylfa;
  - gallai'r amddiffyniad rhag troi allan, a ddarperir yn Neddf 2013, gael ei ymestyn i safleoedd gwyliau gan y cynigion yn y Bil drafft;
  - mynegodd awdurdodau lleol rai pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar bobl sydd eisoes yn byw mewn carafannau gwyliau;
  - roedd pryderon ynghylch y rhai y byddai'r prawf person addas a phriodol yn gymwys iddynt, a phryderon penodol ynghylch y bwriad i gynnwys tor-cyfraith mewn perthynas â safonau masnach;
  - roedd rhywfaint o wrthwynebiad i'r gofyniad i ymgynghori â meddianwyr carafannau gwyliau.
160. Yn sgil yr ail ymgynghoriad, mae nifer fawr o newidiadau wedi'u gwneud i'r Bil. Mae'r rheini'n cynnwys y canlynol:
- Bellach, mae'r Bil yn "hunangynhwysol" ac nid oes angen darllen Deddf 2013 ar y cyd â'r Bil i ddeall yr hyn a fwriedir ganddo;



- Bellach, dim ond o leiaf unwaith bob tair blynedd y bydd angen i awdurdodau lleol archwilio safleoedd carafannau gwyliau;
- Ni fydd y rhai sy'n defnyddio safleoedd carafannau gwyliau am lai na chwe wythnos olynol yn destun Rhan 3 (y prawf preswyllo) na Rhan 4 (cytundebau carafannau gwyliau) o'r Ddeddf;
- Os na lwyddir i basio'r prawf preswyllo, y meddiannydd fydd yn destun camau gweithredu'r awdurdod lleol nid perchennog y safle; caiff yr awdurdod lleol roi cyfarwyddiadau i'r perchennog safle ynghylch mynd i'r afael â'r sefyllfa; a chaiff hefyd gyflwyno hysbysiad cosb benodedig i'r meddiannydd;
- Mae'r Bil yn datgymhwyso Deddf Amddiffyn rhag Troi Allan 1977 yn benodol mewn perthynas â meddianwyr carafannau gwyliau, ond bydd meddianwyr yn dal i gael eu hamddiffyn rhag aflonyddu;
- Bydd y prawf person addas a phriodol yn gymwys i reolwr safle. Bydd hyn yn cynnwys y person â'r cyfrifoldeb uchaf am reoli'r safle, ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb am reoli'r safle o ddydd i ddydd;
- Dim ond â pherchnogion carafannau gwyliau y bydd y rhaid i berchnogion safleoedd ymgynghori.

### **Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**

161. Mae'r Bil yn gwneud amryw o ddarpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl canlynol yn nodi mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y bwriedir arfer y pŵer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig; a
- y weithdrefn berthnasol (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn), os oes un.

<b>Adran</b>	<b>Pŵer wedi'i roi i</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm am y weithdrefn</b>
Adran 2(4)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn drwy offeryn statudol	Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio manylion gweinyddol	Negyddol	Bydd y gorchymynion hyn yn rhagnodi materion technegol manwl a all newid o bryd i'w gilydd.

			mewn perthynas â maint carafannau gwyliau.		
Adran 16	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy offeryn statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu dyddiad ar gyfer cychwyn archwiliadau safle.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn wedi'u cyfyngu i gychwyn y Bil ac maent yn dechnegol eu natur. Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer cychwyn y ddyletswydd i gyflwyno archwiliadau safle.
Adran 21(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy offeryn statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfyngu ar yr amgylchiadau pryd y ceir dyroddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â safleoedd carafannau gwyliau.	Cadarnhaol	Mae'n diwygio Deddf Cynulliad a'r sefyllfa bresennol o ran y gyfraith.
Adran 34(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy offeryn statudol	Mae'r dystiolaeth i'w hystyried gan awdurdodau lleol wrth benderfynu a yw rhywun yn berson addas a phriodol wedi'i nodi ar wyneb y Bil. Yn addas ar	Cadarnhaol	Mae'n diwygio Deddf Cynulliad ac yn ymwneud â gofyniad i aelodau o'r cyhoedd ddangos eu bod yn bersonau addas a

			gyfer rheoliadau am ei bod yn rhoi i Weinidogion Cymru y gallu i ddiwygio'r adran hon er mwyn amrywio'r rhestr o dystiolaeth i'w hystyried.		phriodol.
Adran 66	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn drwy offeryn statudol	Yn addas ar gyfer gorchymyn am ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau canlyniadol, trosiannol, darfodol ac arbed.	Cadarnhaol os ydym yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.  Negyddol os ydym yn diwygio deddfwriaeth arall.	Mae gweithdrefn gadarnhaol yn briodol pan fo gorchymynion yn effeithio ar deddfwriaeth sylfaenol.  Mae gweithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer gorchymynion eraill sy'n gwneud darpariaeth dechnegol yn unig.
Adran 70(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn drwy offeryn statudol	Yn addas ar gyfer gorchymyn am fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil.	Dim gweithdrefn	Bydd y gorchymynion hyn wedi'u cyfyngu i gychwyn y Bil ac maent yn dechnegol eu natur.
Atodlen 1	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Yn addas ar	Dim	Bydd y

paragraff 3(2)	on Cymru	drwy offeryn statudol	gyfer gorchymyn oherwydd bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio manylion gweinyddol mewn perthynas â maint safleoedd penodol nad ydynt i fod yn safleoedd carafannau gwyliau.	gweithdrefn	gorchymynion hyn yn rhagnodi materion technegol manwl a all newid o bryd i'w gilydd.
Atodlen 1 paragraff 14(1)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu nad yw eithriadau a gynhwysir yn Atodlen 1 yn gymwys mewn manau penodol, ar gais awdurdod lleol.	Dim gweithdrefn	Gorchymyn lleol, na chaiff ei wneud drwy offeryn statudol.

### **Cymhwysiad tiriogaethol**

162. Bydd y Bil hwn yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru.

### **Materion trawsffiniol**

163. Gan fod y Bil yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru, nid oes materion trawsffiniol uniongyrchol yn y Bil.

**Crynodeb o'r prif wahaniaethau rhwng Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a Deddf Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) 2014.**

164. Er bod y Bil yn adlewyrchu sawl rhan o Ddeddf 2013 ac yn eu cymhwyso i garafannau gwyliau, mae rhai gwahaniaethau pwysig rhyngddynt. Yn y tabl canlynol ceir crynodeb o'r prif wahaniaethau rhwng y Bil a Deddf 2013.

Darpariaethau Deddf 2013	Darpariaethau Deddf 2014
<b>Y gyfundrefn drwyddedu</b>	
Mae Deddf 2013 yn defnyddio'r ymadrodd 'safle rheoleiddiedig' am safleoedd sy'n destun cyfundrefn drwyddedu.	Mae Deddf 2014 yn defnyddio'r ymadrodd 'safleoedd carafannau gwyliau' am safleoedd sy'n destun cyfundrefn drwyddedu.
Nid yw safleoedd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn safleoedd rheoleiddiedig ac felly nid oes angen trwydded arnynt.	<p>Nid yw safleoedd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2014 yn safleoedd carafannau gwyliau ac felly nid oes angen trwydded arnynt.</p> <p>Mae effaith yr eithriadau yn Neddf 2014 yn debyg iawn i'r eithriadau yn Neddf 2013.</p> <p>Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau. Yn benodol, os yw tystysgrif a roddwyd o dan Atodlen 1 i Ddeddf 1960 yn ddilys ar yr adeg y daw Deddf 2014 i rym, yna bydd y dystysgrif yn parhau i fod yn gymwys (hynny yw, ni fydd angen gwneud cais am dystysgrif newydd).</p> <p>Nid yw Deddf 2014 yn gymwys i safleoedd sipsiwn a theithwyr.</p>
Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i apelau ynghylch amodau trwydded gael eu gwrando gan driwlynlys eiddo preswyl.	Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i apelau ynghylch amodau trwydded gael eu gwrando gan lys ynadon.

<p>Roedd yn rhaid i'r rhai a oedd yn dal trwydded o dan Ddeddf 1960 ailymgeisio am drwydded o dan Ddeddf 2013.</p>	<p>Ni fydd rhaid i'r rhai sydd â thrwydded o dan Ddeddf 1960 ailymgeisio am drwydded o dan y Ddeddf hon.</p> <p>Fodd bynnag, cyn y gall trwydded Deddf 1960 barhau i fod yn gymwys, rhaid i'r awdurdod lleol fodloni ei hun bod rheolwr y safle yn berson addas a phriodol (o fewn 12 mis i'r adeg y daw adran 9 i rym).</p> <p>Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol addasu'r drwydded fel ei bod yn bodloni'r gofynion newydd yn Neddf 2014 (o fewn 12 mis i'r adeg y daw adran 9 i rym).</p>
<p>Caiff trwyddedau safle eu dyroddi am uchafswm o bum mlynedd.</p>	<p>Bydd trwyddedau safle yn parhau am gyfnod amhenodol (oni chânt eu terfynu).</p>
<p>Nid yw hyn yn Neddf 2013.</p>	<p>Wrth benderfynu pa amodau i'w cynnwys mewn trwydded safle, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori mewn perthynas â rheoli risg llifogydd.</p>
<p>Nid yw hyn yn Neddf 2013.</p>	<p>Rhaid i awdurdodau lleol archwilio safleoedd o leiaf unwaith bob tair blynedd i sicrhau bod safleoedd yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded.</p> <p>Bydd y ddyletswydd hon yn cychwyn yn unol â rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori.</p> <p>Hefyd, rhaid i awdurdodau lleol adolygu amodau trwyddedau safle o leiaf bob pum mlynedd, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn briodol.</p>

<p>Yr hysbysiad cosb benodedig uchaf am dorri amod trwydded yw lefel 1 ar y raddfa safonol.</p>	<p>Yr hysbysiad cosb benodedig uchaf am dorri amod trwydded yw lefel 2 ar y raddfa safonol.</p> <p>Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i egluro pan fydd y tor-amod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cyflwyno hysbysiad cosb benodedig.</p> <p>Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i gyfyngu ar yr amgylchiadau y caiff hysbysiadau cosb benodedig eu cyflwyno.</p>
<p>Pan fydd deiliad trwydded safle yn marw neu'n gwerthu'r tir, caiff y drwydded safle ei dirymu'n awtomatig.</p>	<p>Pan fydd deiliad trwydded safle yn gwerthu'r safle, caiff y drwydded ei throsglwyddo i'r perchennog newydd, gyda chydysniad yr awdurdod lleol.</p> <p>Pan fydd perchennog safle yn marw, y person sy'n etifeddu'r safle fydd deiliad y drwydded.</p>
<p>Mae'r prawf person addas a phriodol yn gymwys i reolwr y safle.</p> <p>Os yw perchennog safle hefyd yn rheoli'r safle, rhaid i'r perchennog/rheolwr fod yn berson addas a phriodol.</p> <p>Os nad y perchennog yw rheolwr y safle, rhaid i'r person a benodir gan y perchennog i reoli'r safle fod yn berson addas a phriodol.</p>	<p>Mae'r prawf person addas a phriodol yn gymwys i reolwr y safle.</p> <p>Bydd rheolwr safle yn cynnwys y person â'r cyfrifoldeb uchaf am reoli'r safle, ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb am reoli'r safle o ddydd i ddydd.</p> <p>Hefyd, mae cyfeiriad at bersonau sy'n rheoli safle yn cynnwys cyfeiriad at bersonau sy'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli'r safle.</p>
<p>Wrth benderfynu a yw rheolwr safle yn berson addas a phriodol, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i bob mater y mae o'r farn eu bod yn briodol.</p>	<p>Mae Deddf 2014 yn gymwys yn yr un modd, heblaw bod rhaid i'r awdurdod lleol hefyd dalu sylw penodol i dystiolaeth sy'n dangos bod y</p>

<p>Yn benodol rhaid iddo dalu sylw i dystiolaeth sy'n dangos bod y rheolwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• wedi cyflawni troseddau sy'n ymwneud â thwyll, anonestrwydd, trais, arfau tanio, cyffuriau neu droseddau rhywiol</li> <li>• wedi gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson wrth gynnal ei fusnes</li> <li>• wedi gweithredu'n groes i'r gyfraith sy'n ymwneud â thai.</li> </ul>	<p>rheolwr wedi mynd yn groes i gyfraith sy'n ymwneud â safonau masnach.</p>
<p>Gall perchnogion cartrefi symudol ddibynnu ar orchmynion ad-dalu.</p>	<p>Gall perchnogion carafannau gwyliau a'r rhai sy'n gosod carafannau gwyliau sy'n eiddo i berchennog safle ddibynnu ar orchmynion ad-dalu.</p>
<p><b>Ffioedd</b></p>	
<p>Mae Deddf 2013 yn caniatáu i awdurdodau lleol bennu ffioedd am geisiadau am drwyddedau ac am amrywio amodau trwyddedau.</p> <p>Gall costau gorfodi yr eir iddynt o ganlyniad i dorri amodau trwydded gael eu hadennill yn uniongyrchol gan berchennog y safle a dorrodd amodau'r drwydded.</p>	<p>Mae Deddf 2014 yn gymwys yn yr un modd, ond mae ffi flynyddol ychwanegol i gwmpasu costau awdurdodau lleol mewn perthynas ag archwiliadau safle, adolygu trwyddedau a'r prawf preswyllo.</p>
<p><b>Prawf preswyllo</b></p>	
<p>Nid yw hyn yn Neddf 2013.</p>	<p>Ni chaiff unrhyw un (heblaw perchennog safle, rheolwr safle a rhai staff penodol) ddefnyddio carafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa.</p>



	<p>Rhaid i berchnogion safleoedd gynnal prawf preswyllo o leiaf unwaith y flwyddyn i gadarnhau nad oes unrhyw un yn defnyddio carafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa.</p> <p>Mae'r prawf preswyllo yn ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr carafannau gwyliau ddangos dystiolaeth nad y garafán wyliau yw eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa.</p> <p>Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys o leiaf ddwy o'r dogfennau a restrir yn Atodlen 2. Bydd y dogfennau hynny yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• preswylfa'r meddiannydd at ddibenion y dreth gyngor;</li><li>• cofnod y meddiannydd ar gofrestr etholiadol;</li><li>• cyfeiriad y meddiannydd ar gyfer derbyn gohebiaeth gan fanciau, cwmnïau cardiau credyd, darparwyr cyfleustodau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.</li></ul> <p>Os na all meddiannydd carafán wyliau ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol, rhaid i berchennog y safle hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd.</p> <p>Yna rhaid i'r awdurdod lleol rhoi hysbysiad (hysbysiad methu prawf preswyllo) i'r meddiannydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd roi'r gorau i ddefnyddio'r garafán</p>
--	---

	<p>wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa.</p> <p>Caniateir i feddiannydd y cyflwynwyd hysbysiad methu prawf preswyllo iddo apelio i lys ynadon.</p> <p>Hefyd, caiff yr awdurdod lleol roi hysbysiad cosb benodedig i'r meddiannydd.</p> <p>Mae'n drosedd i feddiannydd fethu â chydymffurfio â gofynion hysbysiad methu prawf preswyllo, a bydd yn agored i ddirwy.</p> <p>Rhaid i berchnogion safleoedd gadw tystiolaeth sy'n dangos sut y mae meddianwyr wedi pasio'r prawf preswyllo. Rhaid i'r awdurdod lleol archwilio'r dystiolaeth honno o leiaf unwaith y flwyddyn.</p>
<b>Cytundebau</b>	
<p>Mae Deddf 2013 yn nodi'n fanwl delerau cytundebau cartrefi symudol, gweler Rhan 4 o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 i'r Ddeddf.</p>	<p>O dan Ddeddf 2014, rhaid i berchnogion safleoedd roi datganiad ysgrifenedig i feddianwyr sy'n cynnwys y materion canlynol cyn gwneud cytundeb carafannau gwyliau (hynny yw y contract rhwng perchennog y safle a meddiannydd y garafán):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• manylion y partïon</li> <li>• digon o fanylion i adnabod y llain dan sylw</li> <li>• y telerau sydd ymhlyg yn adran 56 (gweler isod)</li> </ul> <p>Hefyd, rhaid i'r datganiad</p>

	<p>ysgrifenedig gynnwys y telerau datganedig canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hyd y cytundeb (gan gynnwys pa bryd y bydd yn cychwyn ac yn dod i ben)</li> <li>• manylion yr holl ffioedd sy'n daladwy o dan y cytundeb</li> <li>• manylion unrhyw gomisiwn sy'n daladwy ar ôl gwerthu'r garafán wyliau</li> <li>• y dyddiadau pryd y caiff meddianwyr aros ar y safle (hynny yw, yr adegau pan fydd y safle ar agor)</li> <li>• manylion y telerau sy'n ymwneud â therfynu, aseinio ac olyniaeth</li> <li>• unrhyw reolau ar gyfer y safle (fel y'u pennir gan berchnogion safleoedd)</li> </ul> <p>Os na fydd perchennog y safle yn pennu unrhyw rai o'r telerau datganedig hyn, ni all y teler gael ei orfodi gan berchennog y safle.</p> <p>Hefyd, mae adran 56 o'r Ddeddf yn pennu rhai telerau sydd ymhlyg ym mhob cytundeb carafannau gwyliau.</p> <p>Y telerau hynny yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i feddiannwyr beidio â defnyddio'r garafán wyliau fel unig breswylfa neu brif</li> </ul>
--	---

	<p>breswylfa</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i feddianwyr hysbysu perchennog y safle os yw eu hamgylchiadau'n newid a hwythau'n dechrau defnyddio'r garafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa.</li> <li>• rhaid i feddianwyr hysbysu perchennog y safle os byddant yn caniatáu i rywun ddefnyddio'r garafán wyliau am gyfnod o fwy na chwe wythnos olynol.</li> <li>• rhaid i berchnogion safleoedd roi copïau o filiau cyfleustodau a bil ardrethi annomestig i feddianwyr, pan wneir cais rhesymol am hynny.</li> <li>• rhaid i berchnogion safleoedd ymgynghori â pherchnogion carafannau gwyliau am faterion sy'n ymwneud â'r safle ac sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar feddianwyr (heblaw mewn argyfwng pan nad oes disgwyl i'r perchennog wneud dim mwy na chymryd pob cam rhesymol i geisio barn perchnogion carafannau gwyliau).</li> </ul>
<b>Amddiffyn rhag aflonyddu</b>	
<p>Mae Rhan 3 o Ddeddf 2013 yn rhoi amddiffyniad rhag troi allan ac aflonyddu yng nghyd-destun meddianwyr preswyl.</p>	<p>Mae Rhan 5 o Ddeddf 2014 yn cadw'r amddiffyniad sydd ei angen yng nghyd-destun carafannau gwyliau, yn benodol amddiffyniad ar gyfer meddianwyr carafannau gwyliau rhag aflonyddu gan berchnogion safleoedd a'u hasiantau.</p>

## Rhan 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol

165. Prin yw'r data swyddogol ar y sector. Dadansoddiad cyfyngedig yn unig oedd yn bosibl gyda data'r Cyfrifiad gan nad yw carafannau gwyliau yn cael eu nodi fel math penodol o gartref yn holiadur y Cyfrifiad, ond yn cael eu cynnwys yn hytrach mewn categori ehangach sy'n cynnwys strwythurau dros dro eraill.
166. Mae'r diwydiant carafannau gwyliau yng Nghymru yn fwy o lawer na'r diwydiant cartrefi mewn parciau. Yng Nghymru, mae tua 3,400 o gartrefi mewn parciau, ond mae tua 70,000 o unedau gwyliau.<sup>23</sup> Nid yw carafannau gwyliau wedi'u bwriadu, na'u dylunio mewn rhai achosion, i bobl fyw ynddynt yn barhaol. Mewn rhai mannau yng Nghymru mae tystiolaeth bod cynnydd mewn defnyddio carafannau gwyliau yn gartrefi parhaol, ac mae rhai o'r rheini mewn ardaloedd lle mae risg llifogydd. Yn ogystal â bod yn groes i amodau cynllunio, amodau trwyddedau safle a chytundebau trwyddedau unigol ar gyfer lleiniau, mae hyn fel rheol yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, a gall olygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tanariannu, gan fod llawer o'r bobl hyn "o'r golwg" o ran yr ystadegau swyddogol. Bydd y Bil hwn yn sicrhau bod carafannau gwyliau yn cael eu defnyddio at ddibenion gwyliau yn hytrach nag fel cartrefi parhaol.
167. Fel rhan o'r gwaith ymchwil i gynorthwyo i ddatblygu'r Bil hwn anfonwyd holiadur manwl at bob awdurdod lleol yng Nghymru i gasglu gwybodaeth am nifer y safleoedd carafannau gwyliau a manylion ynghylch nifer y carafannau a lleiniau. Cafwyd ymateb gan 18 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a oedd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o safleoedd gwyliau. Ni chafwyd ymatebion gan Gaerffili, Caerdydd, Sir Fynwy na Chasnewydd. Ni allai pob awdurdod roi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, a oedd yn canolbwyntio ar safleoedd gwyliau sefydlog.
168. O'r gwaith ymchwil hwn, gellir amcangyfrif bod tua 1,100 o safleoedd yng Nghymru gyda lleiniau gwyliau sefydlog a thua 400 o safleoedd carafannau teithiol. Awgryma hyn y gallai fod tua 1,500 o safleoedd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf 1960. O'r safleoedd trwyddedig sy'n cynnwys lleiniau carafannau gwyliau sefydlog, mae nifer y lleiniau hynny'n fach ar gyfran fawr ohonynt. Un llain sydd gan

---

<sup>23</sup> Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain/Croeso Cymru, [Economic Impact Assessment of the Holiday Park Industry in Wales](#), Medi 2011 t.2

18% ohonynt, mae gan dros 30% bum llain neu lai ac mae gan dros 40% ddeg llain neu lai. Er bod yr arolwg yn anghyflawn, awgrymir y gallai fod tua 70,000 o unedau neu leiniau yng Nghymru.

169. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

- Opsiwn 1: Gwneud dim
- Opsiwn 2: Cynllun gwirfoddol
- Opsiwn 2: Cyflwyno'r Bil arfaethedig

## **Amcangyfrif o'r costau:**

### **Opsiwn 1 – gwneud dim – parhau â'r trefniadau presennol**

170. Awgryma'r ymatebion i'r ymgynghoriad nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i archwilio safleoedd carafannau gwyliau, a bod y system orfodi yn annigonol.

171. Fel rhan o'r gwaith ymchwil i gynorthwyo gyda datblygiad y Bil hwn, gofynnwyd i awdurdodau lleol pa mor aml yr oedd safleoedd carafannau gwyliau yn cael eu harchwilio a faint o amser y mae hynny'n ei gymryd. O'r ymatebion a gafwyd, mae'n amlwg bod awdurdodau lleol gwahanol yn gweithredu mewn ffordd wahanol o ran archwilio safleoedd, a bod awdurdodau ar y cyfan yn cymryd risg i ystyriaeth wrth benderfynu pa mor aml i archwilio pob safle unigol. Mae amllder yr archwilio yn amrywio o gynnal archwiliadau mewn ymateb i gwynion i archwiliadau blynyddol neu amlach.

- Dywedodd dau awdurdod eu bod, gan mwyaf, yn archwilio mewn ymateb i, er enghraifft ceisiadau am drwydded, diwygiadau, trosglwyddiadau ac ymgynghoriadau cynllunio. Hefyd, caiff safleoedd eu harchwilio os bydd cwynion, a bydd archwiliadau dilynol i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sydd angen sylw.
- Dywedodd un awdurdod bod amllder yr archwiliadau yn dibynnu ar yr ymrwymadau gwaith.
- Dywedodd dau awdurdod eu bod yn archwilio safleoedd fel mater o drefn bob rhyw dair neu bum mlynedd.
- Dywedodd pum awdurdod mai risg oedd yn penderfynu pa mor aml y byddent yn archwilio safleoedd. Roedd rhai safleoedd yn cael eu harchwilio bob chwe mis, roedd eraill yn cael eu harchwilio bob blwyddyn, neu bob dwy neu dair blynedd. Dywedodd un o'r awdurdodau hyn fod amllder yr archwiliadau yn ymestyn i bob pum mlynedd, a dywedodd un arall y gallai'r safleoedd hynny sydd â'r risg isaf lenwi holiadur hunanasesu.

- Dywedodd pedwar awdurdod bod safleoedd yn cael eu harchwilio'n flynyddol neu'n fwy aml.

172. O ran yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer archwilio, roedd yn anodd cael darlun cyson o'r sefyllfa yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw bod yr amser sydd ei angen i wneud archwiliadau yn gymharol fyr, ac felly nid ydynt yn cael eu cofnodi gan awdurdodau lleol. O'r trafodaethau gydag awdurdodau lleol, ymddengys y gall asesiad cyffredin gymryd rhwng un a phedair awr, ynghyd ag amser teithio swyddogion. Dywedodd hyd yn oed yr awdurdodau hynny sydd â nifer fawr o safleoedd yn eu hardal mai rhan fechan iawn o un swydd amser llawn cyfatebol fyddai hyn. Felly, ni fu modd mesur yr adnoddau a fuddsoddir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yn y gwaith o archwilio safleoedd carafannau gwyliau.
173. Fel y soniwyd eisoes, ni all awdurdodau lleol godi tâl am swyddogaethau trwyddedu safleoedd carafannau gwyliau o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Felly, nid ydynt yn cael unrhyw gyfraniad uniongyrchol gan weithredwyr safle tuag at y costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau o dan Ddeddf 1960. Os na ddaw'r Bil hwn yn ddeddf, bydd y costau hyn yn dal i gael eu talu gan drethdalwyr cynghorau, ac yn dod o gyllid a roddir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl bod anallu awdurdodau lleol i godi tâl yn rhwystro rhai awdurdodau rhag ymyrryd lle gwelir bod amodau wedi'u torri, neu'n wir rhag monitro'n rheolaidd.
174. Er bod rhai awdurdodau lleol eisoes yn archwilio safleoedd yn eu hardaloedd yn rheolaidd, nid yw hyn yn digwydd ym mhob ardal. Bydd y gyfundrefn newydd a gynigir gan y Bil hwn yn sicrhau y caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal yn fwy cyson ledled Cymru, a bod trwyddedau'n cael eu moderneiddio ar ôl cychwyn y Bil. Yn absenoldeb y darpariaethau hyn, mae risg mai ychydig o archwiliadau, os o gwbl, a gynhelir, a bydd y duedd i ddefnyddio safleoedd carafannau gwyliau at ddibenion preswyl yn parhau.
175. Mae perygl y gallai'r arfer o fyw'n barhaol mewn unedau gwyliau ar leiafrif o safleoedd gael effaith ehangach ar enw da a phroffidioldeb y diwydiant a'r diwydiant twristiaeth yn fwy cyffredinol.

## Opsiwn 2 – Cynllun Gwirfoddol

176. Ystyriwyd yr opsiwn o gyflawni nod y polisi drwy gyfrwng codau ymarfer a chynlluniau cymeradwy'r cyrff o fewn y diwydiant, a hunan-reoleiddio.
177. Nid yw pob perchennog safle yn arddel codau ymarfer a chynlluniau cymeradwy presennol y diwydiant, ac ar sail wirfoddol y bydd y safleoedd yn cymryd rhan ynddynt. Hefyd, nid yw pob safle yn aelodau o gyrff o fewn y diwydiant, a gallai fod canlyniad anfwriadol os dewisir yr opsiwn hwn, sef y gallai perchnogion safleoedd beidio ag adnewyddu eu haelodaeth gyda'r cyrff hyn er mwyn osgoi newid eu harferion.

## Opsiwn 3 – Cyflwyno Bil – Yr opsiwn a ffefrir

178. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir. Byddai'r cynigion newydd yn arwain at rai costau newydd i berchnogion safleoedd, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.
179. Mae'r Bil yn nodi un pŵer i wneud rheoliadau, un gorchymyn cychwyn ac un set o ganllawiau y mae'n **rhaid** i Lywodraeth Cymru eu gwneud. Mae'r Bil hefyd yn nodi dwy set o bwerau i wneud rheoliadau, pedwar pŵer i wneud gorchymyn ac un set o ganllawiau y **caiff** Llywodraeth Cymru eu gwneud. Felly, bydd y costau ariannol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn dibynnu sut a phryd y caiff y pwerau hyn eu gweithredu. Yn yr adrannau dilynol ceir costau dangosol sy'n gysylltiedig â bwriad y Bil. Rhagwelir y bydd amcangyfrifon manylach ar gael pan gaiff y rheoliadau eu drafftio, a phan ymgynghorir yn eu cylch.

## *Cyfundrefn drwyddedu newydd*

180. Bydd safleoedd carafannau gwyliau sydd eisoes â thrwydded o dan Ddeddf 1960 yn cael eu trin fel safleoedd â thrwydded o dan y Bil hwn. Bydd hyn yn ysgafnhau effaith y baich gweinyddol ychwanegol ar berchnogion safleoedd ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cyn pen 12 mis ar ôl dyddiad cychwyn y ddeddfwriaeth, rhaid i'r awdurdod lleol asesu a yw'r personau sy'n gyfrifol am reoli'r safleoedd yn eu hardal yn bersonau addas a phriodol. Mae "rheolwr", at ddibenion y Bil hwn, yn cynnwys unrhyw berson sy'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli'r safle o ddydd i ddydd, gan gynnwys perchnogion, neu swyddogion priodol corff corfforaethol. Os



penderfynir nad yw'r rheolwr yn berson addas a phriodol, ni fydd y drwydded o dan Ddeddf 1960 bellach yn gymwys.

181. Lle caiff rheolwr safle ei asesu yn berson addas a phriodol, rhaid i'r awdurdod lleol addasu'r drwydded a roddwyd o dan Ddeddf 1960 i fodloni gofynion y Bil hwn o fewn cyfnod o 12 mis.
182. Yn wahanol i Ddeddf 2013, ni fydd trwyddedau safle a roddwyd o dan y Bil hwn yn dod i ben. Mae hyn yn barhad o'r trefniadau presennol o dan Ddeddf 1960 ac yn adlewyrchu pryderon y diwydiant ynghylch trwyddedau amser-gyfngedig. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i drwyddedau safle gael eu hadolygu bob pum mlynedd. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn ddigon syml yn achos y rhan fwyaf o safleoedd ac na fyddai disgwyl i amodau trwyddedau newid heb gyfiawnhad. Gan fod gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i amrywio amodau trwyddedau ac yn gallu gwneud cais i lys ynadon i ddirymu trwyddedau o dan Ddeddf 1960, diben y pŵer hwn yw cyflwyno elfen o gysondeb i'r trefniadau "adolygu" anffurfiol sydd eisoes yn digwydd ar sail ad hoc.
183. O dan Ddeddf 1960, nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio safleoedd. O dan ddarpariaethau'r Bil hwn, rhaid i awdurdodau lleol archwilio safleoedd o leiaf unwaith bob tair blynedd i sicrhau bod safleoedd yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded. Bydd y dull hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol archwilio safleoedd ar sail risg. Nid oes disgwyl i safleoedd sy'n cael eu gweithredu'n broffesiynol gael eu harchwilio'n amlach nag sy'n angenrheidiol. Hefyd, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn adolygu gwybodaeth bob blwyddyn ynghylch profion preswyllo ar gyfer perchnogion carafannau a phobl sy'n aros ar safleoedd am fwy na chwe wythnos olynol. Ni fydd y dyletswyddau hyn yn cychwyn hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau ac wedi ymgynghori â'r diwydiant.
184. Wrth benderfynu pa amodau i'w gosod mewn trwydded safle, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw safonau enghreifftiol sydd wedi eu pennu. Bydd safonau enghreifftiol 1989 yn dal i fod yn gymwys hyd oni chaiff rhai newydd eu cyhoeddi. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi safonau enghreifftiol newydd ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau.
185. Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori yn y dyfodol gydag unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â

chyfrifoldeb dros reoli risg llifogydd wrth ystyried pa amodau i'w gosod mewn trwydded safle. Mae'r llifogydd a gafwyd yng Nghymru yn ddiweddar wedi dangos bod rhai safleoedd carafannau gwyliau yn wynebu risgiau sylweddol o lifogydd, yn enwedig ar yr arfordir.

186. Bydd apelau yn erbyn amodau trwydded yn cael eu gwranddo gan lys ynadon.
187. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw cofrestr o drwyddedau safleoedd sydd mewn grym. Rhaid trefnu bod hon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.
188. Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau cyffredinol i'r awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth benderfynu a ddylid ymdrin â methiant i gydymffurfio ag amod mewn trwydded safle drwy roi hysbysiad cosb benodedig. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y trefniadau ar gyfer gorfodi amodau trwydded. Lle bo angen, ac os methir â chymryd y camau a amlinellir mewn hysbysiad cydymffurfio, caiff awdurdod lleol godi tâl ar y perchennog fel modd o adennill treuliau yr eir iddynt gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r hysbysiad. Oni chydymffurfir â'r hysbysiad, a'r perchennog safle'n cael ei gollfarnu, caiff yr awdurdod lleol gymryd camau ei hun i sicrhau y bodlonir amodau'r drwydded. Yn gyntaf, caiff deiliad y drwydded amser rhesymol i gymryd y camau ei hun.

### ***Y gost o adolygu trwyddedau***

189. Er mwyn i awdurdodau lleol allu monitro trwyddedau safle yn ddigonol, rhaid iddynt fod ag adnoddau priodol. Fel y nodwyd yn Opsiwn 1, mae awdurdodau lleol sydd â safleoedd carafannau gwyliau yn eu hardaloedd ar hyn o bryd yn trwyddedu ac yn archwilio'r safleoedd hyn i wahanol raddau, ac mae mwyafrif y safleoedd yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith bob tair blynedd. Ni fyddai'r system newydd o drwyddedu yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol. Yn achos awdurdodau sydd â nifer fach iawn o safleoedd, mae potensial i gydweithredu i ddarparu gwasanaethau a sicrhau arbedion maint.
190. Mae'r rhagdybiaethau ynghylch yr amser sydd ei angen ar gyfer archwiliadau mewn perthynas ag adolygu trwyddedau a monitro parhaus yn seiliedig ar drafodaethau gyda dau awdurdod lleol. Yn

ardaloedd yr awdurdodau hyn yr oedd y nifer fwyaf o safleoedd gwyliau â charafannau sefydlog.

191. **Ni chaiff y ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol ei chyfarwyddo gan y Bil hwn, felly mae'r amcangyfrifon a nodir yn yr Aseiad Effaith hwn yn seiliedig ar Gymru gyfan.** Yn yr amcangyfrifon canlynol o gostau, amcangyfrifir y byddai angen adnoddau cyfun o tua 20 (amser llawn cyfatebol) o swyddogion iechyd yr amgylchedd i brosesu tua 1,500 o drwyddedau safle adnewyddedig yng Nghymru yn y flwyddyn gyntaf. Rhagdybir y gellir prosesu un cais i adnewyddu trwydded ynghyd â'r gwaith cysylltiedig bob tri diwrnod, gan ganiatáu amser i gysylltu â pherchnogion safleoedd fel rhan o'r broses ymgeisio, er mwyn cadw i'r lleiafswm nifer yr apelau posibl a'r angen am ymgynghori ag unrhyw gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys cyrff sydd â chyfrifoldebau rheoli risg llifogydd. Wrth gysylltu â pherchnogion safleoedd dylid sicrhau eu bod wedi rhoi digon o dystiolaeth i fodloni'r meini prawf sy'n ymwneud â phersonau addas a phriodol yn rheoli'r safle.
192. Os cymerir bod cost swyddog iechyd yr amgylchedd yn £38,100 (yn seiliedig ar uwch-swyddog rheolaeth ganol yn Llywodraeth Cymru, a chan gymryd costau Yswiriant Gwladol a phensiwn i ystyriaeth) bydd hyn yn gost cyfun o £762,000 yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn cymryd yn ganiataol y byddai pob trwydded yn cael ei phrosesu o fewn 12 mis ar ôl gweithredu'r polisi. Os na lwyddir yn hynny o beth bydd y costau hyn yn cael eu lledaenu dros gyfnod hwy. Mae'r rôl o sefydlu cofrestr o drwyddedau yn rhan o'r amcangyfrif hwn.

### ***Costau monitro safleoedd***

193. O dan y Bil hwn, rhaid i awdurdodau lleol archwilio safleoedd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Mae hyn yn cyfateb i'r polisi presennol o raddio amllder archwiliadau safle yn ôl y risg cymharol sydd iddynt. Mae'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad gan awdurdodau lleol yn awgrymu mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o sicrhau bod trefniadau rheoli boddhaol yn cael eu gwneud, a bod y safonau hynny'n cael eu cadw.
194. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn monitro ac yn archwilio safleoedd, felly mae baich ychwanegol y ddeddfwriaeth hon yn gyfyngedig. Yn opsiwn 1 nodir pa mor aml y mae awdurdodau lleol yn archwilio safleoedd ar hyn o bryd. Roedd bron dwy ran o dair yr

awdurdodau a ymatebodd i'r arolwg yn dweud eu bod yn archwilio safleoedd carafannau gwyliau, a oedd â charafannau sefydlog, o leiaf bob tair blynedd.

195. Amcangyfrifir, ar gyfer unrhyw ofynion monitro a gweinyddol newydd, y byddai angen cyfraniad un person y dydd fesul safle fesul archwiliad bob dwy flynedd, neu dri a thraean o swyddogion technegol amser llawn cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd archwiliad yn cael ei gynnal, ar gyfartaledd, bob dwy flynedd, y bydd archwiliad yn cymryd rhwng un a phedair awr, ynghyd â sicrhau bod perchnogion safleoedd yn cadw tystiolaeth weinyddol, a hefyd i gwmpasu unrhyw ofynion gweinyddol ychwanegol fel diweddarau'r gofrestr o drwyddedau safle, lle bo angen.
196. Mewn blynyddoedd pan na chaiff archwiliad ei wneud ar safle carafannau unigol, bydd angen i'r awdurdod lleol adolygu gwybodaeth a gedwir gan y safle mewn perthynas â sicrhau bod y meddianwyr yn bodloni'r prawf preswyllo. Ni fydd angen ymweld â'r safle i wneud hyn o reidrwydd. Rhagdybir y cymerir, ar gyfartaledd, awr y safle i wneud hyn. Byddai hyn yn golygu dwy ran o dair arall o amser swyddog technegol amser llawn cyfatebol. Ffigur cyfartalog yw hwn, a bydd yr adnoddau sydd eu hangen yn uwch yn y sefydliadau mwyaf, ond yn achos y 40% o safleoedd sefydlog lle mae deg neu lai o garafannau, a safleoedd carafannau teithio, bydd y costau hyn yn is.
197. Gan dybio bod swyddog technegol yn costio tua £27,100 y flwyddyn (yn seiliedig ar gyflog o oddeutu £22,100 ynghyd ag argostau) byddai'r gwaith monitro blynyddol yn costio £110,000 y flwyddyn o'r ail flwyddyn ymlaen.
198. Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu lefel ffioedd fel bod y ffioedd hynny'n ddigon i adennill y costau o drwyddedu, monitro ac archwilio safleoedd dros gyfnod o bum mlynedd. Y bwriad yw bod trwyddedau'n cael eu hadolygu bob pum mlynedd, a bod archwiliadau safle yn cael eu cynnal ar sail risg o leiaf bob tair blynedd. Mae'r Bil yn nodi y caiff awdurdodau lleol godi ffi flynyddol i adennill y costau trwyddedu ac archwilio. Byddai cael incwm blynyddol o fudd i awdurdodau lleol, ond byddai costau gweinyddol ychwanegol bach yn sgîl hynny, fel yn achos ardrethi busnes.

199. Gan fod amrywiaeth eang ym maint safleoedd carafannau gwyliau, o un uned i ymhell dros 1,000 o unedau, bydd angen rhyw fath o system raddio er mwyn pennu ffi sy'n seiliedig ar faint pob safle. Yr awdurdodau lleol unigol yw'r rhai gorau i benderfynu ar fanylion cynlluniau o'r fath. Ceir enghraifft posibl isod sy'n dangos pa fath o ffioedd cyfartalog a fyddai'n ddigon i adennill costau trwyddedu ac archwilio'r awdurdodau lleol, fel yr amcangyfrifir yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, o ran y gost gyfartalog fesul safle a'r gost gyfartalog fesul uned sefydlog.

**Tabl 1 Amcangyfrif o gostau'r swyddogaethau trwyddedu a monitro a'r ffioedd cysylltiedig**

	Enghraifft: Ffi cyfartalog trwydded		Incwm o ffioedd trwyddedau 5 mlynedd o 1,500 safle
	Blynyddol	Dros 5 mlynedd	
Ffi fesul safle <sup>1</sup>	£160	£800	£1,200,000
Ffi fesul uned <sup>2</sup>	£3.43	£17.14	£1,200,000

Mae'r ffigurau yn seiliedig ar y nod o adennill costau awdurdodau lleol am drwyddedu a monitro dros y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd, wedi'u talgrynnu gan £2,000.

1 Dyma'r costau a amcangyfrifir i awdurdodau lleol wedi'u rhannu gan nifer y safleoedd, a amcangyfrifir yn 1,500.

2 Cyfrifir hyn drwy gymryd y gost fesul safle a'i rhannu gan 70,000, sef amcangyfrif bras iawn o nifer y lleiniau yng Nghymru.

*Mae'r ffioedd am drwyddedau yn cael eu trosglwyddo o berchnogion safleoedd i awdurdodau lleol, ac felly nid ydynt yn gost economaidd net.*

200. Yn wahanol i Ddeddf 2013, ni fydd trwyddedau safle a roddwyd o dan y Bil hwn yn dod i ben. Mae hyn yn parhau â'r trefniadau presennol o dan Ddeddf 1960 ac yn adlewyrchu pryderon y diwydiant ynghylch trwyddedau amser-gyfnygedig. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i drwyddedau safle gael eu hadolygu bob pum mlynedd. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn ddigon syml yn achos y rhan fwyaf o safleoedd ac na fyddai disgwyl i amodau trwyddedau newid heb gyfiawnhad. Gan fod gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i amrywio amodau trwyddedau neu ddirymu trwyddedau o dan Ddeddf 1960, diben y pŵer yw cyflwyno elfen o gysondeb i'r trefniadau "adolygu" anffurfiol sydd eisoes yn digwydd ar sail ad hoc. Felly, ar ôl y cyfnod cyntaf o bum mlynedd a grybwyllir uchod, dylai'r costau a'r ffioedd o hynny ymlaen fod yn is, oherwydd ni fyddai'r adnoddau a fyddai eu hangen yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cychwyn y Bil yn cael eu hailadrodd.

201. Er mwyn i drwyddedau adlewyrchu gofynion newydd y Bil, bydd angen i'r rheolwr/rheolwyr o ddydd i ddydd (a'r person sydd â'r cyfrifoldeb uchaf am reoli'r safle) basio prawf person "addas a phriodol". Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael digon o wybodaeth gan rhai sy'n ceisio trwydded i benderfynu a yw deiliad y drwydded ac unrhyw berson sy'n ymwneud â rheoli'r safle yn bersonau addas a phriodol. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw droseddau perthnasol, enghreifftiau o dorri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith ynglŷn â chydraddoldeb, tai, landlordiaid a thenantiaid, a safonau masnach.
202. Felly, mae'r prawf person addas a phriodol yn gymwys yn yr un modd ag o dan Ddeddf 2013, heblaw bod rhaid i'r awdurdod lleol hefyd dalu sylw penodol i dystiolaeth sy'n dangos bod y person dan sylw wedi mynd yn groes i gyfraith sy'n ymwneud â safonau masnach. Efallai y bydd awdurdodau lleol hefyd am ystyried a gydymffurfiwyd ag unrhyw godau ymarfer presennol sydd gan y diwydiant, fel yr un sydd gan y Cyngor Carafannau Cenedlaethol, wrth ystyried a basiwyd y prawf ai peidio. Yr awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am ofyn am dystiolaeth ynghylch euogfarnau troseddol person.
203. Mae Tystysgrif o Euogfarnau Troseddol gan Wasanaeth Datgelu yr Alban yn costio tua £25, mae gwiriad safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn costio tua £26 ac mae gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn costio £44. Pe rhagdybir bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar ddau berson ar bob safle, byddai cost y gwiriadau troseddol ar y cyfan o'r 1,500 o safleoedd oddeutu £75,000 a £132,000 gan ddibynnu ar y gwiriad y byddai'r awdurdod lleol yn ei gynnal. Mae cost gyfartalog o £95,000 wedi ei defnyddio yn yr amcangyfrifon hyn i adlewyrchu cyfanswm y gost yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cychwyn y Bil, a rhagdybiwyd mai perchennog y safle a fyddai'n eu talu. Rhagdybiwyd y gallai fod gofyniad i gynnal profion personau addas a phriodol ar 10% o safleoedd, wrth i berchnogion a rheolwyr newid. Felly, ym mlynnyddoedd 2 i 5 mae costau o £9,500 y flwyddyn mewn perthynas â'r gofyniad hwn.
204. Byddai costau gweinyddol i berchennog y safle o ran y gwaith ychwanegol y byddai angen ei wneud wrth ymgeisio am drwydded, ac rydym wedi cynnwys amcangyfrif o £100 y safle ar gyfer hyn. Mae mwyafrif y costau hyn yn ymwneud ag amser a byddant yn gostau cyfle o ran amser perchennog neu reolwr. Er enghraifft, un o amodau eraill y drwydded yw y bydd angen i berchnogion carafannau, a'r rhai sy'n aros mewn carafannau gwyliau am gyfnod o fwy na chwe

wythnos olynol, gael prawf preswyllo a rhoi tystiolaeth nad y garafán yw eu prif breswylfa. Cyfrifoldeb y meddiannydd fydd darparu'r wybodaeth hon, a chyfrifoldeb perchennog y safle fydd cadw'r wybodaeth er mwyn ei dangos i'r awdurdod lleol. Byddai hyn yn arwain at amcangyfrif cyffredinol o £150,000 (£100 x 1,500) yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cychwyn y Bil.

205. Bydd angen i berchnogion safleoedd ddiweddarau eu tystiolaeth bod perchnogion carafannau, a'r rhai sy'n aros ar y safle am dros chwe wythnos neu ragor, wedi pasio prawf preswyllo, a rhaid i'r dystiolaeth fod ar gael i'w monitro/archwilio yn barhaus. Rhagdybiwyd y byddai hyn yn costio £75 y flwyddyn fesul safle o'r ail flwyddyn ymlaen, sy'n gyfanswm o £112,500 y flwyddyn ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn seiliedig ar amser gweinyddu o tua diwrnod bob dwy flynedd ar gyfer archwilio, ynghyd â'r gwaith blyneddol o ddiweddarau gwybodaeth ynghylch prif gyfeiriadau perchnogion carafannau ac unrhyw ymwelwyr sy'n aros dros chwe wythnos, a rhoi'r wybodaeth honno i awdurdodau lleol. Mewn blwyddyn pan nad oes archwiliad i gael ei gynnal bydd angen i perchennog safle roi tystiolaeth i'r awdurdod lleol fod y prawf preswyllo wedi'i gynnal ac wedi'i basio. Ffigur cyfartalog yw hwn, a bydd yn uwch mewn sefydliadau mawr, ond yn achos y 40% o safleoedd lle mae deg neu lai o garafannau gwyliau sefydlog, ac ar safleoedd carafannau teithio, bydd y costau hyn yn is.

206. Nid yw'r gost i berchnogion carafannau gwyliau o roi gwybodaeth i fodloni prawf preswyllo wedi'i gyfrif, gan fod hynny ond yn golygu dangos tystiolaeth ynghylch preswylfa unwaith y flwyddyn.

### ***Dirwyon a Chosbau***

207. Wrth bennu ffioedd, ni chaiff awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth y costau y mae wedi mynd iddynt wrth arfer unrhyw rhai o'i bwerau gorfodi o dan y Bil hwn. Felly, wrth gymryd camau gorfodi yn erbyn y nifer fach o berchnogion safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio, ni chaiff yr awdurdod lleol drosglwyddo'r costau i'r nifer fawr o berchnogion safleoedd cyfrifol.

208. Os bydd meddiannydd yn methu'r prawf preswyllo, rhaid i perchennog y safle hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd. Yna, rhaid i'r awdurdod lleol rhoi hysbysiad i feddiannydd y garafán wyliau, sef "hysbysiad methu prawf preswyllo". Hefyd, caiff yr awdurdod lleol roi hysbysiad cosb benodedig i'r meddiannydd.

209. Bydd yr hysbysiad methu prawf preswyllo yn nodi'r rhesymau pam fod yr awdurdod lleol yn credu bod y meddiannydd wedi methu'r prawf preswyllo. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd roi'r gorau i ddefnyddio'r garafán wyliau fel ei brif breswylfa o fewn cyfnod penodol. Os bydd meddiannydd yn cael hysbysiad o'r fath, bydd ganddo hawl i apelio. Llys ynadon fydd yn gwrando ar yr apêl. Hefyd, bydd gan yr awdurdod lleol bwerau i ddirymu neu amrywio'r hysbysiad.
210. Pan fo meddiannydd yn parhau i fyw mewn carafán wyliau yn groes i hysbysiad methu prawf preswyllo, bydd yn cyflawni trosedd, a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy a bennir gan y llys.
211. Mae'r Bil yn cyflwyno system o hysbysiadau cosb benodedig am droseddau fel torri amodau trwyddedau safle, a bydd yr amodau hynny'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Bwriad y fframwaith rheoleiddio newydd yw mai fel cam eithaf y caiff y pwerau hyn eu harfer, ac y byddant yn ddigwyddiad prin. Byddai'r awdurdod lleol yn cadw unrhyw incwm o gosbau penodedig, ond byddai incwm o ddirwyon a bennwyd gan y llysoedd yn cael ei drosglwyddo i Drysorlys Ei Mawrhydi. Fodd bynnag, os bydd yr erlyniad yn llwyddiannus, gall awdurdodau lleol wneud cais i'r llys i orchymyn i'r sawl a gafodd ei erlyn dalu'r costau paratoi a chostau'r achos llys.
212. Nid yw costau ar berchnogion carafannau neu berchnogion safleoedd mewn perthynas â dirwyon neu hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon hyn, oherwydd byddant ond yn dod i rym mewn ymateb i weithgaredd a ysgogir gan dor-amod gan y meddiannydd neu berchennog/rheolwr safle yn hytrach nag oherwydd y Bil ei hun.
213. Nodir y strwythur cosbau ym mharagraff 50 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.
214. Bydd y Bil hwn yn gwneud unrhyw berson sy'n rhwystro'n fwriadol unrhyw berson awdurdodedig rhag cael mynediad i safle, gan gynnwys sefyllfa lle rhoddwyd gwarant, yn agored i ddirwy hyd at lefel 4 ar y raddfa safonol, sef £2,500 ar hyn o bryd ac yn unol â Deddf Cartrefi Symudol 2013 a Deddf Tai 2004.



215. Os cymerir yn ganiataol bod un achos fesul deg safle ar gyfartaledd yn cael ei wrando yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cychwyn, a bod y costau apêl ar gyfer awdurdodau lleol i baratoi'r achos a bod yn bresennol ynddo tua £500 yr achos, byddai hyn yn arwain at gost o £75,000 i awdurdodau lleol. Mewn blynyddoedd dilynol byddai lawer yn llai tebygol y byddai achosion yn cael eu dwyn gerbron y llysoedd. Dyna felly sy'n cyfrif am y rhagdybiaeth o dri achos fesul 100 o safleoedd mewn blynyddoedd dilynol, neu £22,500 y flwyddyn. Rhagdybiwyd costau tebyg ar gyfer perchnogion safleoedd.
216. Nid yw'r costau ar gyfer perchnogion carafannau wedi'u cynnwys oherwydd rhagdybir y byddai'r darpariaethau o fewn y Bil, fel cytundebau carafannau gwyliau ac amddiffyn rhag aflonyddu, yn ei gweud yn llai tebygol y byddai angen i feddiannydd gymryd camau cyfreithiol.

### ***Costau eraill***

217. Mae'r Bil arfaethedig hefyd yn cynnwys pŵer i benodi rheolwr interim ar gyfer safle. Ar sail penodi rheolwr ar lefel uwch, amcangyfrifir y gallai'r gost bosibl i'r awdurdod lleol o sicrhau rhywun yn ei le fod oddeutu £10,000. Byddai'r gost lawn o gyflogi'r rheolwr interim yn dod o refeniw'r safle. Er hynny, y gobaith yw mai fel cam eithaf yn unig y byddai hyn yn cael ei ystyried, ac mai anaml yn unig y câi ei gymryd.
218. Byddai angen hyfforddiant ychwanegol ar staff awdurdodau lleol yn y flwyddyn gyntaf, a byddai costau cyhoedduswydd hefyd. Yr amcangyfrifiad hael o'r rhain yw £40,000 ar gyfer hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Dim ond yn y flwyddyn gyntaf y darperir hyfforddiant, oherwydd wedi hynny bydd yn rhan o'r hyfforddiant cyffredinol ar gyfer archwilio. Bydd y staff presennol wedi cael hyfforddiant perthnasol ar gyfer gweithredu Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae'r lwfans ar gyfer hyfforddiant a chyhoedduswydd yn adlewyrchu'r ffaith fod y diwydiant carafannau gwyliau yn fwy o faint, a bod angen mwy o adnoddau o ran staff. Hefyd, gwnaed cymhariaeth â Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), lle rhoddwyd amcangyfrif o £10,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddi staff awdurdodau lleol.

## **Llywodraeth Cymru**

219. Bydd costau hefyd i Lywodraeth Cymru oherwydd nifer y rheoliadau a phwerau i wneud gorchmynion yn y Bil. Costau trosiannol fydd y rhain ar y cyfan a allai gynnwys gwneud deddfwriaeth ac ymgynghori arni, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r penderfyniadau. Mae'n anodd amcangyfrif y costau ar Lywodraeth Cymru, oherwydd bydd amseriad a swm yr adnoddau yn cael eu penderfynu o fewn yr adran berthnasol. Hefyd, mae rhai o'r pwerau yn debyg i'r rhai yn y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch tai, neu safonau presennol y diwydiant.
220. Mae'r Bil yn nodi un pŵer i wneud rheoliadau, un gorchymyn cychwyn ac un set o ganllawiau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud. Mae'r Bil hefyd yn nodi dwy set o bwerau i wneud rheoliadau, pedwar pŵer i wneud gorchymyn ac un set o ganllawiau y caiff Llywodraeth Cymru eu gwneud.
221. Fodd bynnag, gallai'r ddeddfwriaeth bresennol, yn enwedig deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Chartrefi Symudol a Thai Amlfeddiannaeth, fod yn sylfaen ar gyfer rhywfaint o'r ddeddfwriaeth newydd.
222. Serch hynny, bydd y costau'n amrywio oherwydd cymhlethdod y rheoliadau a'r canllawiau a ragnodir. Cysylltwyd â Llywodraeth Cymru i gael amcangyfrifon manylach o'r goblygiadau i'r Bil hwn o ran y costau o lunio rheoliadau a chanllawiau. Disgwylir y caiff y rhain eu darparu wrth graffu ar y Bil. Yn y cyfamser, fel enghraifft, amcangyfrifwyd, yn adran Trefniadaeth Ysgolion o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) drafft y byddai diwygio rheoliadau a llunio canllawiau newydd yn costio fel a ganlyn:
223. Mae'r costau untro, trosiannol, ac ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr opsiwn hwn yn unig ym mlwyddyn ariannol 2012-13, o baratoi ac argraffu canllawiau newydd ar yr arferion gorau, cyhoeddi rheoliadau diwygiedig a chynnal hyfforddiant cynefino ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol yn annhebygol o fod yn fwy nag £8,500 (£6,500 ar gyfer canllawiau a £2,000 ar gyfer rheoliadau).
224. Gan na chafwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, cymerir yn ganiataol y bydd y costau uchod yn ddilys ar gyfer y Bil hwn hefyd. Ar gyfer wyth gorchymyn a rheoliadau a dwy set o ganllawiau, paratoi

ac argraffu canllawiau newydd ar yr arferion gorau, cyhoeddi rheoliadau diwygiedig a chynnal hyfforddiant cynefino ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol, mae'n annhebygol y bydd y costau'n fwy nag  $8 \times \pounds 2,000 + 2 \times \pounds 6,500$  neu  $\pounds 29,000$ .

## **Crynodeb o'r costau**

### ***Perchnogion safleoedd***

225. Bydd nifer o gostau ar berchnogion safleoedd, fel a ganlyn:
- Ffioedd trwydded safle – ffigur dangosol o  $\pounds 1,200,000$ . Cyfnod trosiannol, tybir mai'r flwyddyn gyntaf fydd hyn. Bydd trwydded yn para am gyfnod o bum mlynedd.
  - Prawf person addas a phriodol, yn debygol o fod tua  $\pounds 133,000$  dros bum mlynedd.  $\pounds 95,000$  yn y flwyddyn gyntaf a  $\pounds 9,500$  mewn blynyddoedd dilynol.
  - Y costau gweinyddol o wneud cais am drwydded,  $\pounds 150,000$  yn y flwyddyn gyntaf.
  - Cymorth gweinyddol ar gyfer cynnal y wybodaeth am y prawf preswyllo a monitro gan yr awdurdod lleol,  $\pounds 112,500$  o'r ail flwyddyn ymlaen.
  - Amcangyfrif o'r costau am apelau,  $\pounds 75,000$  yn y flwyddyn gyntaf ac yna  $\pounds 22,500$  ym mhob blwyddyn wedi hynny.
  - Dros bum mlynedd cyntaf y Bil, byddai hyn gyfwerth â thua  $\pounds 2.1$  miliwn. Fodd bynnag, mae  $\pounds 165,000$  o'r amcangyfrifon hyn yn gostau llys, a gobeithir y bydd modd adennill rhywfaint o'r rheini.

### ***Awdurdodau lleol***

- Incwm o'r ffioedd safle – ffigur dangosol o  $\pounds 1,200,000$ .
- 20 Swyddog lechyd yr Amgylchedd amser llawn cyfatebol yn y flwyddyn gyntaf i gynorthwyo gyda gweithredu'r system drwyddedu,  $\pounds 762,000$ .
- 4 swyddog technegol ar gyfer y gwaith monitro,  $\pounds 110,000$  y flwyddyn o'r ail flwyddyn ymlaen.
- Amcangyfrif o'r costau am apelau,  $\pounds 75,000$  yn y flwyddyn gyntaf ac yna  $\pounds 22,500$  ym mhob blwyddyn wedi hynny.
- Costau hyfforddiant a chyhoeddu'rwydd,  $\pounds 40,000$  yn y flwyddyn gyntaf.
- Dros bum mlynedd cyntaf y Bil, byddai hyn gyfwerth â thrwch blewyn o dan  $\pounds 250,000$  (net o  $\pounds 1,125,000$  o incwm dangosol).

Fodd bynnag, mae £165,000 o'r amcangyfrifon hyn yn gostau llys, a gobeithir y bydd modd adennill rhywfaint o'r rheini.

### **Llywodraeth Cymru**

226. Bydd costau hefyd i Lywodraeth Cymru a fydd yn dibynnu ar lefel y rheoliadau yn y Bil a faint o'r ddeddfwriaeth bresennol y bydd angen ei diwygio neu ei disodli. Bydd hyn yn gosod baich gweinyddol cyfyngedig ar staff Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau trosiannol, a gallai'r rheini gynnwys gwneud rheoliadau ac ymgynghori arnynt, a lledaenu penderfyniadau.

227. Nid oedd modd i Lywodraeth Cymru roi amcangyfrif o gostau gweinyddol yr opsiwn hwn cyn cyflwyno'r Bil drafft. Felly, gan nad oes ffigur o'r fath ar gael, fel y nodwyd yn flaenorol, cynhwysir amcangyfrif o £29,000 i gwmpasu'r beichiau gweinyddol ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

### **Amcangyfrif o'r costau yn y pum mlynedd cyntaf ar ôl cychwyn y Ddeddf.**

	£				
	Bl.1	Bl.2	Bl.3	Bl.4	Bl.5
<b>Perchnogion Safleoedd</b>					
Gweinyddu trwyddedau	150,000				
Gwiriadau	95,000	9,500	9,500	9,500	9,500
Monitro		112,500	112,500	112,500	112,500
Apelio	75,000	22,500	22,500	22,500	22,500
<b>Cyfanswm costau gwein.</b>	<b>320,000</b>	<b>144,500</b>	<b>144,500</b>	<b>144,500</b>	<b>144,500</b>
<i>Ffi trwyddedau</i>	<i>760,000</i>	<i>110,000</i>	<i>110,000</i>	<i>110,000</i>	<i>110,000</i>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,080,000</b>	<b>254,500</b>	<b>254,500</b>	<b>254,500</b>	<b>254,500</b>
<b>Awdurdodau trwyddedu</b>					
Cost monitro trwyddedau	762,000	110,000	110,000	110,000	110,000
Costau llys	75,000	22,500	22,500	22,500	22,500
Hyfforddiant/cyhoeddusrwyd	40,000				
<b>Cyfanswm costau gwein.</b>	<b>877,000</b>	<b>132,500</b>	<b>132,500</b>	<b>132,500</b>	<b>132,500</b>
<i>Incwm trwyddedau</i>	<i>-760,000</i>	<i>-110,000</i>	<i>-110,000</i>	<i>-110,000</i>	<i>-110,000</i>
<b>Cyfanswm</b>	<b>157,000</b>	<b>22,500</b>	<b>22,500</b>	<b>22,500</b>	<b>22,500</b>
<b>Llywodraeth Cymru</b>	<b>29,000</b>				
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,266,000</b>	<b>277,000</b>	<b>277,000</b>	<b>277,000</b>	<b>277,000</b>

1 Amcangyfrif dangosol yn seiliedig ar amcangyfrifon a bennwyd mewn adran flaenorol ynghylch 'Costio a Monitro Safleoedd'.

2 Caiff y ffigurau hyn eu disodli gan ffigurau cywirach gan Lywodraeth Cymru. Bydd amseriad y costau yn dibynnu ar gyflymder y gweithredu.

Sylwer: Rhagwelir y gellir hawlio costau llys yn ôl mewn achosion llwyddiannus, felly bydd y costau llys gwirioneddol ar awdurdodau lleol a pherchnogion safleoedd yn is.

Sylwer: Mae awdurdodau lleol eisoes yn monitro safleoedd carafannau gwyliau, felly ni fydd rhai o'r costau parhaus hyn yn gostau newydd.

Sylwer: Amcangyfrifodd Asesiad o Effaith Economaidd Parciau Gwyliau Cymru 2011 fod cyfanswm yr allbwn/trosiant ar y safle yn £328 miliwn.

## ***Buddiannau***

228. Mae'n anodd mesur gwerth ariannol y buddiannau:

- Mae'r system gyfreithiol bresennol yn gymhleth. Mae'r dirwyon ar hyn o bryd yn isel, ac nid oes modd codi ffioedd am drwyddedau safle. Nid yw hynny'n ei gwneud yn gosteffeithiol i awdurdodau lleol fonitro a gorfodi'r ddeddfwriaeth yn effeithiol.
- Mae'r system orfodi bresennol yn feichus, ac felly byddai'r system newydd yn debygol o sicrhau arbedion i awdurdodau lleol o ran y costau gorfodi presennol.
- Diben y system arfaethedig yw rhoi pwerau a chyllid i awdurdodau lleol fel y gallant oruchwyllo'r diwydiant yn effeithiol, drwy godi ffioedd am drwyddedau, incwm o gosbau penodedig, ac unrhyw gostau gorfodi a adenillir. Bydd hyn yn gwella safonau ar safleoedd sy'n cael eu gweithredu'n wael.

229. Pan fo pobl yn defnyddio carafannau gwyliau fel eu prif gartref, maent yn debygol o fod yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Drwy gymharu codau post safleoedd carafannau gwyliau (dim ond lle'r oedd gan safle god post unigryw a dim unedau preswyl) gyda data am y rhai a gofrestrodd gyda meddygon teulu daeth i'r amlwg bod 82 o breswylwyr ar sampl o 12 safle yng Nghonwy wedi cofrestru'n barahol gyda meddyg teulu drwy ddefnyddio cyfeiriad eu carafán wyliau. Nid yw hynny'n cynnwys pobl a gofrestrodd dros dro. Er mai tameidiog oedd y dystiolaeth a gafwyd gan awdurdodau lleol, mae'n edrych yn debyg bod o leiaf 400 o aelwydydd yn talu'r dreth gyngor am lety ar safleoedd carafannau gwyliau, a bod dros 60 yn hawlio budd-dal tai. Mae'n bosibl bod rhagor o aelwydydd yn defnyddio safleoedd carafannau gwyliau fel eu prif gartref, ac yn talu dim mewn treth gyngor.

230. Mae problemau troseddu, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, hefyd yn gysylltiedig â safleoedd carafannau

gwyliau. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau bod 83 o bobl yn y 12 mis diwethaf, a oedd â chyfeiriad ar safle carafannau, wedi'u harestio am drosedd neu wedi'u henwi o fod dan amheuaeth o gyflawni trosedd. Mae'r heddlu o'r farn y bydd rheoleiddio safleoedd carafannau gwyliau yn lleihau nifer yr achosion hyn o droseddu, er nad yw'n hawdd mesur yr effaith. Nid ydym wedi ceisio mesur effaith ariannol hyn.

231. Bydd manteision i'r diwydiant carafannau gwyliau yn sgil y Bil oherwydd bydd yn sicrhau na fydd proffidioldeb yn y dyfodol yn dioddef gan y niwed a achosir i enw'r da'r diwydiant carafannau gwyliau oherwydd bod safonau'n gostwng ar ddyrnaid o safleoedd lle mae defnydd preswyl yn broblem gynyddol. Hefyd, bydd mwy o reoleiddio yn rhoi mwy o hyder i fenthycwyr a'r rhai sy'n buddsoddi yn y diwydiant.

## **Canlyniadau anfwriadol**

232. Mae rhai pobl yn byw mewn carafannau gwyliau am nad oes ganddynt lety arall. O ganlyniad i'r Bil hwn, bydd angen iddynt ddod o hyd i lety arall. Bydd modd i lawer o'r meddianwyr hyn wneud trefniadau amgen ar gyfer eu llety heb gymorth gan yr awdurdod lleol.

233. Mae'n anodd iawn nodi'n gywir nifer y bobl sy'n byw mewn carafannau gwyliau ar hyn o bryd ac am ba hyd y maent yn gwneud hynny. Mae'r gwaith ymchwil a gafodd ei wneud wrth lunio'r Bil hwn wedi dangos bod dros 60 o bobl yn hawlio Budd-dal Tai ar gyfer carafannau gwyliau. Mae'n bosibl y bydd y grŵp hwn o feddianwyr yn cyflwyno'u hunain i'r awdurdod lleol fel pobl ddigartref pan fydd rhaid iddynt adael eu carafán wyliau. Bydd y cynigion yn y Bil Tai (Cymru), os cânt eu gweithredu, yn rhoi'r hawl i'r meddianwyr hynny gael cymorth gan yr awdurdod lleol i atal digartrefedd, a fydd yn cynnwys cymorth i gael llety amgen.

234. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, byddai Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 yn rhoi'r hawl i'r meddiannydd (a'i deulu) gael cyngor a chymorth, a gall fod ganddo'r hawl i gael cymorth ychwanegol os ydyw mewn grŵp angen blaenoriaethol. Pan fo person wedi symud yn fwriadol i fyw'n barhaol mewn carafán wyliau, mae'n bosibl y bydd yn cael ei ystyried yn fwriadol ddigartref. Bydd yn costio rhywfaint i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, ni ddylai

fod yn gost barhaus, oherwydd dylai'r Bil atal pobl rhag mynd i fyw'n barhaol mewn carafannau gwyliau yn y dyfodol.

235. Ar ôl cychwyn y Ddeddf, caniateir tri mis i basio'r prawf preswyllo. Dylai hyn roi cyfle i bobl sy'n byw ar safleoedd carafannau gwyliau ddod o hyd i lety amgen. Felly, i bob golwg, ni ddylai nifer fawr o bobl fod yn ddigartref o ganlyniad i'r Bil yn unig.
236. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil Tai yn nodi, mewn perthynas â digartrefedd, mai'r gost gyfartalog fesul achos lle mae angen darparu llety dros dro yw rhyw £1,082.
237. Hefyd, bydd rhywfaint o orgyffwrdd o ran y rheoliadau trwyddedu a'r amodau cynllunio, a bydd angen i awdurdodau sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu cydgysylltu o ran y camau a gymerir.
238. O ran yr effaith ar y diwydiant, mae'r costau ychwanegol i berchnogion safleoedd, fesul llain, yn fach, felly ni ddylai'r rhain gael effaith sylweddol ar broffidioldeb safleoedd nac ar y ffioedd a godir ar berchnogion carafannau gwyliau. Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod unrhyw system o godi ffioedd yn gymesur, a'i bod yn cymryd i ystyriaeth y ffaith mai un garafán sefydlog sydd ar tua un o bob chwech o safleoedd carafannau gwyliau, a bod gan 40% o safleoedd ddeg garafán neu lai. Mae hefyd yn bwysig pwysu a mesur y costau gyda'r buddiannau i'r diwydiant trwy wella'r modd y rheolir safleoedd carafannau gwyliau, a thrwy fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â phobl sy'n byw mewn carafannau gwyliau, a'r buddiannau i'r economi dwristiaeth ehangach.

## **Ystyriaethau cydraddoldeb**

239. Bydd y Bil yn sicrhau, fel rhan o'r broses drwyddedu, y bydd yn ofynnol i bobl sy'n gyfrifol am reoli safleoedd basio prawf person addas a phriodol. Mae'r meini prawf y caiff yr awdurdod lleol eu defnyddio i asesu ymgeisydd yn cynnwys ystyried a yw wedi gwahaniaethu ar sail un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## **Rhan 3: Nodiadau Esboniadol**

### **RHAN 1 - CYFLWYNIAD**

#### **Adran 2 Ystyr “carafán wyliau”**

240. Mae'r adran hon yn esbonio beth a olygir wrth garafán wyliau. Mae'r diffiniad yr un peth â'r diffiniad o “garafán” a “chartref symudol” yn neddfwriaeth arall y DU. Felly, nid yw'r gair “gwyliau” yn ychwanegu dim byd newydd yn y cyd-destun hwn.

#### **Adran 3 Ystyr “safle carafannau gwyliau”**

241. Mae arwyddocâd i'r gair “gwyliau” yma. Mae'r Ddeddf yn gymwys i dir ag arno garafannau gwyliau: (a) lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi at ddibenion gwyliau yn unig, neu (b) lle mae'r tir yn cael ei gynnig (neu wedi'i fwriadu i gael ei gynnig) i'w ddefnyddio fel llety gwyliau.
242. Mae'n dibynnu, ym mhob achos, ar ddyluniad y tir a'r cyfleusterau sydd yno a fwriedir i dir gael ei ddefnyddio fel llety gwyliau ai peidio.
243. Mae Atodlen 1 yn darparu rhestr o safleoedd nad ydynt yn safleoedd carafannau gwyliau. Golyga hyn na fydd angen trwydded safle o dan y Ddeddf ar y safleoedd yn Atodlen 1.

#### **Adran 4 Ystyr “safle carafannau gwyliau awdurdod lleol”**

244. Mae'r adran hon yn cyflwyno amrywiad o ran safle carafannau gwyliau sy'n berchen i awdurdod lleol. Mae ei hangen am fod adran 7 yn datgan nad oes angen trwydded safle ar safleoedd o'r fath o dan Ran 2 o'r Ddeddf.
245. Fodd bynnag, er nad yw safleoedd carafannau gwyliau yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn drwyddedu yn Rhan 2, mae safleoedd o'r fath yn ddarostyngedig i'r gofynion yn Rhan 3 (y prawf preswyllo), Rhan 4 (cytundebau carafannau gwyliau), a Rhan 5 (amddiffyn rhag aflonyddu).

#### **Adran 5 Ystyr “perchennog” a “meddiannydd”**



246. Mae'r adran hon yn nodi diffiniadau pwysig o'r hyn y mae "perchennog" a "meddiannydd" yn ei olygu.
247. Yn y Ddeddf hon, ystyr "perchennog" yw perchennog y safle carafannau gwyliau.
248. Yn y Ddeddf hon, mae "meddiannydd" yn cynnwys (a) perchnogion carafannau gwyliau sy'n gwneud cytundeb carafán wyliau gyda perchennog y safle am fwy na chwe wythnos olynol, a (b) personau sydd â hawl i feddiannu carafán wyliau am fwy na chwe wythnos olynol.
249. Mae'r cyfnod o chwe wythnos yn bwysig. Mae'n golygu y bydd pobl sy'n defnyddio safleoedd carafannau gwyliau am fwy na chwe wythnos olynol yn destun prawf preswyllo (gweler Rhan 3). Golyga hyn y bydd rhaid iddynt brofi nad ydynt yn defnyddio'r garafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa.
250. Mae adran 44(2) yn darparu na fydd personau penodol yn feddianwyr at ddibenion Rhan 3. Golyga hyn na fydd angen i'r personau canlynol basio'r prawf preswyllo:
- perchennog y safle
  - rheolwr y safle
  - person a gyflogir i weithio ar y safle os yw'n angenrheidiol iddo fyw ar y safle oherwydd ei waith.
251. Caiff llawer o feddianwyr eu hamddiffyn o dan Ran 4 o'r Ddeddf. Golyga hyn y bydd rhaid iddynt wneud cytundebau carafannau gwyliau gyda perchnogion safleoedd. Mae Rhan 4 yn egluro i ba feddianwyr y mae cytundebau o'r fath yn gymwys.
252. Ni fydd y rhai sy'n defnyddio safleoedd carafannau gwyliau am lai na chwe wythnos olynol yn destun Rhan 3 (y prawf preswyllo) na Rhan 4 (cytundebau carafannau gwyliau) o'r Ddeddf. Fodd bynnag, cânt eu hamddiffyn rhag aflonyddu o dan Ran 5 o'r Ddeddf.

## **RHAN 2 – TRWYDDEDU**

### **Adran 7 Gwahardd defnyddio tir fel safle carafannau gwyliau heb drwydded safle**

253. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 5 o Ddeddf 2013.<sup>24</sup> Mae'n darparu bod defnyddio tir fel safle carafannau gwyliau heb drwydded safle yn drosedd, sy'n agored i ddirwy.

254. Mae'r adran hon hefyd yn darparu nad oes angen trwydded safle ar safleoedd carafannau gwyliau sy'n eiddo i awdurdodau lleol.

### **Adran 8 Gwneud cais am drwydded safle**

255. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 6 o Ddeddf 2013.<sup>25</sup> Mae'n pennu gofynion ar gyfer ceisiadau i awdurdodau lleol am drwyddedau safle. Mae is-adran (2) yn rhoi manylion yr hyn y mae'n rhaid i gais ei gynnwys, ac mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod ceiswyr yn darparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan yr awdurdod lleol.

256. O dan is-adran (4) rhaid i gais gael ei gyflwyno ynghyd â datganiad gan y ceisydd i'r perwyl bod unrhyw un sy'n rheoli'r safle yn berson "addas a phriodol" i reoli'r safle.

257. O dan is-adran (5), caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol bod ffi yn cael ei thalu gyda'r cais (gweler adran 40).

### **Adran 9 Parhau â thrwyddedau Deddf 1960**

258. Mae'r adran hon yn darparu y bydd trwyddedau a ddyroddwyd o dan Ddeddf 1960 yn parhau i fod yn ddilys at ddibenion y Ddeddf hon. Golyga hyn na fydd rhaid i berchnogion safleoedd sydd â thrwydded o dan Ddeddf 1960 ailymgeisio am drwydded o dan y Ddeddf hon.

259. Fodd bynnag, bydd trwyddedau o dan Ddeddf 1960 ond yn parhau'n ddilys os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod rheolwr y safle yn berson addas a phriodol. Rhaid i'r awdurdod lleol gadarnhau hyn cyn pen 12 mis ar ôl i'r adran hon ddod i rym. Mae rhagor o fanylion am y prawf person addas a phriodol yn adrannau 33 a 34.

260. Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol addasu trwydded a ddyroddwyd o dan Ddeddf 1960 fel bod y drwydded yn bodloni gofynion y Ddeddf hon. Yn benodol, rhaid i drwyddedau gynnwys amod bod perchnogion safleoedd yn cynnal prawf preswyl o leiaf unwaith y

---

<sup>24</sup> Mae adran 5 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 3 o Ddeddf 1960.

<sup>25</sup> Mae adran 6 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 3 o Ddeddf 1960.

flwyddyn (mae rhagor o fanylion am y prawf preswyllo yn Rhan 3). Rhaid i'r awdurdod lleol addasu trwyddedau Deddf 1960 cyn pen 12 mis ar ôl i'r adran hon ddod i rym.

### **Adran 10 Dyroddi trwydded safle**

261. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 7 o Ddeddf 2013.<sup>26</sup> Mae'n pennu'r terfynau amser ar gyfer dyroddi trwydded. Yn is-adran (4), os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio â dyroddi trwydded, rhaid iddo hysbysu'r ymgeisydd o'r rhesymau dros y penderfyniad ac o hawl yr ymgeisydd i apelio i lys ynadon.
262. Rhaid i awdurdod lleol beidio â dyroddi trwydded i berson os yw ei drwydded safle wedi'i dirymu lai na thair blynedd cyn yr adeg y byddai trwydded wedi'i dyroddi.

### **Adran 11 Parhad trwyddedau safle**

263. Mae'r adran hon yn darparu y bydd trwyddedau safle yn parhau am gyfnod amhenodol oni chânt eu terfynu.

### **Adran 12 Pŵer i osod amodau ar drwydded safle**

264. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 9 o Ddeddf 2013.<sup>27</sup> Mae'n caniatáu i awdurdod lleol osod rhai mathau o amodau ar drwydded safle pan ddyroddir hi. Mae'r rhain yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â nifer y carafannau gwyliau a gaiff eu gosod ar safle carafannau gwyliau, rheoleiddio lleoliad carafannau gwyliau, a sicrhau bod mesurau yn eu lle i ddiogelu rhag tân, llifogydd ac erydu arfordirol.
265. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol bod trwydded safle'n cynnwys amod i'r perwyl bod rhaid arddangos copiau o'r drwydded safle a'r dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn man amlwg ar y safle.
266. O dan yr adran hon, caiff awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw waith ar safle carafannau gwyliau yn cael ei gyflawni er boddhad yr awdurdod lleol, ac o fewn terfyn amser penodol. Tra bo

---

<sup>26</sup> Mae adran 7 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 3 o Ddeddf 1960.

<sup>27</sup> Mae adran 9 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 5 o Ddeddf 1960.

gwaith o'r fath yn mynd yn ei flaen, caiff yr awdurdod lleol wahardd neu gyfyngu ar symud carafannau gwyliau i'r safle.

### **Adran 13 Safonau enghreifftiol**

267. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 10 o Ddeddf 2013.<sup>28</sup> Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu, at ddibenion adran 12, safonau enghreifftiol mewn perthynas ag agweddau penodol ar safleoedd carafannau gwyliau.

268. Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r safonau enghreifftiol hyn wrth ystyried gosod amodau ar drwydded safle o dan adran 12.

### **Adran 14 Rhagofalon tân**

269. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 11 o Ddeddf 2013.<sup>29</sup> Mae'n sicrhau bod rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub wrth ystyried pa amodau i'w gosod ar drwydded safle.

### **Adran 15 Rheoli risg llifogydd**

270. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ynghylch risg llifogydd wrth ystyried gosod amodau ar drwydded safle o dan adran 12.

### **Adran 16 Archwiliadau safle ac adolygu trwyddedau**

271. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio safleoedd carafannau gwyliau o leiaf unwaith bob tair blynedd. Diben archwiliadau o'r fath yw cadarnhau bod perchnogion safleoedd yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded safle.

272. Bydd y ddyletswydd i gynnal archwiliadau yn cychwyn pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

273. Hefyd, rhaid i awdurdodau lleol adolygu amodau'r drwydded safle o leiaf bob pum mlynedd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr amodau ar y drwydded yn briodol ar gyfer pob safle.

---

<sup>28</sup> Mae adran 10 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 5 o Ddeddf 1960.

<sup>29</sup> Mae adran 11 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 5 o Ddeddf 1960.

## **Adran 17 Apelio yn erbyn amodau trwydded safle**

274. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 12 o Ddeddf 2013.<sup>30</sup> Mae'n pennu bod hawl gan y ceisydd i apelio i lys ynadon yn erbyn unrhyw amod a osodir ar drwydded safle (ac eithrio amod o dan adran 10(5)). Os bydd y llys ynadon o'r farn bod yr amod yn rhy feichus, caiff amrywio neu ddiddymu'r amod, a chaiff osod amod newydd ar y drwydded safle

## **Adran 18 Pŵer awdurdod lleol i amrywio amodau trwydded safle**

275. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod lleol amrywio'r amodau a osodwyd ar drwydded safle unrhyw bryd, ond cyn arfer y pŵer hwn rhaid i'r awdurdod lleol roi cyfle i ddeiliad y drwydded safle gyflwyno sylwadau.
276. Mae modd amrywio hefyd os yw'r awdurdod lleol yn canfod gwybodaeth newydd neu o'r farn bod amgylchiadau wedi newid.
277. Mae is-adran (4) yn darparu, pan fo deiliad trwydded yn gwneud cais i amrywio'r amodau sydd ynghlwm wrth drwydded safle, y caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol bod ffi yn cael ei hanfon gyda'r cais, sydd i'w phennu gan yr awdurdod lleol, ar yr amod bod yr awdurdod lleol wedi cyhoeddi ei bolisi ar ffioedd (gweler adran 40).

## **Adran 19 Apelio yn erbyn amrywio amodau trwydded safle**

278. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 14 o Ddeddf 2013.<sup>31</sup> Caiff deiliad trwydded apelio i lys ynadon yn erbyn unrhyw newid yn amodau'r drwydded neu unrhyw wrthodiad i amrywio'r amodau, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael yr hysbysiad o'r penderfyniad. Os yw'r amrywiad yn yr amodau yn ymwneud â chwblhau gwaith ar y safle, ni fydd yr amod amrywiedig yn cael effaith hyd nes y bo'r amser a ganiateir ar gyfer gwneud apêl wedi dod i ben, neu unrhyw apêl yn erbyn yr amod wedi ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl.
279. Wrth arfer ei bwerau o dan is-adran (1), rhaid i lys ynadon roi sylw i unrhyw safonau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13.

---

<sup>30</sup> Mae adran 12 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 7 o Ddeddf 1960.

<sup>31</sup> Mae adran 14 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 8 o Ddeddf 1960.

280. Mae is-adran (5) yn egluro, os caiff adran 18(1)(b) ei defnyddio i newid trwydded a roddwyd o dan Ddeddf 1960 fel bod y drwydded yn bodloni gofynion y Ddeddf hon, y caiff perchennog y safle ddefnyddio adran 19 i apelio yn erbyn newid o'r fath.

### **Adran 20 Torri amod**

281. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod lleol, pan fo perchennog tir yn methu neu wedi methu â chydymffurfio ag amod mewn trwydded safle, gyflwyno naill ai hysbysiad cosb benodedig neu hysbysiad cydymffurfio i'r perchennog.

282. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch yr ystyriaethau y dylent roi sylw iddynt wrth benderfynu a ddylid ymdrin â methiant i gydymffurfio ag amod mewn trwydded safle drwy roi hysbysiad cosb benodedig neu hysbysiad cydymffurfio. Rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir.

283. Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei roi, ond heb ei dalu, caiff awdurdod lleol dynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl a dyroddi yn ei le hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r un methiant.

### **Adran 21 Hysbysiad cosb benodedig**

284. Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad cosb benodedig.

285. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff y swm a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol ar gyfer troseddau diannod (uchafswm o £500 ym mis Chwefror 2014).

286. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i egluro pryd y tor-amod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cyflwyno hysbysiad cosb benodedig. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i gyfyngu ar yr amgylchiadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig.

### **Adran 22 Hysbysiadau cydymffurfio**

287. Mae'r adran hon yn ymdrin â thorri amod trwydded safle. Mae'n darparu y caiff awdurdod lleol, os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol

fod perchennog tir yn methu â chydymffurfio ag amod trwydded, gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r perchennog hwnnw, sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn is-adran (1), gan gynnwys y camau y mae'n rhaid i'r perchennog eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r amod yn y drwydded.

288. Mae'r darpariaethau'n rhoi hawl i'r perchennog apelio yn erbyn yr hysbysiad cydymffurfio i lys ynadon. Maent hefyd yn rhoi pŵer i'r awdurdod lleol ddirymu hysbysiad cydymffurfio neu ei amrywio drwy estyn y cyfnod o amser a bennir ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad. Gellir rhoi'r cyfryw estyniad fel ymateb i gais gan berchennog y tir y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo, neu ar ysgogiad yr awdurdod lleol ei hunan.

### **Adran 23 Hysbysiad cydymffurfio: trosedd a cholffarnau lluosog**

289. Mae'r adran hon yn darparu bod perchennog tir, y cyflwynwyd iddo hysbysiad cydymffurfio a ddaeth yn weithredol o dan adran 29, yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig.

290. Mae is-adran (2) yn pennu, pan fo person yn euog o'r drosedd, mai'r gosb yw dirwy. Mae is-adran (3) yn caniatáu amddiffyniad os oedd gan y perchennog esgus rhesymol dros beidio â chymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig.

291. Mae is-adrannau (4) a (5) yn darparu, os oes gan berchennog safle ddwy neu ragor o gollfarnau am dorri hysbysiad cydymffurfio, y caiff awdurdod lleol wneud cais i'r llys (a gollfarnodd y perchennog) am ddirymu trwydded y safle.

### **Adran 24 Hysbysiad cydymffurfio: pŵer i hawlio treuliau**

292. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i hawlio treuliau pan fo hysbysiad cydymffurfio wedi ei gyflwyno o dan adran 22.

293. Pan fo awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio i berchennog tir, caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y perchennog fel modd o adennill treuliau yr aeth yr awdurdod lleol iddynt wrth benderfynu a ddylid cyflwyno'r hysbysiad ac wrth baratoi a chyflwyno'r hysbysiad neu'r hawliad am dreuliau. Gallai'r tâl ymwneud, er enghraifft, â'r gost o gael cyngor cyfreithiol er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad cydymffurfio ai peidio. Mae

is-adran (2) yn egluro nad yw'r treuliau'n gyfyngedig i gyngor arbenigol. Caiff y tâl a godir gynnwys llog (gweler adran 30).

294. Bydd awdurdod lleol yn arfer ei bŵer i adennill treuliau drwy ddyroddi hawliad, sy'n nodi gwybodaeth am y taliadau a bennir yn adran 24(3)(a) i (c), yr un pryd ag y cyflwynir yr hysbysiad cydymffurfio.

295. Pan fo'r llys yn caniatáu apêl yn erbyn yr hysbysiad cydymffurfio gwreiddiol (o dan adran 22) caiff hefyd wneud gorchymyn ynglŷn â'r hawliad am dreuliau a anfonwyd gyda'r hysbysiad, er enghraifft, i gadarnhau neu ddileu'r tâl.

### **Adran 25 Pŵer i gymryd camau ar ôl colfarnu'r perchennog**

296. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo perchennog safle wedi ei gollfarnu am drosedd o beidio â chydymffurfio â'r camau a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio, y caiff yr awdurdod lleol a ddyroddodd yr hysbysiad gymryd y camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad cydymffurfio ac unrhyw gamau pellach a ystyria'n briodol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amod perthnasol.

297. Pan fo awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau o dan yr adran hon, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i berchennog y tir, sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 25(2)(a) i (e).

298. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid cyflwyno'r hysbysiad yn ddigon cynnar cyn yr adeg y bwriedir mynd i mewn i'r safle er mwyn rhoi cyfnod rhesymol o rybudd i'r perchennog. Gan fod adran 37(2) yn ei gwneud yn ofynnol rhoi 24 awr o rybudd i'r perchennog cyn mynnu cael mynediad, 24 awr yw'r cyfnod byrraf o rybudd y caniateir ei roi.

299. Mae is-adran (4) yn darparu, pan fo awdurdod lleol yn awdurdodi person, ac eithrio un o swyddogion yr awdurdod lleol, i weithredu ar ei ran, y caiff y person hwnnw ei drin fel pe bai'n swyddog awdurdodedig o dan adran 37(1). Caiff person o'r fath arfer hawl mynediad i'r tir.

300. Nid yw'r gofyniad i roi 24 awr o rybudd yn adran 37(2) yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â'r diwrnod pan fo'r awdurdod lleol yn bwriadu dechrau cymryd y camau ar y tir. Mae hyn yn golygu, os yw'r awdurdod yn bwriadu gwneud gwaith ar y tir a fydd yn



cymryd mwy na diwrnod i'w gwblhau, na fydd angen rhoi 24 awr o rybudd cyn pob diwrnod y bwriedir mynd i mewn i'r safle.

## **Adran 26 Pŵer i gymryd camau brys**

301. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i awdurdod lleol gymryd camau brys mewn rhai amgylchiadau.
302. Mae is-adran (2) yn pennu y caiff awdurdod lleol gymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol i ddileu risg sydd ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson sydd, neu a all fod, ar y tir. O dan is-adrannau (3) i (5), pan fo awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau brys o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig i'r perchennog. Caiff yr hysbysiad hwnnw ddatgan hefyd y byddai'r awdurdod lleol yn gwneud cais am warant o dan adran 37(3) pe gwrthodid mynediad i'r tir. Rhaid cyflwyno'r hysbysiad yn ddigon cynnar cyn yr adeg y bwriedir cael mynediad, er mwyn rhoi rhybudd digonol i berchennog y tir.
303. Mae is-adran (6) yn darparu, pan fo awdurdod lleol yn awdurdodi person ac eithrio un o swyddogion yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, y caiff y person hwnnw ei drin fel pe bai'n swyddog awdurdodedig o dan adran 37(1) o'r Ddeddf.
304. Mae is-adran (7) yn pennu nad yw'r gofyniad yn adran 32(1) i arfer yr hawl mynediad "ar bob adeg resymol" yn gymwys, oherwydd gallai hynny fod yn amhriodol mewn sefyllfa o argyfwng. Nid yw'r gofyniad i roi 24 awr o rybudd o'r bwriad i fynd i mewn yn gymwys yma ychwaith. Mae is-adran (8) yn pennu bod rhaid i'r awdurdod lleol, o fewn saith niwrnod ar ôl dechrau cymryd camau brys, gyflwyno hysbysiad pellach i'r perchennog, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodedig, gan gynnwys y rhesymau dros gymryd y camau ac esboniad am yr hawl i apelio.
305. Darperir i'r perchennog yr hawl i apelio i lys ynadon yn erbyn y camau brys, naill ai ar y sail nad oedd risg ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch person a oedd, neu a allai fod, ar y tir, neu nad oedd (neu nad yw) y camau gan yr awdurdod lleol yn angenrheidiol er mwyn dileu risg o'r fath.

## **Adran 27 Camau o dan adran 25 neu 26: pŵer i hawlio treuliau**

306. Mae'r adran hon yn rhoi i awdurdod lleol y pŵer i hawlio treuliau os cymerwyd camau o dan adran 25 neu 26.
307. Mae is-adran (1) yn darparu, pan fo awdurdod lleol wedi cymryd camau o dan adran 25 neu 26, y caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar berchennog y tir fel modd o adennill treuliau yr aeth iddynt wrth gymryd y camau a bennir ym mharagraffau (a) i (c).
308. Yn is-adrannau (4) a (5) pennir o fewn pa gyfnod o amser y ceir codi tâl am y costau yr aethpwyd iddynt wrth gymryd camau brys, sy'n dibynnu a ddygir apêl ai peidio.
309. Mae is-adran (6) yn pennu bod y pŵer i godi tâl yn arferadwy drwy gyflwyno i'r perchennog hawliad am y treuliau y mae'r awdurdod lleol yn ceisio'u hadennill, o fewn y cyfnod o amser a bennir yn is-adran (8).
310. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff perchennog tir, y cyflwynir hawliad iddo o dan yr adran hon, apelio i lys ynadon yn erbyn yr hawliad hwnnw.

## **Adran 28 Apelio o dan adran 22, 26 neu 27**

311. Mae'r adran hon yn ymdrin ag apelau a ddygir o dan adrannau 22, 26 neu 27.
312. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid gwneud unrhyw apêl a ddygir o dan yr adrannau hyn cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod, sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cyflwynwyd y ddogfen berthnasol (gweler is-adran (2)).
313. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff llys ynadon ganiatáu gwneud apêl ar ôl diwedd y cyfnod apelio, os bodlonwyd y llys fod rheswm da dros yr oedi.
314. Bydd apêl a ddygir o dan yr adrannau hyn yn cael ei gynnal ar ffurf ail wrandawriad gan y llys ynadon. Caiff ystyried materion na wyddai'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad ddim amdanynt. Mae is-adran (5) yn pennu'r pwerau sydd gan y tribiwnlys i wneud gorchmynion i gadarnhau, amrywio neu ddiddymu'r mater sydd dan ystyriaeth.

## **Adran 29 Pryd y daw hysbysiad cydymffurfio neu hawliad treuliau yn weithredol**

315. Mae'r adran hon yn pennu'r adeg y daw hysbysiad cydymffurfio neu hawliad treuliau yn weithredol.
316. O dan is-adran (2) os na ddygir apêl yn erbyn hysbysiad cydymffurfio o fewn y cyfnod apelio a bennir yn adran 22, bydd yr hysbysiad ac unrhyw hawliad treuliau o dan adran 24 a anfonwyd gyda'r hysbysiad ill dau'n dod yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
317. Mae hawliad am dreuliau o dan adran 27 yn dod yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer apêl, os na wneir apêl yn erbyn yr hawliad (gweler adran 24(3)).
318. Mae is-adrannau (4) i (6) yn ymdrin ag achosion pan ddygir apêl, ac yn pennu bod hysbysiad cydymffurfio (ac unrhyw hawliad o dan adran 24 a anfonir gydag ef) neu hawliad o dan adran 27 yn dod yn weithredol pan roddir penderfyniad ar yr apêl sy'n cadarnhau'r hysbysiad neu'r hawliad.

## **Adran 30 Adennill treuliau a hawlir o dan adran 24 neu 27**

319. Mae'r adran hon yn ymdrin ag adennill treuliau a hawlir o dan adran 24 neu 27.
320. Mae is-adran (1) yn darparu, o'r adeg y daw hawliad o dan adran 24 neu 27 yn weithredol, y codir llog ar y treuliau a bennir yn yr hawliad, ar gyfradd a bennir gan yr awdurdod lleol, hyd nes y bo'r holl symiau sy'n ddyledus o dan yr hawliad wedi eu hadennill.
321. Mae is-adran (2) yn darparu, o'r adeg y daw'r hawliad yn weithredol, y bydd y treuliau a'r llog yn arwystl ar y tir y mae'r hysbysiad cydymffurfio yn ymwneud ag ef hyd nes y bo'r treuliau a'r llog wedi eu hadennill.
322. Mae is-adran (3) yn pennu bod yr arwystl yn cael effaith fel arwystl cyfreithiol sydd yn bridiant tir lleol.
323. Mae is-adran (4) yn pennu y caiff yr awdurdod lleol ddibynnu ar bwerau a rhwymedïau penodol a bennir yn Neddf Cyfraith Eiddo 1925

i orfodi'r arwystl, gan gynnwys penodi derbynnydd. Mae is-adran (5) yn pennu pa bryd y ceir arfer y pŵer i benodi derbynnydd.

### **Adran 31 Trosglwyddo trwyddedau safle, a'u trosglwyddo ar farwolaeth**

324. Mae'r adran hon yn darparu y caiff deiliad trwydded safle nad yw bellach yn berchen ar y tir, drosglwyddo'r drwydded i'r perchennog newydd, yn ddarostyngedig i gydsyniad yr awdurdod lleol. Yna rhaid rhoi enw'r perchennog newydd ar y drwydded.
325. Bydd person sy'n etifeddu tir sy'n safle carafannau gwyliau yn dod yn ddeiliad y drwydded safle. Yna rhaid rhoi enw'r deiliad newydd ar y drwydded.

### **Adran 32 Dyletswydd deiliad trwydded i ganiatáu i drwydded safle gael ei newid**

326. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 27 o Ddeddf 2013.<sup>32</sup> Mae'n cynnwys dyletswydd ar y deiliad trwydded i ildio'r drwydded er mwyn cynnwys newid ynddi, pan ofynnir iddo wneud hynny gan yr awdurdod lleol a ddyroddodd y drwydded. Os methir â chydymffurfio â chais o dan yr adran hon heb esgus rhesymol, bydd deiliad y drwydded yn cyflawni trosedd a allai fod yn agored i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol (uchafswm o £200 ym mis Chwefror 2014).

### **Adran 33 Gofyniad bod rhaid i reolwr safle fod yn berson addas a phriodol**

327. Mae'r adran hon yn cyflwyno gofyniad newydd o fod yn "berson addas a phriodol", sy'n gymwys i berson sy'n rheoli safle carafannau gwyliau. Mae is-adran (1) yn pennu na chaiff perchennog tir ganiatáu i unrhyw ran o'r tir gael ei ddefnyddio fel safle carafannau gwyliau oni fodlonir yr awdurdod lleol fod y perchennog (neu berson a benodir gan y perchennog i reoli'r safle) yn berson addas a phriodol i reoli'r safle.
328. Mae is-adran (2) yn darparu, pan fo perchennog tir yn caniatáu defnyddio safle yn groes i is-adran (1) heb berson addas a phriodol yn rheoli'r safle, y caiff yr awdurdod lleol wneud cais i lys ynadon am orchymyn yn dirymu trwydded y safle. Mae is-adrannau (3) a (4) yn

---

<sup>32</sup> Mae adran 27 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 11 o Ddeddf 1960.

darparu bod tramgwydd o'r fath yn drosedd a allai, yn dilyn collfarn ddiannod, fod yn agored i ddirwy.

329. O dan is-adran (5), pan fo perchennog wedi ei gael yn euog o drosedd o dan is-adran (3) gan lys ynadon mewn perthynas â'r tir ar ddau neu ragor o achlysuron blaenorol, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys ynadon am orchymyn yn dirymu trwydded y safle.
330. Ymdrinnir â'r cwestiwn pwy yw rheolwr safle yn is-adrannau (2) a (6). O dan is-adran (2) bydd rheolwr safle yn cynnwys y person â'r cyfrifoldeb uchaf am reoli'r safle, ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb am reoli'r safle o ddydd i ddydd.
331. Mae is-adran (6) yn darparu bod y cyfeiriad yn is-adran (2) at bersonau sy'n rheoli safle yn cynnwys cyfeiriad at bersonau sy'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli safle.

#### **Adran 34 Penderfynu a yw person yn addas a phriodol**

332. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, wrth benderfynu a yw person yn "addas a phriodol" i reoli safle carafannau gwyliau, roi sylw i'r holl faterion a ystyria'n briodol, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth o'r mathau a restrir yn is-adran (3) neu (4). Er enghraifft, o dan is-adran (3), dylai awdurdod lleol ystyried a yw'r person wedi torri unrhyw ddarpariaeth o'r gyfraith mewn perthynas â safonau masnach.
333. O dan is-adran (4) rhaid i awdurdod lleol ystyried dystiolaeth bod unrhyw un sydd, neu a fu gynt yn gysylltiedig â'r person, wedi gwneud unrhyw un o'r pethau a bennir yn is-adran (3), ac a yw'r dystiolaeth honno'n berthnasol i'r cwestiwn a yw'r person yn addas a phriodol i reoli'r safle carafannau gwyliau.
334. Mae is-adran (5) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio adran 34 er mwyn amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddi wrth wneud penderfyniad o dan yr adran hon.
335. Os yw awdurdod lleol yn penderfynu nad yw person yn berson addas a phriodol, rhaid iddo hysbysu'r person o'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw ac o hawl y person i apelio i lys ynadon o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad.

## **Adran 35 Penodi rheolwr interim**

336. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdod lleol benodi rheolwr interim ar gyfer safle carafannau gwyliau os bodlonir yr amodau yn is-adran (2). Yr amodau yw fod yr awdurdod lleol o'r farn bod deiliad trwydded y safle yn methu neu wedi methu, yn ddifrifol neu nifer o weithiau, i gydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth drwydded y safle; nad yw'r safle'n cael ei reoli gan berson addas a phriodol; neu nad oes unrhyw un yn rheoli'r safle.
337. O dan is-adran (3) os tramgwyddir person gan benderfyniad i benodi rheolwr interim, mae hawl i apelio i lys ynadon yn erbyn y penderfyniad o fewn 28 diwrnod.
338. Ni phenodir rheolwr interim am gyfnod amhenodol. Fel y pennir yn adran 35(4) daw'r penodiad i ben ar ddyddiad penodedig neu pan gaiff ei derfynu. Mae is-adran (5) yn caniatáu penodi rheolwr interim newydd pe bai rhywun yn gadael y swydd cyn y dyddiad penodedig.

## **Adran 36 Telerau penodi a phwerau rheolwr interim**

339. Mae'r adran hon yn pennu telerau penodi rheolwr interim, ynghyd â phwerau'r rheolwr interim, a restrir o dan is-adran (2)(a) a (b). O dan is-adrannau (3) a (4) caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i'r rheolwr interim, a chaiff dynnu'n ôl neu ddiwygio'r cyfarwyddiadau a roddir. O dan is-adran (5), ceir tynnu tâl a threuliau rheolwr interim allan o unrhyw incwm y mae hawl gan ddeiliad y drwydded safle i'w gael; ac os yw'r incwm hwnnw'n annigonol, rhaid i unrhyw falans gael ei dalu gan yr awdurdod lleol. Os telir unrhyw swm gan yr awdurdod lleol o dan is-adran (5), caiff yr awdurdod lleol adennill y swm hwnnw oddi ar ddeiliad y drwydded safle.

## **Adran 37 Pŵer mynediad swyddogion awdurdodau lleol**

340. Mae'r adran hon yn adlewyrchu adran 32 o Ddeddf 2013.<sup>33</sup> Mae'n darparu pwerau i swyddog neu asiant awdurdodedig yr awdurdod lleol i fynd i mewn i safle carafannau gwyliau ar bob adeg resymol, os oes sail resymol dros fynd i mewn. Rhaid iddo ddangos dogfen awdurdod a ddilyswyd yn briodol (os gofynnir iddo wneud

---

<sup>33</sup> Mae adran 32 o Ddeddf 2013 yn seiliedig ar adran 26 o Ddeddf 1960, gyda chosb gynyddol.

hynny) a mynnu cael mynediad at y dibenion a amlinellir yn is-adran (1) (a) i (d).

341. Ni chaniateir mynediad i'r safle oni fydd y perchennog wedi cael 24 awr o rybudd, ac eithrio o dan adran 26(7) mewn perthynas â champau brys.
342. Caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi mynediad i'r tir gan yr awdurdod lleol, gan ddefnyddio grym pe bai angen. Bydd hyn yn digwydd os daw ynad i'r casgliad, ymhlith rhesymau eraill, fod mynediad i'r tir wedi ei wrthod, neu fod y perchennog yn absennol dros dro a bod achos dros fynd i mewn ar frys. Fodd bynnag, ni all ynad heddwch ddyroddi gwarant i gael mynediad i fangre drwy ddefnyddio grym os caiff y mangre ei ddefnyddio'n gyfan gwbl fel preswylfa breifat. Hefyd, ni ellir dyroddi gwarant i fynd i mewn i garafán wyliau.
343. Y gosb am rwystro mynediad yn fwriadol i unrhyw berson sy'n arfer pŵer mynediad, neu sydd â hawl i fynd ar dir drwy warant, yw dirwy heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ym mis Chwefror 2014).

### **Adran 38 Gorchymynion ad-dalu**

344. Mae'r adran hon yn darparu, yn achos safle sydd heb ei drwyddedu, y caiff meddiannydd carafán wyliau wneud cais i lys ynadon am orchymyn ad-dalu.
345. Yn is-adran (5) diffinnir gorchymyn ad-dalu fel gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol bod perchennog neu reolwr y safle di-drwydded yn talu i feddiannydd y garafán wyliau y symiau a bennir yn y gorchymyn, mewn perthynas â'r taliadau a nodir o dan baragraffau (a) i (d). Caiff y gorchymyn ad-dalu gynnwys unrhyw daliad a wnaed gan y meddiannydd i'r perchennog neu'r rheolwr mewn perthynas â phrynu'r garafán wyliau, unrhyw gomisiwn a dalwyd mewn perthynas â gwerthu'r garafán wyliau, y ffi am y llain ac unrhyw daliadau cyfnodol mewn perthynas â'r garafán wyliau.
346. O dan is-adran (6)(a) i (c) rhaid i lys fodloni ei hunan ynglŷn â rhai materion, megis bod perchennog y safle wedi ei gollfarnu am drosedd o dan adran 7 mewn perthynas â'r safle, bod meddiannydd wedi gwneud taliad i'r perchennog yn ystod yr amser y cyflawnwyd y

drosedd a bod y cais wedi ei wneud o fewn 12 mis ar ôl dyddiad y gollfarn.

347. O dan is-adran (7), y swm y mae'n ofynnol ei dalu o dan is-adran (5) yw'r swm a ystyrir yn rhesymol gan y llys yn yr amgylchiadau. Mae is-adran (8) yn pennu'r materion y mae'n rhaid i'r llys eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar y swm sydd i'w dalu. Mae is-adran (9) yn darparu na chaiff gorchymyn ad-dalu gynnwys unrhyw swm sy'n ymwneud â chyfnod y tu allan i'r 12 mis sy'n diweddu gyda dyddiad cais y meddiannydd.
348. O dan is-adran (10), mae symiau sy'n daladwy i feddiannydd carafán wyliau o dan orchymyn ad-dalu yn adenilladwy fel dyled sy'n ddyledus i'r meddiannydd gan berchennog neu reolwr y safle.
349. Mae is-adran (1) yn egluro bod yr adran hon yn gymwys i feddianwyr sy'n gwneud cytundeb carafán wyliau gyda pherchennog y safle o dan Ran 4. Mae is-adran (12) yn ychwanegu nad yw'r adran hon yn gymwys i safleoedd carafannau gwyliau awdurdodau lleol.

### **Adran 39 Ffioedd blynyddol**

350. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwydded dalu ffi flynyddol. Bydd y ffi flynyddol yn adlewyrchu'r costau y bydd yr awdurdod lleol yn mynd iddynt wrth gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddf hon, fel archwilio safleoedd, adolygu trwyddedau a monitro'r prawf preswyllo. Rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i ddeiliad y drwydded am y materion sy'n dylanwadu ar swm y ffi.
351. Os yw'r ffi flynyddol yn hwyr yn cael ei thalu, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i lys ynadon am orchymyn i orfodi'r ffi flynyddol i gael ei thalu. Os na fydd deiliad y drwydded yn talu cyn pen tri mis o'r gorchymyn llys, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys am orchymyn yn dirymu'r drwydded safle.

### **Adran 40 Pwerau i godi ffioedd: atodol**

352. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ffioedd o dan adran 8 (gwneud cais am drwydded safle), adran 18 (amrywio amodau trwydded safle) neu adran 39 (ffioedd blynyddol).



353. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn paratoi a chyhoeddi polisi cyn codi ffi. Mae is-adrannau (3) a (4) yn nodi'r hyn y mae angen i awdurdod lleol ei wneud wrth bennu ffioedd, a pha gostau na chânt eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu ffi. Yn benodol, ni chaiff awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth unrhyw gostau gorfodi yr aeth iddynt o dan adrannau 20 i 30. Gall y costau gorfodi hyn gael eu hadennill ar wahân ac yn uniongyrchol oddi wrth y perchennog safle perthnasol (gweler adrannau 24, 27 a 30).

#### **Adran 41 Cofrestrau trwyddedau safle**

354. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn cadw cofrestr o drwyddedau safle sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

#### **Adran 42 - Tir y Goron**

355. Mae'r adran hon yn darparu nad yw Rhan 2 o'r Ddeddf yn gymwys i dir y Goron.

### **RHAN 3 Y PRAWF PRESWYLIO**

#### **Adran 44 Gwahardd meddiannu carafán wyliau fel prif breswylfa**

356. Mae'r adran hon yn nodi gwaharddiad cyffredinol ar ddefnyddio carafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i'r canlynol:

- perchennog y safle
- rheolwr y safle
- person a gyflogir i weithio ar y safle os yw'n angenrheidiol iddo fyw ar y safle oherwydd ei waith.

#### **Adran 45 Prawf preswyllo**

357. Rhaid i awdurdodau lleol gynnwys amod yn y drwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog safle gynnal prawf preswyllo. Diben y prawf yw canfod a yw meddianwyr yn defnyddio carafannau gwyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa.

358. O dan is-adran (2), bydd yn ofynnol i feddianwyr carafannau gwyliau ddangos tystiolaeth bod eu hunig breswylfa neu eu prif

breswylfa mewn man arall. Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys o leiaf ddwy o'r dogfennau yn Atodlen 2.

359. Os bydd meddiannydd yn methu'r prawf preswyllo, rhaid i berchennog y safle hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd.

360. Rhaid i berchennog y safle gadw'r dystiolaeth a ddarparwyd o dan is-adran (2) er mwyn gallu ei dangos i'r awdurdod lleol ar bob adeg resymol. Rhaid i'r awdurdod lleol archwilio'r dystiolaeth honno o leiaf unwaith y flwyddyn.

#### **Adran 46 Amseriad y prawf preswyllo cyntaf**

361. Pan fydd perchennog safle yn gwneud cytundeb gyda meddiannydd, rhaid cymhwyso'r prawf preswyllo cyntaf cyn i'r cytundeb gael ei wneud.

362. Fodd bynnag, os yw person yn meddiannu safle carafannau gwyliau ar y dyddiad y daw'r Rhan hon i rym, rhaid i berchennog y safle gynnal y prawf preswyllo o fewn tri mis i'r dyddiad hwnnw.

#### **Adran 47 Amseriad profion preswyllo dilynol**

363. Rhaid cynnal profion preswyllo pellach ar bob meddiannydd o leiaf unwaith y flwyddyn.

#### **Adran 48 Newid yn amgylchiadau meddiannydd**

364. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau meddianwyr yn newid ar ôl iddynt basio eu prawf preswyllo diwethaf, a gallai hynny olygu eu bod yn defnyddio'r garafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa. Mae'r adran hon yn caniatáu cyfnod o hyd at chwe wythnos i feddianwyr cyn y bydd rhaid iddynt basio'r prawf preswyllo eto.

365. Mae adran 56(3) hefyd yn darparu bod rhaid i feddiannydd carafán wyliau roi gwybod i berchennog y safle os bu newid yn ei amgylchiadau. Mae hwn yn rhan o'r cytundeb carafannau gwyliau rhwng perchennog y safle a'r meddiannydd.

#### **Adran 49 Methu'r prawf preswyllo**

366. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog safle hysbysu'r awdurdod lleol os yw'n credu bod meddiannydd wedi methu'r prawf preswyllo.

367. O dan is-adran (2), os bydd awdurdod lleol yn credu bod meddiannydd wedi methu'r prawf preswyllo (boed hynny drwy hysbysiad o dan is-adran (1) neu ar symbyliad yr awdurdod lleol), rhaid iddo roi hysbysiad methu prawf preswyllo i'r meddiannydd. Hefyd, caiff yr awdurdod lleol roi hysbysiad cosb benodedig i'r meddiannydd.

### **Adran 50 Hysbysiad methu prawf preswyllo**

368. Bydd hysbysiad methu prawf preswyllo yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn adran 50(1)(a) i (c), gan gynnwys y gofyniad i'r meddiannydd roi'r gorau i ddefnyddio'r garafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa o fewn cyfnod penodol.

369. Mae'r darpariaethau'n rhoi hawl i'r perchennog apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad methu prawf preswyllo. Maent hefyd yn rhoi pŵer i'r awdurdod lleol ddirymu hysbysiad cydymffurfio neu ei amrywio drwy estyn y cyfnod o amser a bennir ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad. Gellir rhoi'r cyfryw estyniad fel ymateb i gais gan berchennog y tir y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo, neu ar ysgogiad yr awdurdod lleol ei hunan.

### **Adran 51 Hysbysiad cosb benodedig am fethu prawf preswyllo**

370. Mae darpariaethau adran 21(1), (2) a (3) yn gymwys yn yr un modd i hysbysiad cosb benodedig a roddir o dan adran 49(2)(b). Golyga hyn na chaiff y swm a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol (£500 ym mis Chwefror 2014).

### **Adran 52 Methiant i gydymffurfio â hysbysiad methu prawf preswyllo**

371. Mae'n drosedd i fethu â chydymffurfio â gofynion hysbysiad methu prawf preswyllo, a bydd meddiannydd yn agored i ddirwy.

### **Adran 53 Dyletswydd perchennog safle mewn perthynas â hysbysiad methu prawf preswyllo**

372. Pan fydd awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad methu prawf preswyllo rhaid iddo hefyd roi gwybod i berchennog y safle carafannau gwyliau.
373. Hefyd caiff awdurdodau lleol roi unrhyw gyfarwyddiadau i berchnogion safle ynghylch gweithredu mewn perthynas â meddiannydd sydd wedi methu'r prawf preswyllo. Mae'n amod mewn trwydded safle bod y perchennog yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn.

## **RHAN 4 - CYTUNDEBAU CARAFANNAU GWYLIAU**

### **Adran 54 Cytundebau y mae'r Rhan yn gymwys iddynt**

374. Bydd y Rhan hon yn gymwys i unrhyw gytundeb y mae gan berson hawl odano i (a) gosod ei garafán ei hun ar safle carafannau gwyliau am fwy na chwe wythnos olynol, neu (b) meddiannu carafán wyliau sy'n eiddo i berchennog y safle am fwy na chwe wythnos olynol.
375. Yn y naill achos a'r llall rhaid i'r meddiannydd ddefnyddio'r garafán wyliau at ddibenion gwyliau yn unig. Golyga hyn na fydd personau a gyflogir i weithio ar y safle ac sydd, oherwydd eu gwaith, yn byw ar y safle yn cael eu hamddiffyn gan Ran 4 am nad ydynt yn gosod/meddiannu'r garafán wyliau at ddibenion gwyliau.
376. Mae Rhan 4 yn gymwys i gytundebau boed y cytundeb wedi'i wneud cyn neu ar ôl i'r Rhan hon o'r Ddeddf ddod i rym.

### **Adran 55 Manylion cytundebau**

377. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i berchennog safle, cyn gwneud cytundeb carafannau gwyliau, roi datganiad ysgrifenedig i'r darpar feddiannydd sy'n nodi'r canlynol:
- enwau a chyfeiriadau'r partïon
  - manylion y llain
  - telerau datganedig y cytundeb (gan gynnwys y telerau a bennir yn adran 55(1)(c))
  - y telerau sydd ymhlyg yn adran 56.

378. O dan is-adran (2) rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gael ei roi heb fod yn hwyrach nag 28 diwrnod cyn dyddiad y cytundeb. Mae is-adran (3) yn caniatáu i'r cyfnod hwnnw fod yn fyrrach os yw'r meddiannydd yn cydsynio i hynny (oni bai bod y perchennog yn gwerthu'r garafán wyliau, ac os felly mae'r cyfnod o 28 diwrnod yn gymwys).
379. Mae is-adran (4) yn ymdrin â chytundebau carafannau gwyliau a oedd eisoes wedi'u gwneud cyn i'r Rhan hon ddod i rym. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gael ei roi cyn pen tri mis o ddyddiad cychwyn y Rhan hon.
380. Mae is-adran (5) yn datgan, os nad yw cytundeb ysgrifenedig yn cynnwys telor datganedig, nad yw'r telor hwnnw'n orfodadwy gan berchennog y safle. Mae hyn yn egluro mor bwysig yw darparu'r datganiad ysgrifenedig.
381. Gellir rhoi datganiadau ysgrifenedig yn bersonol, drwy'r post neu drwy'r post electronig. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd, yn enwedig lle bydd perchennog y safle a'r meddiannydd yn cytuno ar gyfnod byrrach o dan adran 55(3).

### **Adran 56 Telerau ymhlyg mewn cytundebau**

382. Mae'r telerau canlynol ymhlyg mewn pob cytundeb carafannau gwyliau (ac mae ganddynt effaith ni waeth beth a ddywed y telerau datganedig):
- rhaid i feddianwyr gydymffurfio â Rhan 3 ynghylch y prawf preswyllo (ac os bydd y meddiannydd yn methu'r prawf preswyllo mae'r perchennog yn cael ei ryddhau o'i rwymedigaethau o dan y cytundeb carafannau gwyliau i'r graddau sy'n angenrheidiol i allu cydymffurfio â chyfarwyddiadau gan yr awdurdod lleol o dan adran 53(2)).
  - rhaid i feddianwyr roi gwybod i berchnogion safleoedd am unrhyw newid yn eu hamgylchiadau sy'n berthnasol i'r prawf preswyllo.
  - rhaid i feddianwyr hysbysu perchnogion safleoedd ymlaen llaw os byddant yn caniatáu i rywun ddefnyddio'r garafán wyliau am gyfnod o fwy na chwe wythnos olynol.
  - rhaid i berchnogion safleoedd roi copïau o filiau cyfleustodau a'r bil ardrethi annomestig i feddianwyr, pan wneir cais rhesymol am hynny gan feddianwyr.

- rhaid i berchnogion safleoedd ymgynghori â pherchnogion carafannau gwyliau ynghylch materion penodol sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar feddianwyr (heblaw mewn argyfwng pan fydd angen i berchennog safle gymryd camau rhesymol i ofyn barn perchnogion carafannau gwyliau).

383. Os bydd perchennog y safle yn methu â chydymffurfio â'r telerau hyn, caiff y meddiannydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gydymffurfio.

#### **Adran 57 Olynwyr perchnogion mewn teitl**

384. Mae'r adran hon yn darparu bod cytundebau carafannau gwyliau yn parhau i rwympo olynnydd mewn teitl i berchennog safle carafannau gwyliau.

#### **Adran 58 Awdurdodaeth**

385. Mae'r adran hon yn darparu yr ymdrinnir ag anghydfodau sy'n ymwneud â Rhan 4 a chytundebau carafannau gwyliau yn y llys sirol.

### **RHAN 5 AMDDIFFYN RHAG AFLONYDDU**

#### **Adran 59 Cymhwyso'r Rhan**

386. Mae'r adran hon yn egluro bod Rhan 5 yn gymwys i bob meddiannydd, ni waeth am ba hyd y mae'n gosod neu'n meddiannu carafán wyliau ar safle.

#### **Adran 60 Amddiffyn rhag aflonyddu**

387. Mae'r adran hon yn darparu ei bod yn drosedd aflonyddu ar feddianwyr carafannau gwyliau. Mae aflonyddu yn cynnwys amddifadu meddianwyr o'u defnydd o garafán wyliau, ymyrryd â llonyddwch neu gysur meddianwyr gyda'r bwriad o'u hannog i roi'r gorau i feddiannu'r garafán wyliau (neu ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol gyda'r un bwriad).

#### **Adran 61 Troseddau o dan adran 60: atodol**

388. Mae'r adran hon yn darparu bod gan ddiffynnydd amddiffyniad rhesymol mewn amgylchiadau penodol.

389. Mae unrhyw berson a geir yn euog o aflonyddu o dan adran 60 yn agored i ddirwy a/neu garchar.

## **RHAN 6 ATODOL A CHYFFREDINOL**

### **Adran 64 Gwybodaeth anwir neu gamarweiniol**

390. Mae'r adran hon yn darparu y cyflawnir trosedd os gwneir datganiad neu osodiad arall sy'n gamarweiniol, neu os darperir gwybodaeth anwir neu gamarweiniol. Mae hefyd yn drosedd i fetu â darparu unrhyw wybodaeth neu hysbysiadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

### **Adran 65 Canllawiau gan Weinidogion Cymru**

391. Mae'r adran hon yn rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol i'w harwain o ran cyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

### **Adran 66 Diwygiadau canlyniadol ac atodol etc.**

392. Mae'r adran hon yn ymwneud â materion technegol fel y pŵer i wneud darpariaethau canlyniadol, trosiannol, darfodol ac arbedion.

### **Adran 67 Rhwymedigaeth swyddogion cyrff corfforaethol**

393. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo corff corfforaethol yn cyflawni trosedd, a lle profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu drwy gydgyllwyn swyddog y corff corfforaethol, neu fod y drosedd i'w phriodoli i esgeulustod ar ran y person hwnnw, yna bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd. Gellir dwyn achos yn erbyn y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol a gellir cosbi'r ddau yn unol â hynny. Mae is-adran (2) yn diffinio ystyr swyddog corff corfforaethol.

### **Adran 69 Gorchmynion, rheoliadau a chanllawiau**

394. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer gorchmynion a rheoliadau o dan y Ddeddf. Yn benodol, mae'n darparu ar gyfer gwneud gorchmynion a rheoliadau drwy offeryn statudol, ac eithrio pan bennir yn wahanol.

395. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori cyn arfer eu pŵer o dan adran 2(4) (gorchymyn yn diwygio'r ffigurau ynglŷn â dimensiynau carafán wyliau a grybwyllir yn adran 2(3)).

396. Mae gweddill yr adran hon yn pennu'r weithdrefn Cynulliad sydd i'w chymhwyso yn achos amryfal offerynnau statudol a wneir o dan y Ddeddf, ac mae is-adran (8) yn egluro y caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu dynnu'n ôl unrhyw ganllawiau a ddyroddir ganddynt o dan y Ddeddf.

## **ATODLEN 1 SAFLEOEDD NAD YDYNT YN SAFLEOEDD CARAFANNAU GWYLIAU**

397. Mae Atodlen 1 yn ailddatgan Atodlen 1 i Ddeddf 2013.<sup>34</sup> Mae'n pennu pa safleoedd sy'n esempt rhag cael trwydded safle, er enghraifft safleoedd a gymeradwywyd gan sefydliadau esempt a safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithwyr amaethyddiaeth.

398. Mae paragraff 11 yn darparu esemptiad dros dro ar ôl marwolaeth y perchennog neu newid perchnogaeth. Mewn achosion o'r fath darperir "cyfnod esempt cychwynnol" o dri mis o'r gofyniad i gael trwydded safle, a chaiff yr awdurdod lleol estyn y cyfnod hwnnw os gwneir cais.

399. Mae paragraff 13 yn darparu bod tystysgrifau a roddir o dan Atodlen 1 i Ddeddf 1960 yn parhau i fod yn gymwys pan ddaw'r Ddeddf hon i rym.

## **ATODLEN 2 TYSTIOLAETH AT DDIBENION Y PRAWF PRESWYLIO**

400. Y dogfennau y cyfeirir atynt yn adran 45(3) at ddibenion y prawf preswyllo yw dogfennau sy'n dangos y canlynol:

- unig neu brif breswylfa'r meddiannydd at ddibenion y dreth gyngor;
- cyfeiriad ysgol y mae plant y meddiannydd, sy'n byw gyda'r meddiannydd, yn mynd iddi;
- cofnod y meddiannydd ar gofrestr etholiadol;
- cyfeiriad y meddiannydd ar gyfer derbyn gohebiaeth gan sefydliad ariannol;

---

<sup>34</sup> Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn seiliedig ar Atodlen 1 i Ddeddf 1960.



- cyfeiriad y meddiannydd ar gyfer derbyn gohebiaeth gan ddarparwr cyfleustodau;
- cyfeiriad y meddiannydd ar gyfer derbyn gohebiaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- cofrestriad y meddiannydd gydag ymarferydd cyffredinol.

### **ATODLEN 3 DARPARIAETHAU TROSIANNOL A DARFODOL AC ARBEDION**

401. Mae Atodlen 3 yn cynnwys darpariaethau trosiannol a darfodol ac arbedion. Er enghraifft, mae cais am drwydded safle o dan Ddeddf 1960, ac sydd heb ei benderfynu ar yr adeg y daw Rhan 2 o'r Ddeddf hon i rym, yn cael ei drin fel cais am drwydded safle o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon.

## Atodiad A – Cyfeiriadau

- 
- <sup>i</sup> Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain/Croeso Cymru, [Economic Impact Assessment of the Holiday Park Industry in Wales](#), Medi 2011, t.2 [fel ar 14 Chwefror 2014]
- <sup>ii</sup> *Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960*, adran 3(6)
- <sup>iii</sup> *Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960*, adran 9(2)
- <sup>iv</sup> Cyngor Sir Ddinbych, Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio, [Adroddiad ar reoli meysydd carafannau](#), 24 Mehefin 2010, para 5.31 [fel ar 11 Chwefror 2013]
- <sup>v</sup> Environment & Regeneration Scrutiny Committee, [Report on the control of caravan sites](#), 24 June 2010, para 5.31 [accessed 31 May 2013]
- <sup>vi</sup> Y Swyddfa Gymreig, [Nodyn Cyngor Technegol \(Cymru\) 13: Twristiaeth](#), Hydref 1997 [fel ar 3 Mai 2013]
- <sup>vii</sup> Y Swyddfa Masnachu Teg, [Guidance on Unfair Terms in Holiday Caravan Site Agreements](#), Medi 2005 [fel ar 14 Chwefror 2014]
- <sup>viii</sup> C Beatty, S Fothergill, R Powell ac S Scott (2011) [The Caravan Communities of the Lincolnshire Coast](#), CRESR, Sheffield Hallam University. [fel ar 9 Chwefror 2014]
- <sup>ix</sup> Y Cyngor Carafannau Cenedlaethol, [Understanding how to make the best use of your holiday caravan home](#), Mehefin 2013 [fel ar 18 Rhagfyr 2013]
- <sup>x</sup> Asiantaeth y Swyddfa Brisiol, [Practice Note 7: Application of Council Tax to caravan pitches and moorings](#) [fel ar 12 Chwefror 2014]
- <sup>xi</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, [Proffil Iechyd Gogledd Cymru: Oed, rhyw a ffactorau biolegol](#), Mawrth 2013 [fel ar 13 Chwefror 2014]
- <sup>xii</sup> [http://cynulliadcymru.org/caravan\\_sites\\_wales\\_bill\\_-\\_consultation\\_letter\\_and\\_draft\\_bill.pdf](http://cynulliadcymru.org/caravan_sites_wales_bill_-_consultation_letter_and_draft_bill.pdf) [fel ar 6 Mawrth 2014]